Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales

# Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2020-2021



Gweithredu heddiw
*ar gyfer gwell yfory.*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

# Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

Adroddiad Blynyddol 2020-2021

Rydyn ni wedi cynhyrchu'r ddogfen hon i'w darllen fel cyflwyniad rhyngweithiol.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio o bell ers mis Mawrth 2020, tynnwyd yr holl luniau yn cynnwys gweithgaredd personol cyn y pandemig COVID-19.

Lle rydych chi'n gweld yr arwyddion hyn:

| | |
|---|---|
| Darganfyddwch fwy | **Darllenwch fwy** |
| Tudalen Gynnwys | |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Cynnwys

Adroddiad Perfformiad a Chyfrifon 2020-2021


Pwrpas 1

Tynnu sylw at y materion a'r heriau mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnynt.

Tudalen 38

Pwrpas 2

Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Tudalen 78

Pwrpas 3

Creu mudiad dros newid.

Tudalen 96

Pwrpas 4

Gweithredu'r Geiriau - dyna'r newid yr ydym am ei weld mewn eraill.

Tudalen 122

Adroddiad AtebolrwyddTudalen 136

Tudalen 136

Y 12 mis nesaf

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Beth fyddwn ni'n ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf.

Tudalen 133

Datganiadau Ariannol

Tudalen 160

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Rhagair

**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae'n debygol iawn y bydd y '2010au' yn cael eu cofio fel degawd o aflonyddwch byd-eang. Ac o edrych ar 2020 y tebygrwydd yw y bydd byw mewn byd ansicr sy'n newid yn gyflym yn sicr o ddod yn realiti newydd i ni.



Mae COVID wedi effeithio ar bob agwedd o'n bywydau. Mae wedi amlygu anghydraddoldebau enfawr, natur ansicr gwaith, heriau system gofal iechyd sydd wedi ei ganoli ar alwadau am wasanaeth, ac wedi ail-ffocysu meddyliau gwleidyddion a'r cyhoedd ar yr angen i ragweld, lliniaru a pharatoi ar gyfer risgiau yn y dyfodol. Ond bu llawer o bethau cadarnhaol: contract cymdeithasol sydd newydd ei ddatblygu rhwng cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig, y gostyngiad mewn teithio diangen a phobl yn cysylltu mwy â'u cymunedau ac â natur. Mae'n werth nodi hefyd bod llywodraethau ledled y byd yn sôn am 'adeiladu'n ôl yn well' a sicrhau bod buddsoddiad ar ôl COVID wedi'i dargedu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae llawer o wledydd yn edrych i weld sut y gellir gwella bywydau cenedlaethau'r dyfodol ac yn archwilio syniadau Ombwdsmyn, Comisiynau a chyllidebau llesiant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gibraltar wedi pasio deddfwriaeth sy'n adlewyrchu'n deddfwriaeth ni, mae Llywodraeth newydd yr Alban wedi addo pasio deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae Bil aelodau preifat yn cael ei lywio trwy Senedd y DU. Ond mae'n dal yn wir mai gan Gymru y mae'r ymagwedd fwyaf blaengar tuag at lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn atal problemau wrth fanteisio ar yr holl gyfleoedd y mae ein byd cyfnewidiol yn eu cynnig i ni, gan fod Cymru hefyd wedi etifeddu rhai o'r cyfraddau uchaf o dlodi sy'n pontio cenedlaethau, gordewdra ymhlith plant ac anghydraddoldebau ledled y DU. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfle i newid hyn - ac i adael ar ein hôl etifeddiaeth yr ydyn ni'n falch ohoni. Pasio'r Ddeddf yn 2015 a barodd i'r Cenhedloedd Unedig ddweud, '*yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, rydyn ni'n gobeithio y bydd y byd yn ei wneud yfory*', gan gydnabod y ffyrdd y mae fframwaith deddfwriaethol Cymru'n ategu mentrau rhyngwladol fel Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.



Mae ein deddfwriaeth, sy'n torri tir newydd, yn cael effaith. Gallaf weld bod yna fudiad dros newid sy'n tyfu, gyda phobl sy'n credu mewn gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru yn gweithio i wneud pethau'n wahanol yn eu sefydliadau eu hunain ac yn ehangach, yn aml yn erbyn cefndir o ansicrwydd gwleidyddol, caledi parhaus, ac wrth gwrs yn awr, yr aflonyddwch seismig a achoswyd gan COVID-19. Rwy'n gweld eiriolwyr unigol y Ddeddf, a'r modd y mae'n gweithio, yn newid y ffordd y mae cynllunio trafnidiaeth yn cael ei wneud yn ein prifddinas, gan ddiwygio'r ffordd yr ydyn ni'n meddwl am gadw pobl hŷn yn iach a symud y tu hwnt i ddarparu 'gwasanaethau' i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rwy'n gweld gwleidyddion yn gwrthod y status quo o fynd i'r afael â thagfeydd trwy adeiladu mwy o ffyrdd, gan chwilio am ddatrysiadau amgen sy'n well i lesiant pobl a'r blaned.

> *"Pan fydd gwleidyddion yn methu ag edrych y tu hwnt i'r etholiad nesaf - neu hyd yn oed y trydariad diweddaraf - maen nhw'n esgeuluso hawliau cenedlaethau'r dyfodol."*
>
> **Roman Krznaric**

Rydyn ni wedi cychwyn mewn dull cadarn ond yn fwy nag erioed, nawr yw'r amser i'n llywodraeth a phob corff cyhoeddus yng Nghymru i ddangos sut maen nhw'n defnyddio'r Ddeddf i fframio popeth maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n gweithredu heddiw er mwyn creu gwell yfory.

**Uchafbwyntiau personol i mi eleni oedd:**

- Cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Newydd - Llwybr Newydd – New Path. Mae hon yn foment bwysig i system drafnidiaeth Cymru ac yn dyst i'r newid y mae'r Ddeddf yn ei gyflawni. Yn yr un modd, yr argymhellion a'r cynigion gan Gomisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru yw'r union fath o weledigaeth a nodir gan y Ddeddf.
- Dylanwadu ar adferiad Cymru yn dilyn COVID gan arwain at ffocws ar adferiad ffyniannus, gwyrdd a chyfartal, yn hytrach na busnes-fel-arfer sy'n gwaethygu problemau amgylcheddol a chymdeithasol.
- Cyfranogwyr yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn cymryd rhan mewn sesiynau mentora o chwith gyda gwneuthurwyr penderfyniadau proffil uchel fel Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ond mae fy rôl yn dal i wynebu heriau; yn arbennig, nid oes gennyf ddigon o adnoddau ar gyfer y dasg o dan sylw. Mae yna lawer o faterion pwysig ag angen gweithredu arnynt ond mae'n rhaid i mi wneud penderfyniadau anodd ar beth i dalu sylw iddynt. Rwyf wedi gorfod troi pobl i ffwrdd sydd eisiau ac angen help. Mae cwmpas y Ddeddf yn helaeth. Mae darparu cefnogaeth a her mewn meysydd polisi eang gydag ystod eang o wasanaethau cyhoeddus yn heriol. Gall pob penderfyniad effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Mae mwy na 300 o amcanion llesiant wedi cael eu dylunio ac nid oes gan fy swyddfa ddigon o amser i drin â hwynt yn ddigon manwl gyda chyrff cyhoeddus i wirio cynnydd.

Rwyf bob amser yn gorfod dod o hyd i ffyrdd newydd a chreadigol o gyfathrebu a chynnwys pobl i dorri trwy'r holl flaenoriaethau eraill sy'n herio cyrff cyhoeddus. Mae hyrwyddo a gweithredu'r Ddeddf yn gofyn am ddod o hyd i gydbwysedd cain rhwng darparu gweledigaeth gadarnhaol i ennill calonnau a meddyliau, gyda dadansoddiad technegol manwl.

Mae adeiladu'r mudiad dros newid sydd ei angen er mwyn i Gymru gyflawni'r nodau cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bawb ymgyfrannu, y tu hwnt i'r sector cyhoeddus. Tra bo'r Ddeddf yn canolbwyntio ar gyrff cyhoeddus, mae'n  bwysig i gadw cysylltiad â busnes, addysg a'r sector gwirfoddol gan eu bod yn ddarnau pwysig o'r jig-so.

Mae'r Ddeddf yn sbarduno newid ac mae'n bwysig i fyfyrio ar yr ymagweddau newydd tuag at lywodraethu Cymru sydd wedi deillio ohoni – yn amrywio o gwricwlwm newydd i ysgolion sy'n rhoi mwy o bwyslais ar lesiant plant i strategaeth economaidd sy'n canolbwyntio ar lesiant a chynnydd mewn cyllid ar gyfer yr argyfwng hinsawdd. Mae'r Ddeddf hefyd wedi darparu fframwaith ar y modd y mae'n gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i heriau COVID-19 trwy gydweithio ag eraill. Er enghraifft. Er enghraifft, Amgueddfa Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol; cynnydd yn y gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio i gadw pobl yn iach yn ogystal â'u trin pan fyddant yn sâl; a ffocws ar greu swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

Ar ôl pum mlynedd, mae angen i ni gyflymu newid a chynorthwyo gweithrediad y newid hwn. Dangosodd Llywodraeth Cymru ymagwedd flaengar wrth basio'r ddeddf hon - ond mae wedi tanamcangyfrif maint y ffocws, y gefnogaeth a'r diwygiad sydd eu hangen i'w sicrhau ym mhob haen o lywodraethu a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Bellach mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod yr ymagwedd uchelgeisiol tuag at basio deddfwriaeth ar lawr y Senedd yn cyd-fynd â gweithredu'r Ddeddf mewn dull uchelgeisiol ar lawr gwlad.





Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Crynodeb o'r hyn a wnes i yn 2020 - 21

- **Cyhoeddais fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol** ym mis Mai 2020, sy'n cynnwys fy asesiad o gynnydd a chyngor i bob un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru, sy'n dod o dan y Ddeddf; a chyfres o grynodebau hygyrch a thargededig.

- **Cyhoeddi cynllun 5 pwynt** i ddylanwadu ar Gyllideb Atodol gyntaf y Llywodraeth sy'n manylu ar sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn ystod ac ar ôl y pandemig. Gwnes sicrhau cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru tuag at fynd i'r afael â'r hinsawdd, argyfwng natur a theithio llesol yn y gyllideb.

- **Dylanwadu ar gynllun adfer arfaethedig y Llywodraeth** yn dilyn y pandemig COVID, gyda mwy o ffocws ar adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal.

- **Sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n creu Addewid Gweithwyr Llawrydd** - cronfa gwerth £ 7 miliwn i gefnogi gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru a gafodd eu taro galetaf gan bandemig COVID-19.


THE STAGE News Reviews More Jobs Suppliers Castings Training Awards Events

Future Generations Commissioner Sophie Howe

**Welsh Government urged to pilot universal basic income for creatives**

NEWS AUG 19, 2020 BY GIVERNY MASSO

The Welsh Government is being urged to explore the idea of a universal basic income for creatives

- **Helpu i gael peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI)** ar agenda'r llywodraeth newydd. Mae'r ffaith fod Llywodraeth Cymru'n barod i ystyried incwm sylfaenol fel blaenoriaeth i'r llywodraeth newydd ym mis Mai 2021 yn ymrwymiad hynod bwysig gan y Prif Weinidog i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae'n foment enfawr i'r ymgyrch, ac rydw i wedi bod yn falch o fod yn rhan ohoni.

- **Wedi helpu i sicrhau bod** *Cwricwlwm newydd Cymru 2022* yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae canllawiau fframwaith y cwricwlwm yn annog ysgolion a lleoliadau addysg eraill i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio gan geisio cyfrannu at y nodau llesiant.


- **Trwytho ymagwedd radical newydd** tuag at symudedd a nodir yn y Strategaeth Drafnidiaeth newydd Llwybr Newydd – New Path. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo symud Cymru i ffwrdd o orddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat ac yn lle hynny greu mwy o le ar gyfer beicio a cherdded; rhwydwaith dibynadwy o lwybrau bysiau; a gwell trenau, gwasanaethau a gorsafoedd i gysylltu pobl â chyflogaeth, iechyd a hamdden.

- **Ennyn ymgyfraniad ystod** eang o randdeiliaid a phobl â phrofiad byw i ddod o hyd i faterion a rennir ac adeiladu mudiad dros newid o amgylch y materion hyn.

- **Rhoi tystiolaeth i bedwar o Bwyllgorau'r Senedd ar faterion** yn amrywio o adferiad yn dilyn COVID, sgiliau ar gyfer y dyfodol, y cwricwlwm a chyllideb strategol Llywodraeth Cymru.


- **Hefyd rhoddais dystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** i'r rhwystrau sy'n wynebu gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd hyn groeso mawr gydag Adroddiad y Pwyllgor yn adleisio llawer o fy argymhellion.

- **Cynhaliais fy Adolygiad Adran 20** cyntaf i gaffael mewn naw corff cyhoeddus a chyhoeddi Adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru, gyda syniadau, argymhellion ac enghreifftiau ar sut y gallai caffael sbarduno newid cadarnhaol'.




- **Rhoi cyngor a chymorth i dros 260 o sefydliadau** sydd wedi gofyn am gefnogaeth i roi'r Ddeddf ar waith. Galluogi newid o fewn cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth, cysylltiadau a datgloi rhwystrau. Er enghraifft: helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i edrych yn ehangach ar fuddion amgylcheddol a chymunedol posibl eu hystadau a'u hysbyty newydd a helpu Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ystyried ymgorffori cymdogaeth 20-munud yn eu Cynllun Datblygu Lleol.

- **Hyrwyddo arweiniad ac adnoddau** i gyrff cyhoeddus ac unrhyw un sydd am helpu i gyflawni'r nodau llesiant a pharhau i gynyddu ymwybyddiaeth a chapasiti, yn arbennig ynghylch meddwl yn benodol yn yr hirdymor, trwy fy hyfforddiant a Phecyn Cymorth Tri Gorwel.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales


- **Helpu cannoedd o aelodau o'r cyhoedd,** grwpiau gweithredu, grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr etholedig i wella'u cymunedau a herio'r status quo. Er enghraifft, ym Mro Morgannwg i wyrdroi penderfyniad ar y Canllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth arfaethedig.
- **Lansio fy Maniffesto y Dyfodol,** gyda phobl ifanc rhwng 11 a 17 oed yn annog gwleidyddion i weithredu nawr ar newid hinsawdd ac anghydraddoldeb.




- **Wedi cyflwyno fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol** cyntaf gyda charfan o 20 o gyfranogwyr sydd wedi mentora prif weithredwyr ledled Cymru, wedi darparu her adeiladol ar adferiad COVID y Llywodraeth ac wedi cynrychioli Cymru ar lwyfan y byd. Datgelodd gwerthusiad annibynnol fod y cyfranogwyr wedi gwella eu dealltwriaeth o'r Ddeddf a'r sgiliau arwain sydd eu hangen i weithredu'r saith nod llesiant.



- **Sefydlu partneriaeth â thîm** Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r dyfodol trwy Strategaeth Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth.
- **Sefydlu partneriaeth â thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru** i hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r dyfodol trwy Strategaeth Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth. Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a fy rôl trwy ddigwyddiadau fel y gynhadledd Gwerth Cymdeithasol Genedlaethol, Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent, Cynhadledd genedlaethol Cydffederasiwn GIG Cymru, cynhadledd drafnidiaeth 4theRegion, Uwchgynhadledd Entrepreneuriaeth Fyd-eang TiE, Finnsight 2020 a Countdown TED ym mis Hydref 2020.




- **Parhau i 'weithredu fy ngeiriau'** drwy ysgwyddo'r newid yr wyf am ei weld mewn eraill, gan gynnwys polisi newydd a fydd yn caniatáu i staff sy'n dioddef cam-drin domestig gael grant neu fenthyciad i 'leddfu rhwystrau ariannol' sy'n eu hatal rhag gadael y tramgwyddwr.
- **Recriwtio ein hail Fardd Preswyl,** Taylor Edmonds. (below).




## Adeiladu proffil yng Nghymru a'r byd drwy:

- **Ymuno â'r Tywysog William, y Pab Francis, Al Gore,** a dros 50 o siaradwyr nodedig yn y gynhadledd ddi-dâl gyntaf erioed i gael ei chynnal gan TED sef, Countdown.
- **Cefnogi rhanddeiliaid i gyflwyno deddfwriaeth** llesiant a chenedlaethau'r dyfodol. Mae Mesur wedi'i gyflwyno yn Senedd y DU, tra bod cynlluniau wedi'u cyflwyno ar gyfer Mesur yn yr Alban gan Blaid Genedlaethol yr Alban.
- **Cynghori rhanddeiliaid** yn yr Eidal a'r Almaen ar ddatblygiad deddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf hefyd wedi cynghori Swyddfa Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ynghylch datblygu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y Cenhedloedd Unedig.
- **Cynrychioli Cymru** yn 'Fforwm Wleidyddol Lefel Uchel' y Cenhedlopedd Unedig, Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Statws Menywod ac Uwchgynhadledd Un Byd Ifanc.
- **Cynghori'r** Youth 7 (G7) ar eu cysylltiad ag arweinwyr G8 sy'n canolbwyntio ar 'genedlaethau'r dyfodol a datblygiad polisi hirdymor'.
- **Cael fy enwi fel #5 yn y** BBC Women's Hour Powerlist 2020.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

- **Cyfeiriwyd at fy ngwaith gan yr economegydd byd enwog Mariana Mazzucato** yn y New York Times, a ymddangosodd yn y Guardian, Daily Mirror, yr Ecologist, iNews, Positive News; ar Woman's Hour ar Radio Four ac ar deledu Biosfera ym Mhortiwgal, a chylchgrawn Syre yn Sweden. Ymddangosodd hefyd yn Adroddiad Global Innovations yr OECD a sawl llyfr gan gynnwys The Good Ancestor gan Roman Kznaric.


Green bus, rail and cycle network 'should replace axed M4 extension in Wales'

Government commission calls for sustainable alternative to ease congestion between Cardiff and Severn Bridge

Gwyn Topham *Transport correspondent*


Mirror

Some experts believe a Universal Basic Income would help ease inequality

Wales could become test bed for Universal Basic Income, says wellbeing tsar

By Ben Glaze, Deputy Political Editor

22:30, 11 Oct 2020 | UPDATED 09:25, 12 Oct 2020

> *"Mae'r cynigion wedi eu llunio gan ddeddfwriaeth arloesol yng Nghymru sy'n amddiffyn anghenion cenedlaethau'r dyfodol, yn cynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Dywedodd Comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol Cymru, Sophie Howe, y gallai fod "yn foment gofiadwy…ac yn dyst i'r newid sy'n deillio o'r Ddeddf", gan ychwanegu "rhaid mai dyma'r cyntaf o nifer o ail-ddyluniadau o'r modd yr ydyn ni'n adeiladu cymunedau'r dyfodol gyda thrafnidiaeth sy'n lân, fforddiadwy a hygyrch."*


A four-day week and universal basic income: the post-coronavirus world Wales's future tsar wants to see UK-wide

Sophie Howe said we have an opportunity now to reimagine how we work and travel and that 'we may never get this chance again'

Sophie Howe is the world's first - and only - future generations commissioner (Photo: Sophie Howe)


Published 2021-03-04

Radar - Basic income


Wales wants basic income - largest child poverty in the UK

Share the article:

Three out of four people in Wales are in favor of the Welsh National Assembly conducting a pilot test with basic income. It shows a new survey conducted by Sophie Howe, Ombudsman for Future Generations in Wales.

Ylva Bergman
News Manager

More articles by the author


'Pilot universal basic income and shorter working weeks in Wales'

By Cemlyn Davies
BBC Wales political correspondent

19 October 2020 | Comments

FUTURE GENERATIONS COMMISSIONER FOR WALES

Sophie Howe has called for politicians to be "brave and radical"

A shorter working week and universal basic income should be piloted by the next Welsh Government, a policy influencer has said.

Wales' Future Generations Commissioner Sophie Howe has published a "manifesto" ahead of May's Senedd election setting out policies she would like the next administration to adopt.

> *"Ni ddylem fod yn ceisio addasu a chymhwyso popeth i ffitio Cynnyrch Gros Domestig (GDP) fel dull o fesur. Mae yna gydrannau gwerthuso a metrigau sy'n llawer mwy deinamig na'r GDP. Yng Nghymru mae prosiectau cynlluniedig y sector cyhoeddus yn cael eu gwerthuso gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â mandad i wneud argymhellion yn seiliedig ar yr effeithiau ar y rhai sydd eto i'w geni."*

**Mariana Mazzucato**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Cyflawniadau mwyaf arwyddocaol hyd yn hyn

Er bod gennym dipyn o ffordd i fynd, rwy'n gweld newid amlwg mewn ymrwymiad gwleidyddol mewn perthynas â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru yn arbennig o bwysig oherwydd eu bod yn gorff cyhoeddus o bwys a gwmpesir gan y Ddeddf eu hunain, ac oherwydd eu bod - p'un ai ydynt yn amlygu egwyddorion y Ddeddf ai peidio - yn cael effaith sylweddol ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ei wneud.

Rwyf hefyd yn gweld arfer rhagorol yn dod i'r amlwg mewn cyrff cyhoeddus eraill. Mae'r gwaith partneriaeth, ymgysylltiad â'r sector preifat i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol, dulliau newydd o weithio a mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau, y gostyngiad mewn allyriadau carbon, a'r rhaglenni sy'n gweithio gyda chymunedau i ddarparu gwasanaethau, yn arbennig o nodedig.







Credyd: Amy Newcomb




Credyd: Senior Airman Rachael E. Watson

| Beth rydyn ni wedi'i wneud: | Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth: |
|---|---|
| **Sgiliau er mwyn byw'n dda** | |
| Gwneuthum yr argymhellion canlynol ar dai yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a Maniffesto y Dyfodol.<br>■ **Dylai Llywodraeth Cymru ddod â phob sector ynghyd fel rhan o ymagwedd genedlaethol gydgysylltiedig i ddarparu addysg sy'n addas ar gyfer y Dyfodol.**<br>■ **Ail-feddwl yn radical gymwysterau disgyblion 16 mlwydd oed, tuag at asesu sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth ac sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion yn hytrach na'u profi.**<br>■ **Blaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant wrth gyflawni'r Cwricwlwm newydd.**<br>■ **Comisiwn Newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil er mwyn cynhyrchu dysgu gydol oes, gweledigaeth genedlaethol, i'w sefydlu gyda'r Ddeddf yn ganolbwynt.**<br>■ **Creu gweledigaeth a chynllun i Gymru fod y wlad fwyaf eco-lythrennog yn y byd.**<br>■ **Buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant i gefnogi'r newid i ddyfodol gwell, gan greu swyddi gwyrddach a nodi cynllun ar gyfer ymateb i dueddiadau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u dwysáu.**<br><br>Cynghori ar weithredu'r cwricwlwm newydd a sicrhau bod gan bobl o bob oed (gan gynnwys y rhai sydd eto i'w geni) y sgiliau sydd eu hangen i ymdopi â chyfleoedd a heriau fel awtomeiddio a'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Mewn ymateb i COVID-19, rwyf wedi bod yn gweithio gyda Grwpiau Cynghori Gweinidogol, TUC Cymru, ac eraill i adeiladu tystiolaeth o amgylch adferiad gwyrdd. Yn syml, nid oes digon o athrawon, na phrentisiaethau, na digon o gyrsiau coleg a phrifysgol yn cael eu haddysgu neu eu dysgu yn y diwydiannau sydd eu hangen arnom ar gyfer dyfodol glanach a gwyrddach. | **Mae Llywodraeth Cymru** yn cymryd agwedd fwy blaengar, hirdymor ac integredig tuag at addysg a sgiliau mewn meysydd sy'n cynnwys y cwricwlwm, seilwaith digidol, ail-ystyried cymwysterau a gweld sgiliau fel sbardun ehangach i lesiant. Bu cynnydd yn y cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol a chynnydd yn y nifer o athrawon. Bellach mae asesiad athrawon wedi disodli arholiadau yn ystod 2020 a 2021. Ac awgrymodd yr Adolygiad Annibynnol bod angen newid cymwysterau yn yr hirdymor. Mae Cymwysterau Cymru wrthi'n ystyried y cydbwysedd cywir rhwng arholiadau / dulliau eraill o asesu yn y dyfodol.<br><br>Yng **Nghaerdydd, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot,** mae ystafelloedd dosbarth dysgu awyr agored ac Ysgolion Coedwig ar gael.<br><br>Mae sefydliadau llai fel **Cymgrogi Futures yn Sir Benfro, Permaddiwylliant 39 ym Mhowys; Coleg y Mynydd** Du i gyd yn seilio dysgu ar ecosystemau a chydnerthedd hinsawdd / natur.<br><br>Yng **Ngwent, mae Cymunedau Digidol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** yn dod â'r hen a'r ifanc ynghyd i ddefnyddio technoleg gyda'i gilydd. Mae plant sydd wedi'u hyfforddi fel 'Arwyr Digidol' a threulio amser gyda phobl hŷn i ddeall eu hanesion, gan ddefnyddio rhith-realiti, iPads a chynorthwywyr technoleg personol i ddysgu'r hyn sy'n bosibl i'r bobl hŷn hefyd. Profwyd hefyd ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar atal cwympiadau.<br><br>**Mae gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe** bortffolio o brosiectau mawr gwerth cyfanswm o £ 58.7m, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rhagoriaeth ranbarthol mewn ynni adnewyddadwy e.e. Canolfan Dechnoleg ynni-bositif Bae Abertawe; prosiectau datgarboneiddio gan gynnwys gwefru cerbydau trydan a modelu ansawdd aer.<br><br>**Mae Cenhadaeth Cryfhau ac Ailadeiladu Economi Cymru (Cynllun Adfer) a Strategaeth Gweithgynhyrchu** yn canolbwyntio ar yr economi llesiant ac yn defnyddio'r dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd. |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

| Beth rydyn ni wedi'i wneud: | Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth: |
|---|---|

## Mwy o gartrefi carbon isel

Gwneuthum yr argymhellion canlynol ar dai yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Maniffesto y Dyfodol.

- **Tai fel hawl dynol sylfaenol.**
- **Annog arloesi wrth ddatblygu tai a chymunedau sy'n pontio cenedlaethau.**
- **Ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad tai a ariennir yn gyhoeddus fod yn garbon-niwtral.**
- **Rwyf hefyd eisiau gweld Llywodraeth Cymru'n gweithredu argymhellion Adolygiadau Datgarboneiddio Cartrefi Presennol a Thai Fforddiadwy.**

Mae fy nghyngor wedi bod yn canolbwyntio ar yr angen i ddatgarboneiddio ein cartrefi a sicrhau bod ein cartrefi yn gallu addasu i ddemograffeg sy'n newid.

Eleni, rwyf wedi bod yn gweithio gyda NEF a Cartrefi Cymunedol Cymru i archwilio opsiynau ariannol ar gyfer cyflawni hyn.

Ymagwedd ffres, heriol a blaengar tuag at dai o fewn **Llywodraeth Cymru** sy'n helpu i wireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yw'r union beth sydd ei angen ar Gymru.

Mae fy nghyngor a'm her trwy gynlluniau fel y Grant Arloesi Tai wedi golygu bod mwy o gartrefi carbon isel o ansawdd uchel yn cael eu cynhyrchu a'u hadeiladu'n lleol ledled Cymru.

Bydd **Rhaglen Ail-osod Optimeiddiedig Llywodraeth Cymru** yn ariannu mesurau effeithlonrwydd ynni mewn hyd at 1,000 o gartrefi presennol sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol a chynghorau cofrestredig i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chyfrannu at ddatgarboneiddio.

**Mae Dinas a Sir Abertawe** wedi adeiladu 18 cartref rhent cymdeithasol sydd wedi'u cynllunio i safonau Passivhaus ynni isel, sy'n golygu mai ychydig iawn o ynni sydd ei angen arnynt ar gyfer gwresogi ac oeri, gan helpu i gadw biliau tanwydd yn isel a helpu'r amgylchedd. Fe wnaeth yr adeiladu greu swyddi, gan ddarparu cyfleoedd i brentisiaid a defnyddio cyflenwyr lleol.

**Mae Abertawe** hefyd wedi dod o hyd i gartrefi hirdymor i gannoedd o bobl ddigartref yn ystod y pandemig. Mae'r Cyngor yn gweithio ar bob mater yn holistig trwy ei amcanion llesiant ac mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ar wella iechyd meddwl preswylwyr.






| Beth rydyn ni wedi'i wneud: | Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth: |
|---|---|

## Mwy o gartrefi carbon isel

**Mae gan** gymdeithas tai **Cartrefi Conwy** is-gwmni eiddo a hyfforddiant o'r enw Creating Enterprise sydd wedi cychwyn ffatri 'tŷ modiwlar' yng Nghaergybi, sy'n defnyddio pren i adeiladu cartrefi mewn llai na phythefnos. Mae'r cartrefi yn ynni isel, a all arbed hyd at 90% mewn costau ynni i breswylwyr a thrwy leihau colli gwres mae'r effaith ar yr amgylchedd yn fach iawn.

Mae **Pobl Group** wedi lansio'r Pobl Academy, rhaglen ddatblygu dwy flynedd sy'n helpu pobl ifanc nad ydynt efallai wedi cael cyfle i adeiladu gyrfa oherwydd ystod o rwystrau cyffredin. Gall y Pobl Academy recriwtio pobl o gefndiroedd mwy amrywiol, adeiladu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn deall yn well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac sy'n helpu pobl ifanc i gael gwaith o safon.

O'r tu mewn i'r gymuned fusnes, mae **Sero Homes** bellach yn 'B Corp' ardystiedig. Eu cenhadaeth yw cyflymu'r trawsnewidiad i Sero Net, gan ganolbwyntio ar y cartrefi rydyn ni'n byw ynddynt yn barod.


Credyd: Coastal Housing

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

**Beth rydyn ni wedi'i wneud:** | **Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:**

## Newid moddol

### Beth rydyn ni wedi'i wneud:

Gwneuthum yr argymhellion canlynol ar drafnidiaeth a symudedd yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a Maniffesto y Dyfodol.

- **Buddsoddi mewn dulliau gwell o gysylltu a symud pobl trwy wella cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.**
- **Gosod targed cenedlaethol ar gyfer newid moddol i alluogi pobl i fabwysiadu dulliau teithio carbon isel.**
- **Cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc yng Nghymru.**
- **Dyrannu o leiaf 50% o wariant trafnidiaeth ar wella gwasanaethau bysiau a threnau.**

Rhoddais dystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol i ymchwiliad cyhoeddus lleol yr M4 a thystiolaeth bellach yn dweud nad oedd ffordd liniaru'r M4 yn unol â'r Ddeddf. Cyhoeddais hefyd yr adroddiad Trafnidiaeth Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol i ddangos sut y gallai Cymru drawsnewid ei system drafnidiaeth trwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

Helpodd fy nhystiolaeth i lunio'r ddadl, helpu eraill i ddeall sut y dylai'r Ddeddf weithredu a sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyriaeth allweddol yn y penderfyniad a wnaed gan y Prif Weinidog.

Fe wnes i herio gweithredu'r Canllawiau WelTAG newydd ac ysgrifennu at Ken Skates, MS (y Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd) ddwywaith - Gorffennaf 2019 a Thachwedd 2020 i dynnu sylw at yr anghenion am fwy o gapasiti a hyfforddiant.

### Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:

Mae'r penderfyniad gan **Lywodraeth Cymru** ym mis Mehefin 2019 ar yr M4 yn dangos newid amlwg mewn polisi gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, yn rhoi pwyslais sylweddol ar yr effaith y byddai'r cynllun yn ei gael ar Gymru Gydnerth.

**Strategaeth Drafnidiaeth newydd 20-mlynedd Llywodraeth Cymru** - Nod 'Llwybr Newydd – New Path' yw ail-lunio trafnidiaeth yng Nghymru, gan gynnwys hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy newydd. Mae'r strategaeth wedi cael ei thrwytho gan flynyddoedd o waith gan fy nhîm. Mae'r cynigion hyn yn gyffrous a dyma'r union fath o weledigaeth sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r penderfyniad i symud ymlaen â'r **ffordd gyswllt** arfaethedig **J34 - A48** wedi'i wyrdroi oherwydd nad oedd yn unol â'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru newydd, y gwneuthum helpu i'w ddylunio.

Mae **Adroddiad** **Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru** a gyhoeddwyd yn 2020 yn symud oddi wrth ffocws ar deithio mewn car ac yn weledigaeth o system drafnidiaeth gyhoeddus integredig, a fyddai, petai'n cael ei chyllido'n iawn yn gwneud gwelliannau mawr i gymunedau yng Nghasnewydd, Caerdydd a thu hwnt. Rhoddais gyngor, syniadau a her a oedd yn rhan o'r penderfyniad hwn. Datganiad i'r cyfryngau.

Mae **Cyngor Caerdydd** yn blaenoriaethu aer glân a newid o deithio mewn car preifat i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae dyluniadau cysyniad c ychwynnol wedi eu paratoi ar gyfer llwybrau uwch-brifffordd pedwar beic, ynghyd â chynlluniau seilwaith beiciau a'r cynllun Llogi Beicio Ar y Stryd (Nextbike) sydd wedi dod y mwyaf llwyddiannus yn y DU.



**Newid Modd Trafnidiaeth Caerdydd**

Mae **Dinas a Sir Abertawe** wedi prynu 40 o gerbydau trydan ac wedi ennill gwobr am y nifer mwyaf o faniau trydan mewn fflyd yn y sector cyhoeddus.

**Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys** wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliad strategol, gan gynnwys ym meysydd parcio Cyngor Sir Powys.

Mae llwybr **Ebbw Fawr Blaenau Gwent** sy'n cyfuno teithio llesol, integreiddio â natur a gwerthfawrogiad o ddiwylliant gyda gosodiadau celf unigryw, yn cael eu cynllunio ar draws y llwybr.



**Beth rydyn ni wedi'i wneud:** | **Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:**

## Tuag at Sero Net

### Beth rydyn ni wedi'i wneud:

Gwneuthum yr argymhellion canlynol i gyrff cyhoeddus ar ddatgarboneiddio yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol:

- **Datblygu pecyn ysgogiad economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac yn cefnogi datgarboneiddio cartrefi.**
- **Cefnogaeth i fusnesau a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel.**
- **Bod yn dryloyw wrth ddangos effaith carbon yr holl bolisïau a phenderfyniadau gwariant.**
- **Buddsoddi mewn ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur. Ymrwymo i gynyddu gwariant flwyddyn ar ôl blwyddyn.**

Yn 2019 dangosodd fy asesiad o'r gyllideb mai dim ond **1% o gyllideb Llywodraeth Cymru** oedd yn cael ei wario ar ddatgarboneiddio - ffigur llawer rhy isel o ran cyrraedd targedau lleihau carbon.

Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddais gynllun **10 pwynt** ar ariannu Argyfwng Hinsawdd Cymru er mwyn tynnu sylw at feysydd i fuddsoddi ynddynt yng nghyllideb 2020-21.

Argymhellais y dylai'r gyllideb fynegi sut y bydd y camau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael ei ariannu, a lefel y buddsoddiad traws-lywodraethol sydd ei angen mewn perthynas, er enghraifft, â thrafnidiaeth ac adeiladau.

### Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi gweithredu ar fy nghynllun 10 pwynt at ddatgarboneiddio a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd mewn meysydd fel tai, teithio egnïol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Yng nghyllideb 2020/21 dyrannodd **Llywodraeth Cymru** £140 miliwn ychwanegol i gyllid cyfalaf newydd ar gyfer yr hinsawdd a'r amgylchedd, ac er bod croeso i hyn, nid yw'n ddigonol.

Mae Llywodraeth Cymru'n dechrau gweithredu i **fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur gyda'i gilydd**. Er enghraifft, eu hymrwymiad diweddar i ddatblygu Coedwig Genedlaethol i Gymru a'r cynllun Plant! cynllun a sefydlwyd yn 2008.

Mae'r cysylltiadau rhwng y **newid yn yr hinsawdd ac iechyd y cyhoedd** yn dod yn fwyfwy eglur ac yn cael eu cydnabod gan rai cyrff iechyd. Er enghraifft, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru'n ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd ar iechyd.

Mae polisïau sy'n cefnogi'r symudiad tuag at sero net bellach o'r diwedd yn mynd drwodd i feysydd polisi fel trafnidiaeth, tai, cymorth busnes a chynllunio.

Mae Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd wedi amcangyfrif y bydd yn costio £30 biliwn i Gymru hyd at 2050, er na ddylai'r Llywodraeth ysgwyddo hyn i gyd - dylai fod yn gymysgedd o wariant gan y Llywodraeth, y sector preifat a sectorau eraill.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

| Beth rydyn ni wedi'i wneud: | Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth: |
|---|---|

## Gwella ein lleoedd a'n gwagleoedd

**Beth rydyn ni wedi'i wneud:**

Gwnaethpwyd yr argymhelliad canlynol ar gynllunio yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a Maniffesto y Dyfodol:

- **Mabwysiadu ymagwedd creu lleoedd wrth wneud pob penderfyniad polisi cymunedol ac ariannu.**

Rwyf wedi rhoi cyngor ar Bolisi Cynllunio Cymru 10, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Ddeddf.

Er bod gennyf rai pryderon o hyd, mae newid sylweddol rhwng y drafftiau yr wyf yn rhoi sylwadau arnynt â fersiwn gyfredol y dogfennau. Er enghraifft, maent yn:

- **Rhoi pwyslais cryfach ar gysylltedd digidol.**
- **Hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur.**
- **Rhoi ffocws cryfach ar fioamrywiaeth a natur ac yn symud i ffwrdd o flaenoriaethu meysydd awyr gan ffafrio polisïau sy'n alinio â'r datganiad o'r ymdrech yn ymwneud â'r argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio.**

Rwyf wedi ailadrodd materion cynllunio a godwyd gyda mi trwy ohebiaeth gydag adran gynllunio Llywodraeth Cymru.

**Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:**

Nod Siarter Creu Lleoedd **Llywodraeth Cymru** yw darparu dealltwriaeth gyffredinol o'r ystod o ystyriaethau sy'n cyfrannu at greu lleoedd. Daw'r Siarter gyda chanllaw i helpu cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i wneud creu lleoedd yn rhan annatod o'u

Mae penderfyniadau **arolygiaeth cynllunio** wedi defnyddio'r Ddeddf (amcanion a nodau llesiant) i wrthod neu ganiatáu apeliadau.

Mae'r Ddeddf wrth wraidd gwaith **Sefydliad Cynllunio Trefol yng Nghymru** ac mae **Comisiwn Dylunio Cymru** a chwmnïau Ymgynghori fel **Mott MacDonald** ac **Arup** wedi cynllunio offer penodol i sicrhau bod eu gwaith yn cyfrannu at y Ddeddf.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi mynd i'r afael â heriau cysylltedd gwael ac anghydraddoldebau iechyd mewn ffordd integredig trwy eu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, yn seiliedig ar y cysyniad cymdogaeth 20 munud. Er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwneud â dylunio eu lleoedd yn y dyfodol, mae'r awdurdod cynllunio yn ymgymryd â dulliau ac ymarferion cyfranogiad lluosog. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gyflawni sawl un o amcanion llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn cyfrannu at luosog o'r nodau llesiant cenedlaethol.

Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru** wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu canllaw ar ddefnyddio'r amgylchedd adeiledig i wella iechyd a llesiant. Mae'r *Canllaw Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer Cenedlaethau ein Presennol a'n Dyfodol* yn esbonio sut y mae mannau gwyrdd, mynediad i fwyd iach, cyfleoedd i fod yn actif, aer glân, adeiladau a ddyluniwyd yn dda, a chyfleusterau lleol cefnogol yn gallu helpu pobl a chymunedau i ffynnu yng Nghymru.




| Beth rydyn ni wedi'i wneud: | Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth: |
|---|---|

## Gwella iechyd ein cenedl

**Beth rydyn ni wedi'i wneud:**

Gwneuthum yr argymhellion canlynol i gyrff cyhoeddus ar iechyd a llesiant yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

- **Sefydlu System Les Genedlaethol i wella iechyd y genedl a lleihau'r galw ar wasanaethau.**
- **Penodi Gweinidog Atal a brigdorri cyllidebau er mwyn gwario ar bolisïau ataliol.**

Mae fy ffocws wedi bod ar symud buddsoddi a rhoi blaenoriaeth i ddulliau o atal iechyd gwael, gan ystyried penderfyddion iechyd.

Heblaw am COVID, mae llawer o wasanaethau sy'n cefnogi iechyd pobl yn profi dadfuddsoddi, er enghraifft, tai, cyfleusterau cymunedol, cyflogaeth sy'n cynorthwyo ieuenctid a chymorth sgiliau a chymorth i amgylchedd naturiol iach.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at fesur a rheoli perfformiad y GIG yn aml yn rhwystro newid, nid yn unig ymhlith cyrff iechyd, ond mewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

**Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:**

Bu rhai newidiadau cadarnhaol tuag at ymagweddau mwy ataliol. Mae rhai busnesau iechyd fel **Hywel Dda** a **Chwm Taf Morgannwg** yn dechrau meddwl am symud o fodel meddygol i fodel sy'n seiliedig ar benderfynyddion iechyd ehangach.

Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi gosod strategaeth 20 mlynedd ar gyfer eu gwaith: 'Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: cenedlaethau'r dyfodol yn byw'n dda.' Mae fideo yma.

**Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys** wedi gosod gweledigaeth a chynllun llesiant yng nghyd-destun yr hyn yr hoffent i Bowys fod yn 2040. Ar ôl defnyddio'u data tueddiadau'r dyfodol a'u gwybodaeth am yr asesiad llesiant, penderfynodd aelodau'r Bwrdd osod cynllun tymor hwy ar gyfer sut yr hoffent i'r Sir wasanaethu cenedlaethau'r dyfodol. Mae fideo yma:

Mae **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent** yn cyflwyno rhaglen a fydd yn trawsnewid y cymorth i iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Nod Rhwydweithiau Llesiant Integredig yw datblygu ymagwedd seiliedig ar le tuag at lesiant, gan ddod ag ystod o asedau llesiant ynghyd mewn cymunedau.

Mae'r **Hybiau Cymunedol MI FEDRAF newydd yn Llandudno, Rhyl a Phrestatyn** yn cynnig cyfle i bobl drafod eu problemau a chyrchu gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ar faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl, problemau cyffuriau neu alcohol, anawsterau cyflogaeth, dyled, tai ac unigrwydd.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**Beth rydyn ni wedi'i wneud:** | **Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:**

## Gwneud i'r pwrs cyhoeddus gyflawni'r buddion ehangaf i Gymru

### Beth rydyn ni wedi'i wneud:

Rwyf wedi cynghori a herio Llywodraeth Cymru ar ei chyllideb strategol dros sawl blwyddyn, gan ganolbwyntio ar y graddau y mae'r gyllideb yn cyflawni yn erbyn elfennau penodol y Ddeddf megis atal a datgarboneiddio.

Eleni, canolbwyntiodd fy ngwaith ar gyfleoedd allweddol ar gyfer gwireddu adferiad gwyrdd a chyfiawn wedi COVID :

- **Cyhoeddais ddatganiad ar sut y mae'n rhaid i'r Gyllideb Atodol gyntaf nodi newid cyfeiriad ar gyfer ailosod ein heconomi.**
- **Rhoddais gyngor manwl i'r Gweinidog Cyllid a'r Cwnsler Cyffredinol (yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd y Cabinet dros Adferiad ar y pryd) ynghylch blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn adferiad gwyrdd a chyfiawn.**
- **Rhoddais fanylion pellach am flaenoriaethau ar gyfer cyllid cyfalaf, mewn ymateb i gais gan swyddogion.**
- **Dadansoddais y gyllideb ddrafft a rhoddodd dystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru, gan gynnwys meysydd lle rwy'n ystyried cynnydd wedi'i wneud yn ogystal ag yn allweddol meysydd y credaf y dylid eu blaenoriaethu am fwy o fuddsoddiad.**

Ymgymerais hefyd â fy Adolygiad Adran 20 gyntaf i'r arferion caffael o naw corff cyhoeddus yng Nghymru i helpu sicrhau bod y ffordd maen nhw'n sicrhau nwyddau a gwasanaethau, yn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at y nodau llesiant

### Sut mae'r Ddeddf eisoes yn gwneud gwahaniaeth:

Rwy'n croesawu'r ymrwymiad gwleidyddol i'r newidiadau yn modd y mae Llywodraeth Cymru'n ystyried eu proses gyllido a chyllidebu. O ganlyniad i fy nghyngor ac argymhellion, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cynllun Gwella'r Gyllideb i wella'r broses gyllidebol gan ddefnyddio'r Ddeddf a'r pum dull o weithio i ysgogi gwelliant parhaus. Mae yna rai gweithredoedd uchelgeisiol sy'n cynnwys:

- Mabwysiadu bwriad i ymgorffori ymagwedd lle mae cynigion gwariant yn cael eu datblygu trwy ystyried eu buddion hirdymor.
- Sut y gallai dull Cyllideb gyfan o weithgaredd ataliol fod y gefnogaeth orau

Mae fy nghyngor ar adferiad COVID wedi llywio trafodaethau'r Cabinet am flaenoriaethau a phenderfyniadau buddsoddi a sicrhau ffocws ar a adferiad ffyniannus, gwyrdd a chyfartal.

**Er enghraifft,** creu'r addewid Gweithwyr Llawrydd, yr ymrwymiad gan y Prif Weinidog i dreialu incwm sylfaenol, a'r Cenhadaeth Ailadeiladu a Chadernid Economaidd sy'n defnyddio egwyddorion y Ddeddf i nodi ymdrechion tuag at 'Economi Llesiant.'

Mae'r ffocws ar gaffael yn helpu cyrff cyhoeddus i gryfhau'r Economi leol, lleihau allyriadau carbon adeiladau a chefnogi rôl Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Mae menter **Parc Rhanbarthol y Cymoedd**, a sefydlwyd gan Dasglu'r Cymoedd, yn dathlu tirwedd helaeth a hardd y Cymoedd trwy gyfuno natur ag ysbryd cymunedol a datblygiad economaidd. Gan ddefnyddio'r tirwedd naturiol i addysgu pobl am faterion hinsawdd, wrth sicrhau bod bywoliaethau'n cael eu cynnal a bod sgiliau'n cael eu dysgu ledled yr ardal, mae'r prosiect wedi helpu'r r hai ar lawr gwlad yng Nghymru i feddwl yn yr hirdymor, cydweithredu â rhanddeiliaid ac ennyn ymgyfraniad cymunedau i fanteisio i'r eithaf ar dirwedd Cymreig unigryw a gwerthfawr.




**Gallwch ddod o hyd i ragor o enghreifftiau yn adran astudiaethau achos newydd fy ngwefan ac maent i'w gweld yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.**

> *"Y math o Gymru rydyn ni ei heisiau yw'r un a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. A neges gyntaf a phwysicaf [y Ddeddf] yw bod yn rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gydbwyso ein gallu i wneud penderfyniadau sy'n bwysig yn yr oes sydd ohoni ac hefyd amddiffyn buddiannau dinasyddion heddiw. Ond rhaid gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n peryglu llesiant y rhai sy'n dod ar ein holau."*
>
> **Mark Drakeford yn ei anerchiad agoriadol i'r gwasanaeth sifil ym mis Mawrth 2019**

### Mae mwy i'w wneud i ddangos arweinyddiaeth wleidyddol, felly rwyf wedi argymell Llywodraeth Cymru i:

- **Ddarparu arweiniad** y gellid ymddiried ynddo i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u hannog i fabwysiadu'r Ddeddf.
- **Arwain y ffordd** wrth feithrin gwerthoedd caredigrwydd ar bob lefel.
- **Gweithio i ddod ag arbenigedd allanol i'r Llywodraeth** - y mwyaf disglair a'r gorau gan wasanaethau cyhoeddus, busnes a'r sector gwirfoddol, i helpu i ddatblygu a gweithredu atebion arloesol i'r heriau sy'n ein hwynebu.
- **Cyflwyno rhaglen 'Llwybr Carlam Bywyd go lawn'** o fewn y Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus i gynnwys safbwyntiau a phrofiadau ehangach wrth ddatblygu polisi.
- **Sefydlu Comisiwn** trawsbleidiol, traws-sector i greu gweledigaeth a strategaeth hirdymor ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn 2050.
- **Cau'r bwlch gweithredu** trwy gymhwyso'r ffyrdd o weithio mewn polisi a deddfwriaeth.
- **Brigdorri cyllidebau** ar gyfer gwariant penodol ar atal, a phenodi Gweinidog Atal, gyda'rcyfrifoldeb dros fabwysiadu agwedd llywodraeth gyfan tuag at fuddsoddi mewn atal.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

## Ynglŷn â'r adroddiad

Mae cynhyrchu Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob pum mlynedd yn ddyletswydd gyfreithiol ar y Comisiynydd a grëwyd gan Adran 23 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Gofynion cyfreithiol

**Rhaid i'r adroddiad gynnwys:**

- Asesiad o sut y gall cyrff cyhoeddus ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn well, a rhoi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau maen nhw'n eu gwneud.
- Crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd, a'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan y Comisiynydd yn ystod y cyfnod adrodd.
- Crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd gan y Comisiynydd; cyfrif o unrhyw ymchwil neu astudiaeth arall a gynhaliwyd.
- Unrhyw wybodaeth arall y mae'r Comisiynydd yn ei hystyried yn briodol.

Ar ôl ei gyhoeddi, rhaid i Weinidogion Cymru, cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ystyried yr adroddiad wrth osod, neu adolygu, eu hamcanion llesiant.

Cynhyrchais rifyn cyntaf Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mai 2020, ac yn fwy na chwrdd â 'dyletswydd' yn unig, cafodd yr adroddiad ei gynllunio i esbonio'n glir ac mewn sawl ffordd wahanol yr hyn a olygwyd gan wella ein llesiant ar y cyd, yn unol â'r Ddeddf. Roeddwn i eisiau gwneud argymhellion ynghylch y modd y dylid defnyddio gwahanol elfennau'r Ddeddf, fel y pum dull o weithio a'r nodau llesiant.

Roedd yn ofynnol i mi ddarparu (am y tro cyntaf) asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud mewn perthynas â gosod a chyflawni eu hamcanion llesiant. Roeddwn hefyd wedi bwriadu iddo ysbrydoli gweithredu trwy arddangos gweithredoedd mawr a bach sy'n digwydd yng Nghymru ac ar draws y byd. Roeddwn i eisiau dathlu ein cyflawniadau, ond fe wnes i hefyd alw allan lle mae cynnydd yn brin a thynnu sylw at yr holl gyfleoedd na ddylen ni eu colli yn y presennol neu'r dyfodol agos.

Gwnaeth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ddwyn ynghyd yr holl ffrydiau gwaith yr ymgymerwyd â hwy gan fy nhîm a minnau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rhoddodd hyn gyfle perffaith i mi gymryd stoc o'r hyn a oedd wedi ei gyflawni hyd yn hyn, crynhoi'r wybodaeth, y sgyrsiau a'r deallusrwydd yr oedd y swyddfa a minnau wedi eu casglu.

Wrth symud ymlaen bydd yr adroddiad yn llwyfan i yrru newid yn y dyfodol. Rwyf hefyd yn ei weld fel cyfle i ddatblygu maniffesto ar y cyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru - mudiad dros newid o amgylch ei weledigaeth a'i argymhellion.



### Strwythur yr adroddiad

**Pennod 1 -** Mae 'Yfory' yn darparu gwybodaeth am gyd-destun byd-eang ar gyfer ein gweledigaeth genedlaethol o'r dyfodol a phwysigrwydd llesiant.

**Pennod 2 -** Mae'r bennod hon yn ystyried y newid diwylliant o fewn cyrff cyhoeddus a'r defnydd o'r dulliau statudol o weithio.

**Pennod 3 -** Mae'r bennod hon yn edrych ar y cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant.

**Pennod 4 -** Mae'r bennod hon yn nodi cyfres o gamau y gall cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd wrth osod eu hamcanion a'u camau llesiant.

**Pennod 5 -** Mae'r bennod hon yn edrych yn fanylach ar fy meysydd ffocws (y meysydd yr wyf yn eu hystyried fel fy amcanion llesiant i fy hun).

**Pennod 6 -** Mae'r bennod hon yn edrych ar fy nghamau gweithredu i'n helpu i gyrraedd y weledigaeth a 'beth nesaf' wrth symud yr adroddiad hwn ymlaen, a sut y gallaf barhau i weithio gyda sectorau eraill i hyrwyddo'r Gymru a garem.

**Pennod 7 -** Mae'r bennod hon yn ystyried fy nghynlluniau wrth fynd â'r adroddiad rhagddo.

Ar gyfer pob elfen o'r adroddiad, nodais yn glir y weledigaeth, yr uchelgais a chynigiais yr offer a'r argymhellion i gyflawni hyn.

I wneud yr adroddiad cynhwysfawr hwn yn fwy hygyrch ac yn haws ei ddarllen, rwyf wedi cynhyrchu gwefan ryngweithiol ar-lein, fersiynau hygyrch (Hawdd eu Darllen ac Iaith Arwyddion Prydain) a chrynodebau gweithredol o bob pennod. Ac rwyf yn gweithio gyda rhwydweithiau cyrff cyhoeddus i ddwyn at ei gilydd fersiynau cryno wedi'u targedu ar gyfer meysydd corfforaethol.

> *"Wrth ddarllen adroddiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Sophie Howe roeddwn i mor falch i ddarganfod popeth rydych chi'n ei wneud yng Nghymru i ddod â phobl ynghyd i weithio tuag at y nodau Llesiant."*
>
> **Gohebiaeth gyhoeddus**

> *"Fel person sy'n meddwl yn optimistaidd, yn gadarnhaol, â meddylfryd sy'n canolbwyntio ar dwf, mae'r Crynodeb Gweithredol ar gyfer Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol wedi creu argraff arnaf - mae'n ddogfen ddyrchafol! Fodd bynnag, mae'r heriau sylweddol i chi / eich tîm ymhell o fod yn deg."*
>
> **Gohebiaeth gyhoeddus**

> *"Diolch i chi am ein hysbysu o'ch Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf 2020. Gwelsom ... fod yr adrannau sy'n ymwneud â Chaffael a nod Cymru sy'n Gyfrifol yn fyd-eang yn ddefnyddiol iawn."*
>
> **Gohebiaeth gyhoeddus**

> *"Rydyn ni'n gwerthfawrogi uchelgais a chwmpas enfawr yr adroddiad sy'n tynnu ar lawer o enghreifftiau amrywiol o bob rhan o Gymru, y Deyrnas Unedig a thramor - ac rydyn ni'n falch o weld bod rhai o'ch enghreifftiau yn seiliedig ar ein gwaith ni ein hunain yn Cyfoeth Naturiol Cymru, fel ein Prosiect Carbon Bositif - sy'n mynd yn ei flaen yn gyflym. Rydyn ni'n falch o gael ein categoreiddio fel rhai 'sy'n credu a chyflawni', ideoleg yr ydyn ni'n bwriadu ei chynnal yn y blynyddoedd i ddod. Er ein bod yn cydnabod nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwrdd â gofynion y Ddeddf yn llawn, mae ein brwdfrydedd a'n huchelgais yn dal yn gadarn."*
>
> **Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru**

Roedd yr adroddiad hwn yn ddarn pwysig o waith a oedd yn manteisio ar fy ngwaith monitro statudol a'r gwaith asesu a wneuthum yn 2019, a mewnwelediad 5,000 o bobl a sefydliadau o Gymru, y DU a thu hwnt. Wrth weithredu'r datganiadau, gan ddefnyddio'r 5 dull o weithio, ceisiais yn arbennig ennyn ymgyfraniad ymhell y tu hwnt i'r gofynion statudol, a diolchaf yn ddiffuant i'r llu o sefydliadau ac unigolion a gyfrannodd.



## Cynnwys

I gynhyrchu'r adroddiad, anogais ymgyfraniad cyrff cyhoeddus, y sector cyhoeddus, busnes, cynrychiolwyr cymunedau lleol, academyddion, fy Mhanel Ymgynghorol a llawer o bobl eraill. Cynhaliais gyfarfodydd rhanbarthol; byrddau crwn thematig; lansio Llwyfan y Bobl; llwyfan byw ar wefan i dderbyn safbwyntiau; syniadau a meddyliau pobl; arweiniais sgwrs gymunedol, a chynnull paneli arbenigol; mynychais nifer o ddigwyddiadau i siarad a gwrando'n ofalus ar y syniadau a safbwyntiau a fynegwyd.

Cyhoeddwyd fy adroddiad ar yr un pryd ag adroddiad 5 mlynedd Archwiliad Cymru ei hunan Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol ar ganlyniadau ei archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy ac rydyn ni wedi gweithio'n agos i sicrhau bod ein set o adroddiadau yn ategu ei gilydd.

## Casgliadau ac argymhellion

Oherwydd mai ymarfer sy'n digwydd unwaith bob pum mlynedd ydyw, ac oherwydd fod yr adroddiad yn cwmpasu pob maes polisi yn ogystal â sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus eu cyflawni, yr oedd, o reidrwydd, yn ddogfen fawr a rhoddodd cynhyrchu'r adroddiad y cyfle i bwyso a mesur yr hyn oedd wedi ei gyflawni hyd yn hyn, adlewyrchiad o'r sgyrsiau a'r wybodaeth yr oeddwn wedi'u casglu.

Fy nghasgliad oedd bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi cychwyn ar eu taith. Mae cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod o hyd i'w traed; mae holl elfennau'r ddeddfwriaeth bellach ar waith ac mae angen i ni nawr weithio gyda'n gilydd i gynyddu cyflymder y newid.

Ac mae'n deg dweud bod pethau da yn digwydd a bod pethau'n newid oherwydd y Ddeddf.

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar feysydd yr wyf yn eu hystyried fel y pethau mwyaf arwyddocaol y dylid eu gwneud yn ystod y pum mlynedd nesaf i helpu Cymru i gyrraedd y nodau llesiant - *a phrofi adferiad yn dilyn COVID-19.*

Bydd y Ddeddf yn darparu fframwaith arweiniol sy'n nodi sut y dylem geisio ymateb i'r argyfwng hwn. Bydd yn caniatáu i ni wneud y penderfyniadau cywir, i'n helpu i symud tuag at ragolygon tymor hwy ataliol ar sut yr ydyn ni'n rhedeg ein cymdeithas a'n gwasanaethau cyhoeddus. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill i ddefnyddio'r Adroddiad wrth i ni weithio tuag at gynllun adfer ar gyfer Cymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o 'Syniadau Mawr' am y modd y gallai Cymru newid er gwell, wedi'u cymryd o rai o'r enghreifftiau gorau o Gymru ac ar draws y byd.

Mae'r adroddiad yn ymdrin â phob un o'r saith nod llesiant, y pum dull o weithio, llywodraethu corfforaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, ac mae fy meysydd blaenoriaeth yn cynnwys cyfanswm o 390 o argymhellion.


Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Mae'r argymhellion yn ymdrin â pholisi a phroses. Fe'u cyfeirir at y Llywodraeth a chyrff eraill a gwmpesir gan y Ddeddf ar yr hyn yr wyf yn eu hystyried fel y pethau mwyaf arwyddocaol y dylid eu gwneud.

Cyfeirir 250 o argymhellion polisi at Lywodraeth Cymru gan fod ganddi rôl allweddol i'w chwarae fel arweinydd wrth weithredu'r Ddeddf ac oherwydd ei bod yn llunio polisïau cenedlaethol.

## 10 Argymhelliad Polisi

1. **Treialu incwm** sylfaenol a gweithio tuag at weithredu wythnos waith fyrrach.
2. **Cyflwyno'r cysyniad o gymdogaeth** 20-munud ar gyfer pob tref a dinas yng Nghymru, gwneud band eang yn wasanaeth hanfodol a sicrhau bod pobl yn gallu cyrchu man gwyrdd naturiol o fewn 300 metr i'w cartref.
3. **Buddsoddi mewn ymateb** i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur. Ymrwymo i gynyddu gwariant flwyddyn ar ôl blwyddyn.
4. **Lleihau gwariant** ar seilwaith ffyrdd a chynyddu gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn cynnwys cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc yng Nghymru.
5. **Sefydlu System** Lles Genedlaethol i wella iechyd y genedl a lleihau'r galw ar wasanaethau.
6. **Buddsoddi mewn** sgiliau a hyfforddiant i gefnogi'r newid i ddyfodol gwell, gan greu swyddi gwyrdd a chreu cynllun ar gyfer ymateb i dueddiadau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u dwysáu.
7. **Gwneud tai yn hawl ddynol,** cefnogi byw sy'n pontio'r cenedlaethau a mynnu bod pob datblygiad tai (ac adeiladau cyhoeddus) a ariennir yn gyhoeddus yn niwtral o ran carbon.
8. **Ymrwymo i wneud Cymru'r** genedl fwyaf eco-lythrennog yn y byd.
9. **Sefydlu dull cenedlaethol** o ennyn ymgyfraniad busnesau, elusennau a gweithwyr proffesiynol creadigol ac entrepreneuriaid wrth ddarparu addysg ac ail-feddwl am gymwysterau pobl ifanc pan fyddant yn 16 mlwydd oed.
10. **Penodi Gweinidog Atal** a brigdorri cyllidebau er mwyn gwario ar bolisïau ataliol.



Sgiliau



Gymru o Gymunedau Cydlynys




Cymru Iachach



Tai




Cymru Gydnerth


Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## 10 argymhelliad ar broses

1. **Profi popeth** yn unol â 'phrawf dwbl' y Ddeddf o'r 'beth' a'r 'sut'.
2. **Brigdorri cyllidebau** er mwyn gwario ar atal, o dan oruchwyliaeth y Gweinidog Atal.
3. **Asesu effaith carbon gwariant,** yn enwedig wariant cyfalaf fel buddsoddiadau mawr / penderfyniadau seilwaith.
4. **Sicrhau ei bod yn ofynnol** i gael meini prawf ar gyfer arian cyhoeddus i ddangos sut mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei defnyddio.
5. **Cyflwyno rhaglen 'Llwybr Carlam Bywyd Go Iawn'** o fewn y Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus i gynnwys safbwyntiau a phrofiadau ehangach wrth ddatblygu polisi.
6. **Gwneud gwybodaeth** ac arbenigedd ar fuddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn ofyniad allweddol mewn o leiaf un swydd ar bob bwrdd sector cyhoeddus.
7. **Rhestru camau cliriach** i gyflawni amcanion llesiant - gan fyfyrio ar ba gyfraniad y bydd pob adran yn eu cymryd tuag at y camau hyn.
8. **Creu gweledigaeth a strategaeth** hirdymor o'r dyfodol yn sector cyhoeddus Cymru a hyrwyddo caredigrwydd ar bob lefel.
9. **Sefydlu 'Gweinyddiaeth Posibiliadau'** ac ennyn ymgysylltiad y mwyaf disglair a'r gorau o bob lefel o lywodraeth a gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio ochr yn ochr â'r sector preifat a'r sector gwirfoddol, i greu datrysiadau arloesol i heriau'r presennol neu'r dyfodol.
10. **Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** a chyrff cyhoeddus gydweithio gyda chynghorau tref a chymuned a chyrff cyhoeddus cenedlaethol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector preifat, cynrychiolwyr undebau llafur ac addysg bellach ac uwch i gyflawni eu



Trafnidiaeth a Theithio Llesol




Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu



Cynllunio




Gymru o Gymunedau Cydlynys

## 25 Argymhellion sy'n benodol i'r nodau llesiant

### Cymru Lewyrchus

1. **Buddsoddi mewn** ffyrdd gwell o gysylltu a symud pobl trwy wella cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
2. **Datblygu pecyn** ysgogiad economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac sy'n cefnogi datgarboneiddio cartrefi.
3. **Treialu Incwm** Sylfaenol ac archwilio cyfleoedd ar gyfer wythnos waith fyrrach.
4. **Sefydlu gweledigaeth** genedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes a chenhadaeth genedlaethol a rennir ar gyfer addysg, gan ddwyn i mewn sgiliau busnes, y sector gwirfoddol, actifyddion cymunedol, pobl hŷn a'r sector gwasanaethau ieuenctid i fod yn rhan greiddiol o gyflawni gofynion y cwricwlwm newydd.



Woodland Trust Cymru
@CoedCadw

We're pleased to say we directly fed into this report, outlining the importance of protection of healthy mature trees, & the apparent neglect within planning at a Local Authority level. Often disregarding directives within PPW10 around irreplaceable habitat loss.

Future Gen Cymru @futuregencymru · Jul 28
We are really excited to announce our new website dedicated to our Future Generations Report 2020 is now LIVE! We've worked hard to create a vision of what Wales could be if we were to achieve the ambitions of the #WFGAct - Let us know what you think!

futuregenerations2020.wales

### Cymru Gydnerth

5. **Cyflymu ar fyrder** raddfa a chyflymder newid i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
6. **Ceisio cynnal** a gwella'r amgylchedd naturiol trwy reoli tir a môr yn briodol i greu ecosystemau bioamrywiol, iach eu gweithrediad.
7. **Sicrhau fod pobl** yn gallu cyrchu man gwyrdd naturiol o fewn 300 metr i'w cartref.
8. **Darparu 20%** o orchudd canopi coed ym mhob tref a dinas yng Nghymru erbyn 2030.

### Cymru Iachach

9. **Cydnabod a mynd** i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.
10. **Gweithredu diffiniad Llywodraeth Cymru** o atal ac archwilio'r cyfleoedd mwyaf arwyddocaol i symud gwariant i weithgareddau sy'n cefnogi atal sylfaenol ac eilaidd.
11. **Adeiladu system** llesiant cenedlaethol.
12. **Cefnogi pobl** i ymddwyn yn dosturiol i hwyluso dealltwriaeth o lesiant meddyliol.
13. **Galluogi cenedl weithgar,** gan gynyddu buddion gweithgaredd corfforol i bawb.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Cymru sy'n Fwy Cyfartal

14. **Creu cynllun ar gyfer** ymateb i dueddiadau'r dyfodol (megis cynyddu awtomeiddio, ein poblogaeth sy'n heneiddio a'r newid yn yr hinsawdd) mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u dwysáu.
15. **Gosod targedau heriol** ar gyfer recriwtio menywod, Pobl Dduon, Asiaidd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl ar draws y sector cyhoeddus.
16. **Gwneud mynd i'r** afael ag adfyd plentyndod yn flaenoriaeth a chreu strategaeth genedlaethol i rymuso'r holl wasanaethau cyhoeddus allweddol i ddarparu ymyrraeth gynnar effeithiol, gynaliadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

17. **Adeiladu ar y Genedl Noddfa,** canfod pobl sydd wedi eu dadleoli yng nghyd-destun trychinebau a'r newid yn yr hinsawdd ac ymgyrchu dros iddynt gael cynnig yr un amddiffyniadau a gynigir i ffoaduriaid.
18. **Mabwysiadu ymagwedd** creu lleoedd tuag at bob penderfyniad polisi cymunedol ac ariannu.
19. **Gwneud band** eang yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol.
20. **Gwneud tai yn hawl ddynol.**

## Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

21. **Sicrhau bod** asiantaethau diwylliannol Cymru'n gweithio ar y cyd ac yn gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
22. **Sefydlu Incwm** Cyfranogiad Creadigol.
23. **Datblygu ac ariannu** 'coridorau diwylliannol' ledled Cymru sy'n annog sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gysylltu safleoedd diwylliannol a chreadigol, rhaglenni a sefydliadau.

## Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Byd-eang

24. **Sefydlu** gweledigaeth genedlaethol i Gymru ddod y genedl fwyaf eco-lythrennog a chyfrifol yn fyd-eang yn y byd.
25. **Gosod canllawiau** moesegol clir ar gyfer pensiynau'r sector cyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys ymrwymiadau i wyro oddi wrth bob ffynhonnell niwed (tanwydd ffosil, llygryddion, gyrru nwyddau, datgoedwigo tramor ac arfau).

# Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad

Nid yw cyhoeddi'r Adroddiad hwn yn ddiben ynddo'i hun. Mae'n etifeddiaeth bwysig y mae gwaith fy swyddfa wedi'i seilio arni wrth symud ymlaen - am weddill fy nhymor yn y swydd a thu hwnt.

Oherwydd argyfwng COVID-19, nid oeddwn yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ymateb iddo yn y tymor byr ond byddaf yn pwyso a mesur gyda'r Archwilydd Cyffredinol pryd allwn ni yn rhesymol ddisgwyl i gyrff cyhoeddus fod mewn sefyllfa i ymateb yn llawn. Yn y cyfamser, byddaf yn ei gwneud yn glir i'r llywodraeth bod yn rhaid iddynt roi trefniadau ar waith i sicrhau bod y cyngor a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried wrth i bolisïau newydd gael eu cyflwyno.

Byddaf yn defnyddio cynnwys yr adroddiad hwn fel meincnod wrth arfer fy nyletswydd monitro ac asesu, gan edrych yn benodol ar sut y bydd fy argymhellion yn cael eu gweithredu. Defnyddir y canfyddiadau allweddol i ffocysu'r cyngor y byddaf yn ei roi i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal â fy helpu i ddewis y meysydd i'w hadolygu o dan fy mhwerau Adran 20.

### Yn ystod y misoedd yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn:

- **Gwneuthum rannu ei ganfyddiadau** gyda'r nifer fawr o sefydliadau ac eirilowyr yr wyf wedi ymgysylltu â nhw, i ddatblygu mudiad dros newid o amgylch y Ddeddf gan edrych am gefnogaeth sefydliadau mawr a bach, gwirfoddol, preifat a chyhoeddus ledled Cymru.
- **Gwneuthum helpu cyrff cyhoeddus** i wneud fy nghyngor yn rhan annatod o'u gwaith.
- **Gwneuthum ddefnyddio'r canfyddiadau** i ddod â phobl o bob rhan o Gymru ynghyd i roi syniadau ac arweinyddiaeth ar y modd y gallwn ddiwygio polisi a gwasanaethau yng ngoleuni dyfodiad COVID-19.
- **Gwneuthum weithio gyda** phleidiau gwleidyddol i sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu mabwysiadu yn eu maniffestos ar gyfer Etholiad y Senedd ym mis Mai 2021.






Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Sut yr wyf yn mesur perfformiad

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â dod â newid i fywydau pobl a newid ymddygiadau. Mae hyn yn gymhleth, yn cymryd amser ac yn her sefydliadol a dynol go iawn. Rwyf wedi dewis dangosyddion perfformiad sy'n caniatáu i mi a'r rhai sydd am graffu ar fy ngwaith weld sut mae fy Swyddfa yn dylanwadu ar yr esblygiad hwn tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

### Y mesurau perfformiad strategol ar gyfer fy swyddfa yw:

- **Fframio** dadl a chael materion ar yr agenda
- **Annog ymrwymiadau disgyrsiol** oddi wrth weinidogion, y llywodraeth ac eraill
- **Sicrhau newid gweithdrefnol** yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas eu gwaith
- **Effeithio** ar gynnwys ac ymrwymiadau polisi
- **Dylanwadu** ar newid ymddygiad ymarferol mewn eraill




## Fy rôl

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fy nyletswydd gyffredinol yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rwy'n hyfforddwraig ac yn ffrind beirniadol i gyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac unrhyw un a all helpu i gyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Rwy'n cefnogi ac yn herio cyrff cyhoeddus fel eu bod yn croesawu eu dyletswydd ac yn gwella pob agwedd ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol holl boblogaeth Cymru.

## Beth mae fy nyletswydd yn ei gynnwys?

### Fy nyletswyddau cyffredinol yw:

*"Hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn benodol i weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau maen nhw'n eu gwneud."*

*"Monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni."*

### Rwy'n gallu:

- **Rhoi cyngor** i Gyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- **Cynnal adolygiadau** ar sut mae cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau
- **Gwneud argymhellion** yn dilyn Archwiliad

### I gyflawni fy nyletswydd gyffredinol, mae gen i ystod o swyddogaethau a phwerau penodol:

- **Adran 18 (a) Dyletswydd gyffredinol -** Hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- **Adran 18 (b) Dyletswydd gyffredinol -** Monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni
- **Adran 19 (a) Pŵer -** Rhoi cyngor neu gymorth i gyrff cyhoeddus (sy'n cynnwys darparu cyngor ar y newid yn yr hinsawdd)
- **Adran 19 (b) Pŵer -** Rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol dros Gymru ar yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- **Adran 19 (c) Pŵer -** Rhoi cyngor i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi eu cynllun llesiant lleol
- **Adran 19 (d) Pŵer -** Rhoi unrhyw gyngor neu gymorth arall i unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn eu bod yn cymryd camau a allai gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant
- **Adran 19 (e) Pŵer -** Annog arfer gorau mewn cyrff cyhoeddus i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- **Adran 19 (f) Pŵer -** Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- **Adran 19 (g) Pŵer -** Annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a gyda phersonau eraill pe gallai hyn eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant
- **Adran 19 (h) Pŵer -** Gofyn am gyngor panel cynghori mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd
- **Adran 20 i 22 -** Pŵer i gynnal adolygiadau ac i wneud argymhellion. Mae'n ddyletswydd arnaf hefyd i roi cyngor i fyrddau **gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant a'u cynlluniau a'u pwerau drafft i dderbyn copïau o adroddiadau ac i ymgynghori â hwy ar wahanol achlysuron.**

### Rwyf wedi distyllu'r swyddogaethau a'r pwerau hyn yn bedwar Pwrpas Strategol:

**Pwrpas 1**

Tynnu sylw at y materion a'r heriau mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnynt.

**Pwrpas 2**

Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Pwrpas 3**

Creu mudiad ar gyfer newid.

**Pwrpas 4**

Gweithredu'r geiriau - ysgwyddo'r newid yr ydyn ni am ei weld mewn eraill.

Mae fy Adroddiad Perfformiad wedi'i strwythuro o amgylch y pedwar pwrpas hwn.

Mae'r datganiadau ariannol yn dangos dadansoddiad o'r gwariant, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r mwyafrif yn mynd tuag at dalu ein pobl a'r costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ei gyfanrwydd yn rhoi cyfrif o'r hyn rydyn ni wedi defnyddio'r cyllid hwn ar ei gyfer - i weithio ar ein pedwar pwrpas strategol, y pethau rydyn ni wedi'u gwneud, y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud, yr allbynnau a'r effaith. Mae'r Adroddiad Atebolrwydd ynghyd â'r Datganiadau Ariannol yn esbonio'r trefniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer fy swyddfa a sut rwyf wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni fy nodau a chyflawni fy swyddogaethau statudol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Pwrpas 1

## Tynnu sylw at y materion a'r heriau mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnynt

Yn 2017, gwneuthum nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt a allai gael yr effaith fwyaf ar y weledigaeth a'r nodau llesiant - sy'n cyfateb i osod fy amcanion llesiant fy hunan.

### Lleoedd a seilwaith

1. Trafnidiaeth
2. Cynllunio defnydd tir
3. Tai

### Pobl a'u Cydnerthedd

4. Atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)
5. Sgiliau ar gyfer y dyfodol
6. System iechyd a llesiant

Mae datgarboneiddio, cyllidebu a chaffael wedi bod yn themâu trawsbynciol.

Fel y rhagwelwyd, mae fy ngwaith ar y materion hyn yn newid o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar gyfleoedd sydd yn aml y tu allan i fy rheolaeth. Rwy'n myfyrio'n rheolaidd ar yr effaith rydyn ni'n ei gael fel tîm a ble mae'r lle gorau i ffocysu arno.

Roedd cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn garreg filltir allweddol - adeg i bwyso a mesur. Roedd proses gynllunio ar gyfer y pandemig COVID a'r adferiad hefyd yn gyfle i edrych ar y lle gorau i wneud ymyriad.



### COVID - Adferiad Ffyniannus, Gwyrdd a Chyfartal

Mae COVID wedi dod â heriau anhygoel dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydyn ni wedi byw trwy amgylchiadau anodd yn amrwyio o'r profiad enbyd o golli bywydau, ynysu oddi wrth anwyliaid, pwysau ar wasanaethau cyhoeddus i'r posibilrwydd y bydd difrod hirdymor i'r economi, swyddi a bywoliaethau.

Bydd ein modd o fynd i'r afael â'r adferiad yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni 'adeiladu'n ôl yn well'. Yng Nghymru, rhaid i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu'r fframwaith ar gyfer y meddwl beiddgar, cydweithredol a chynhwysol sydd ei angen.



Gwneuthum addasu fy rhaglen waith ac ym mis Mai 2020 cyhoeddais gynllun 5 pwynt gyda chynigion ar gyfer beth y dylid ffocysu arno yng Nghymru:

Y materion polisi hyn yw'r rhai yr wyf wedi canolbwyntio fy ymdrechion arnynt eleni.

Er fy mod wedi rhoi lle i gyrff cyhoeddus ddelio â'r argyfwng presennol, yr hyn yr wyf yn meddwl sy'n dod yn gliriach, o ddydd i ddydd, yw er bod yn rhaid i ni ymateb i'r materion brys sydd wrth law, ni fu meddwl hirdymor erioed yn bwysicach.

Rhaid i ymateb 'Cymru' i COVID adlewyrchu dewrder gwleidyddol ynghylch heriau tymor hwy fel y newid yn yr hinsawdd a cholli natur. Mae angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau buddion lluosog i'n cymunedau a'r defnydd mwyaf effeithiol o fuddsoddiad cyhoeddus (a phreifat).

Nod fy nghyngor i gyrff cyhoeddus (gan gynnwys yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a drwyddi draw yn fy Nheithiau Y Gallu i Greu) oedd ymroi i fynd i'r afael â'r bylchau mewn gweithredu polisi, anghydraddoldebau a systemau toredig ledled cymdeithas, sydd wedi gwaethygu ymhellach yn sgil yr argyfwng diweddar.





**Roedd fy nghyngor cyn COVID yn cynnwys:**

- **Sefydlu canlyniadau** a rennir gyda sefydliadau iechyd gan gynnwys trwy archwilio opsiynau ataliol a chyfuno cyllidebau i fuddsoddi mewn ehangu gweithgareddau awyr agored.
- **Rhedeg mentrau** ar y cyd â grwpiau cymunedol lleiafrifoedd ethnig er mwyn meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth.
- **Annog y defnydd** o offer Mapio Cymunedol i'ch helpu i ganolbwyntio ar y lle gorau i wneud gwahaniaeth.
- **Sicrhau eich bod yn deall** gwerth trigolion lleol yn dod at ei gilydd, a defnyddio'r lleoedd a grëir gan y cyfleoedd hyn i wrando a deall yr hyn sy'n bwysig a chyd-gynhyrchu atebion.
- **Annog mwy o feddygfeydd** i gymryd rhan mewn prosiectau presgreibio cymdeithasol.
- **Cefnogi ac annog gweithgareddau** sy'n pontio cenedlaethau fel Ffrind i Mi, menter newydd yng Ngwent sy'n sicrhau bod pobl o bob oed sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig yn cael eu cefnogi i ailgysylltu â'u cymunedau.
- **Cefnogi'r cymunedau** i ail-ddylunio eu strydoedd i wella eu hiechyd a'u lles.

*"Rydyn ni wedi gwybod ers blynyddoedd' am y materion a arweiniodd at y broblem, a gallai'r canlyniad hwn fod wedi ei ragweld. Mae'n ymwneud yn sylfaenol â thlodi ac anghydraddoldebau iechyd. Pe bai rhywun wedi tynnu sylw unrhyw un ohonom at hyn ym mis Chwefror 2020 a dweud, "mae pandemig yn dod, a allwch gamu ymlaen un flwyddyn ac asesu pa gymunedau a fydd yn cael eu taro'n fwyaf difrifol gan y pandemig hwn?", fe allech chi bron r agweld y sefyllfa yr ydyn ni'n ei gweld y awr gyda chywirdeb rhesymol."*

**Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn Nghwm Taf Morgannwg**



## Sut rydw i wedi addasu fy ngwaith mewn ymateb i COVID

- **Cyhoeddi** cynllun 5 pwynt yn annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal. Rhoddais dystiolaeth ar hyn i Bwyllgor Seilwaith yr Economi, a Sgiliau ym mis Tachwedd 2020.
- **Comisiynu'r New Economics Foundation** i symud rhai o'r meysydd hyn ymlaen ac maent wedi dechrau maes gwaith newydd i sicrhau nad yw'r cynlluniau adfer yn gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol yn anfwriadol.
- **Cyfrannu at amrywiol Fyrddau Cynghori Gweinidogol,** fforymau, cyngor partneriaeth a grwpiau eraill. Mae cwmpas eang y Ddeddf wedi rhoi mewnwelediad unigryw i mi ar draws sawl portffolio Gweinidogol, ac ar themâu amrywiol.
- **Wedi gweithio** gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, TUC Cymru, busnesau, Tai Cymunedol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, EYST, Cyngor Celfyddydau Cymru, Comisiynwyr eraill, ac eraill.
- **Cynghori Llywodraeth Cymru** ar gynnwys y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, gan annog integreiddio â rhannau eraill o'r llywodraeth a chanolbwyntio ar "economi llesiant."
- **Amlinelli'r hyn y credaf** sy'n gyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddi a chyflawni. Cyflwynais bapur i Rebecca Evans AS a Jeremy Miles AS yn tynnu sylw at y meysydd lle mae'n rhaid i ni wneud mwy mewn perthynas â 'sut' rydyn ni'n gweithio yng Nghymru.
- **Hwyluso integreiddio** rhwng y gwahanol grwpiau a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar ymateb ac adferiad, gan gynnwys:
  - **Grŵp Adferiad Gwyrdd** 'Cyfoeth Naturiol Cymru' yn adrodd i Lesley Griffiths AS.
  - **Ffenics -** grŵp cynghori dan arweiniad Chris Nott yn adrodd i Ken Skates AS sy'n dod â chynrychiolwyr o'r gymuned fusnes ynghyd i gynghori ar yr adferiad.
  - **Grwpiau eraill** gan gynnwys y Fforwm Adeiladu newydd, yr Economi Sylfaenol a Dyfodol Gwell i Gymru Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru,
- **Arefnu bord gron** ar gyfer Cadeiryddion pob grŵp ym mis Medi 2020 i annog integreiddio rhwng gwahanol ffrydiau gwaith.
- **Rhannu fy mewnwelediadau** ar draws y llywodraeth a thu hwnt, ac atebion posibl i sut y gallwn helpu i fynd i'r afael â'r heriau tymor byr a thymor hwy.






Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

- **Gohirio fy Adolygiad Adran 20 i gaffael.** Er ein bod yn ymwybodol o'r heriau niferus y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gwnaethom sicrhau eu bod yn defnyddio pŵer eu gwariant cyhoeddus i gefnogi adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal.
- **Caniatáu hyblygrwydd** parthed dyletswyddau adrodd ar gyrff cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid oeddwn yn disgwyl iddynt ymateb ar unwaith, na chynhyrchu adroddiadau blynyddol ar eu cynnydd wrth iddynt ddelio â'r argyfwng hwn.
- **Rhannu** barn a syniadau yng nghyfarfodydd y Panel Cynghori statudol.

*"Mae wedi bod yn dda i weld pawb, diolch am y syniadau gwych sy'n dod i'r amlwg fel rhan o adferiad COVID."*

**Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru ym mis Tachwedd 2020.**


Climate > Opinion

*Wales could lead the 'green recovery' in the wake of Covid – but it has to be done the right way*

The 2021 Senedd elections provide Wales with the opportunity to create the future we want – but we must support those most disadvantaged both by the pandemic and the climate crisis

Sophie Howe | Thursday 04 March 2021 07:35 | 4 comments

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd**

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd yn haf 2020. Mae'n cael ei arwain gan Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyfrannais ynghyd ag ystod o bartneriaid eraill.

Yn dilyn galwad am syniadau ar adferiad gwyrdd yng Nghymru, cyflwynwyd 168 o gynigion gan unigolion, grwpiau a sefydliadau. Gweithiodd fy swyddfa gyda phartneriaid ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i helpu i ddewis ystod o gynigion i'w cyflwyno ar frys. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen eisiau dangos y gall newid ddigwydd ar garlam a gall prosiectau a chynlluniau weithredu fel goleufa, i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni i eraill ei efelychu.

Ymrwymais i ddarparu adnoddau o fy swyddfa i fod yn rhan o'r Bartneriaeth Cyflenwi Adferiad Gwyrdd, rhaglen fach gan fy swyddfa i helpu i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i'r rhai sydd wedi cyflwyno cynigion, a'u galluogi i yrru'r gweithredu ymlaen.

**Gwasanaeth Byd Natur Cenedlaethol**

Un o'r cynigion allweddol oedd y 'Gwasanaeth Byd Natur Cenedlaethol' arfaethedig. Mae hwn yn fframwaith i sefydlu cyfleoedd newydd sy'n canolbwyntio'n ddiymdroi ar y dyfodol o amgylch sgiliau, swyddi ac adfer amgylchedd naturiol Cymru', tra hefyd yn alinio'n well y mecanweithiau presennol sydd ar waith.

Mae'n ceisio ymateb i argyfyngau natur a hinsawdd a helpu i fynd i'r afael â chanlyniadau (cyfiawnder) economaidd a chymdeithasol y pandemig. Bydd yn gwneud hyn trwy uwchsgilio ac ehangu'r gweithlu gyda bywoliaethau o ansawdd da mewn sector y dangosir bod ganddo botensial sylweddol i greu swyddi.

Mae fy swyddfa yn parhau i chwarae rhan allweddol gyda datblygiad y cynnig ac ymgyfraniad yn y cyfarfodydd cyd-ddylunio a gynhelir.


Sophie Howe @sophieh... · 18/02/2021 ···
And this is exactly why I'm calling for the next @WelshGovernment to create a National Wellness System Kelechi Nnoaham, Public Health Director "the issues that led the problem -we've known about for years" and this result could have been foreseen."

bbc.co.uk
Covid: South Wales valleys' high death rates 'caused by poverty'

**Cronfa Adfer Diwylliannol a'r Addewid i Weithwyr Llawrydd a Chyrff Cyhoeddus**

Ym mis Awst 2020, galwais am incwm sylfaenol creadigol i dalu lwfans byw sylfaenol i weithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sector hwn a helpu Cymru i wella o'r pandemig. Bydd artistiaid, awduron, beirdd, cerddorion a pherfformwyr Cymru yn hanfodol bwysig er mwyn cael y wlad yn ôl ar ei thraed - ond mae angen eu cefnogi'n well.


Claire Rees
@clairereesmedia

Creative freelancers in Wales - the Freelancer Fund opens Monday.
There's also an (optional) Freelancers' Pledge to use your skills to 'bring creativity & imagination to all areas of public life', as part of the goals of the Well-being of Future Generations Act @futuregencymru

Creative Wales @welshgocreative · Oct 1, 2020
Calling all freelancers! Have you checked whether you are eligible for support?

Freelancer Fund opens 5 October.

Eligibility checker here 👉 ow.ly/lScL50BGhLa
FAQs and Guidance here 👉 ow.ly/qoEr50BGhL9

Gallai Cymru fod yn 'flaenllaw yn y byd' wrth ddarparu rhwyd ddiogelwch i'r sector wrth i artistiaid ddefnyddio'u doniau a'u sgiliau i gefnogi gwahanol fathau o ymatebion i'r pandemig ... Er enghraifft helpu i ailadeiladu canol trefi a dinasoedd, cefnogi pobl agored i niwed trwy eu cynnwys yn y celfyddydau a cherddoriaeth a helpu i ddod â "meddwl creadigol unigryw" i'r ffordd yr ydyn ni'n datrys problemau ôl-bandemig.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth gronfa gwerth £7 miliwn a fyddai'n agored i weithwyr llawrydd sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwydiannau creadigol, digwyddiadau celfyddydol a threftadaeth, diwylliant a threftadaeth, y mae gan eu gwaith ganlyniadau creadigol / diwylliannol uniongyrchol.

**Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, yr Arglwydd Elis-Thomas AS:**

*"Rwy'n falch iawn ein bod yn gallu darparu cefnogaeth - i gynnal ein gweithwyr llawrydd yn ystod y cyfnod anodd hwn a chydnabod cyfraniad yr unigolion hyn i'r economi, ein cymunedau a'r sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru."*

**Dywedodd Graeme Farrow, cyfarwyddwr artistig yng Nghanolfan Mileniwm Cymru:**


*"Po fwyaf o feddwl a gweithredu creadigol sy'n mynd i mewn i'r adferiad yng Nghymru, y gorau a'r mwyaf cydnerth fydd hi. Mae artistiaid yng Nghymru wedi dangos pa mor werthfawr yw eu gwaith ym maes iechyd, addysg a meysydd eraill ledled yr economi"*

Mae fy swyddfa wedi cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu ei Haddewid i Weithwyr Llawrydd a Chyrff Cyhoeddus. Bydd y dull hwn o adferiad, a arweinir gan ddiwylliant, yn ceisio partneru gweithwyr llawrydd gyda chyrff cyhoeddus i helpu i gefnogi'r sector a mynd i'r afael â materion fel unigrwydd ac arwahanrwydd, adfywio trefi a dinas a chymuned, iechyd meddwl, treftadaeth a theithio llesol ac ati. Bydd yr ymagwedd hon yn cael ei lansio eleni a bydd yn annog datrysiadau newydd, arloesol a chreadigol i adferiad Cymru.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**Incwm sylfaenol cyffredinol (UBI)**


Gallai Cymru fod yn sail i fenter arloesol i ddarparu incwm sylfaenol oddi wrth y llywodraeth i ddinasyddion a gweithredu wythnos waith fyrrach.


Basic income
"Wales should test basic income and a shorter working week"

Published 2020-10-14
Radar - Basic income
"Wales should test basic income and a shorter working week"
Share the article:

Mae'r ddau argymhelliad hyn o fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dod yn arbennig o bwysig gan fod y pandemig wedi datgelu anghydraddoldebau cymdeithasol helaeth a natur ansicr trefniadau gwaith modern i gynifer o bobl. Gallai incwm sylfaenol newid bywydau ledled y DU yn sylweddol ar adeg pan mae enillion pobl wedi dod yn fwyfwy simsan, trwy wella llesiant meddyliol, rhoi mwy o ryddid i ddewis, gwella cyrhaeddiad addysgol, lleihau cyfraddau troseddu a dibyniaeth, a lleddfu pwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel Gofal Iechyd.

Comisiynais Autonomy i gynnal ymchwil i ymarferoldeb y polisïau hyn a pha mor angenrheidiol y gallai newid dramatig i'r ffordd yr ydyn ni'n byw, ac yn gweithio fod. Fel rhan o'r ymchwil hwn canfu arolwg barn a gynhaliwyd gan


'Pilot universal basic income and shorter working weeks in Wales'

By Cemlyn Davies
BBC Wales political correspondent

19 October 2020 | Comments

FUTURE GENERATIONS COMMISSIONER FOR WALES

Sophie Howe has called for politicians to be "brave and radical"

**A shorter working week and universal basic income should be piloted by the next Welsh Government, a policy influencer has said.**

Wales' Future Generations Commissioner Sophie Howe has published a "manifesto" ahead of May's Senedd election setting out policies she would like the next administration to adopt.

Survation y byddai bron i dri chwarter o bobl yng Nghymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru i dreialu cynllun incwm sylfaenol, a ddisgrifiwyd fel 'GIG y genhedlaeth hon'. Mae cefnogaeth wleidyddol i incwm sylfaenol hefyd wedi tyfu'n ddiweddar, gydag aelodau Senedd Cymru yn rhoi cefnogaeth ysgubol i gychwyn cynllun peilot, mewn dadl a gyflwynwyd gan AS Alyn a Glannau Dyfrdwy Jack Sargeant. Mae Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, yn eiriolydd arall.


Future Gen Cymru
@futuregencymru

We're excited to see @fmwales @JaneHutt announce the launch of a #UBI scheme in Wales.

"Wales once again proves that it's often the small countries that can be world-leading and make the biggest changes." @sophiehowe

#basicincome @UBILabWales


*"...gyda mwy a mwy o wledydd Ewropeaidd yn cyhoeddi bod cynlluniau tebyg yn cychwyn (yn enwedig heddiw gyda'r Almaen wedi ymuno â'r achos) rwy'n credu mai dyma'r amser gorau i daro a gosod yr esiampl yn Ynysoedd Prydain na fydd dinasyddion Cymru'n cael eu hesgeuluso a'u gadael ar eu pennau eu hunain yn yr amseroedd hyn o gythrwfl, ofn ac allgáu."*

**O ohebiaeth gyhoeddus**


This week we look at the future post #COVID19. And who better to talk to about the future than Wales' very own guardian of #FutureGenerations @sophiehowe

We talk about #UBI & a #4DayWeek, creating more spaces, greener spaces & why it's time to think longterm! #BuildBackBetter

Mae tynnu sylw at incwm sylfaenol fel mater i'w flaenoriaethu gan y llywodraeth newydd yn ymrwymiad anhygoel o sylweddol gan y Prif Weinidog Mark Drakeford ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau iechyd Cymru - gallai UBI ac wythnos waith fyrrach leihau difrod parhaol yr anghydraddoldebau hyn. Mae'n foment enfawr i'r ymgyrch, yr wyf wedi bod yn falch o fod yn rhan ohoni, gan gydnabod y gefnogaeth gynyddol ar gyfer ffordd decach o ganiatáu i bobl gwrdd â'u hanghenion sylfaenol.

Mae gen i adroddiad yn dod allan a fydd yn darparu dadansoddiad pellach o sut y gallai incwm sylfaenol wella bywydau pobl yng Nghymru am genedlaethau i ddod.

Mae ymrwymiad 'Cymru' i archwilio incwm sylfaenol unwaith eto yn profi mai'r gwledydd bach yn aml a fedr arwain y byd a gwneud y newidiadau mwyaf.

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith ni wedi gwneud gwahaniaeth i adferiad 'Cymru' yn dilyn COVID

**Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:**

- **Dadl wedi'i fframio a materion wedi eu gosod ar yr agenda** gyda Gweinidogion, y llywodraeth ac eraill mewn perthynas â sicrhau bod y ffocws yn cael ei roi ar adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal.
- **Sicrhau newid gweithdrefnol** mewn penderfyniadau buddsoddi fel y gwelir yng nghyllideb strategol Llywodraeth Cymru a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.
- **Effeithio ar gynnwys polisi** ac ymrwymiadau yr effeithir arnynt fel addewid i Weithwyr Llawrydd, ymrwymiad y Prif Weinidog i dreialu incwm sylfaenol a'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi newydd (Chwefror 2021) sy'n defnyddio egwyddorion y Ddeddf i osod ymdrechion tuag at 'Economi Lesiant' gydag addysg, hyfforddiant a dysgu ôl-16 yn canolbwyntio ar ffyniant, cydraddoldeb a diwydiannau gwyrdd.
- **Dylanwadu ar newid** ymddygiad ymarferol gan gynnwys integreiddiad rhwng mentrau adfer y llywodraeth.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Sgiliau ar gyfer y Dyfodol

Wrth i Lywodraeth Cymru, Senedd Cymru a chyrff cyhoeddus ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer adferiad yn dilyn pandemig COVID, ni fu ffocws hirdymor ac integredig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol erioed mor bwysig.

Rhan allweddol o hyn yw sut fyddwn ni'n buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant - o safbwynt ein hagwedd tuag at addysg a'r cwricwlwm cenedlaethol a'r sgiliau y bydd eu hangen ar ein gweithlu.

**Cwricwlwm Cenedlaethol a chenhadaeth genedlaethol dros addysg**

Mae rhoi addysg i bobl a'r cyfle i ddatblygu'r set gywir o sgiliau ar gyfer eu dyfodol yn cael ei dderbyn yn eang fel penderfynydd arwyddocaol canlyniadau bywyd, fel iechyd, sefyllfa economaidd-gymdeithasol a disgwyliad oes. Mae hwn wedi bod yn faes gwaith pwysig i'm tîm erioed, ond hyd yn oed yn fwy felly nawr o ganlyniad i COVID-19.


Fodd bynnag, mae yna ddiffyg cyfatebiaeth rhwng yr hyn y mae pobl yn ei ddysgu, yr hyn sydd ei angen ar gyflogwyr a'r hyn y bydd ei angen ar ddyfodol Cymru a'r byd.


Mae'r Cwricwlwm cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru'n darparu cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i roi llesiant wrth galon ysgolion a dysgu, ac mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn gyfle i helpu pobl Cymru i barhau i ddysgu gydol oes.

Gwneuthum yr alwad gyntaf am a ddylem ddisodli TGAU ym mis Hydref 2019 a gofynnais i'r Gweinidog Addysg ar y pryd, Kirsty Williams AS, am "ailfeddwl radical" am gymwysterau disgyblion 16 oed, a symud tuag at asesiadau sy'n ffocysu ar amrywiaeth ac sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion, nid eu profi.

Gan adeiladu ar fy adroddiad Addysg sy'n addas ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru, rwyf wedi ysgrifennu at Weinidogion, wedi gweithio gyda Chymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr eraill a llawer o sefydliadau eraill ar ddyfodol asesiadau fel TGAU a materion cysylltiedig. Ym mis Hydref 2020, rhoddais dystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru ochr yn ochr â'r Comisiynydd Plant Cymru a galwais am genhadaeth genedlaethol ar gyfer addysg sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan ddod â busnes, y sector addysg a'r gymdeithas ddinesig ynghyd i ddarparu sgiliau mewn ffordd gydlynol.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i alwadau i ganslo arholiadau o ganlyniad i bandemig COVID. Ond rwy'n eu hannog i sicrhau nad datrysiad unwaith ac am byth mo hwn. Mae angen defnyddio ffyrdd newydd o feddwl i sicrhau bod cymwysterau yn y tymor hwy yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, ac yn mynd i'r afael â heriau fel awtomeiddio, newid yn yr hinsawdd a'r bwlch gweithredu sgiliau.









Nawr yn fwy nag erioed, mae angen i ni fod yn addysgu pobl ifanc nid yn unig am waith, ond ar sut i fyw bywyd da. Edrychaf ymlaen at barhau i gefnogi a herio cynlluniau'r llywodraeth i ddarparu addysg sy'n deg, yn canolbwyntio ar y plentyn, yn canolbwyntio ar lesiant ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

> *"Roeddwn yn falch iawn i weld ymyrraeth Sophie ar ddysgu ar-lein. Cytunaf yn llwyr. Bydd canlyniad yr anghysondeb yn ymagwedd ysgolion tuag at addysgu yn ystod y cyfnod cloi yn golygu y bydd rhai plant dan anfantais: 1. Er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu band eang Cymru dros 10 mlynedd yn ôl, mae safon band eang yn warthus mewn sawl ardal. 2. Ni all pob rhiant ddarparu gliniadur ar gyfer pob un o'u plant. Nid yw ceisio dysgu ar eu ffôn yn dderbyniol. 3. Mae'r myfyrwyr hynny sydd ag anabledd dysgu sydd wedi teimlo bod dysgu o bell yn anodd hefyd yn debygol o fod dan anfantais."*
>
> **Gohebiaeth gyhoeddus ynghylch dysgu digidol yn ystod y cyfnod clo.**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**Y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal**

Er bod y pandemig COVID wedi bod yn heriol, mae'r sefyllfa'n rhoi cyfle i ganolbwyntio ar y pecyn ysgogiad economaidd a all ddarparu ystod eang o fuddion - megis bywoliaethau o ansawdd da yn gwella bioamrywiaeth tra'n cefnogi datgarboneiddio cyflym.

Gellid creu dros 60,000 o swyddi yn yr economïau gwyrdd a glas dros y ddwy flynedd nesaf gyda buddsoddiad mewn seilwaith. Ond mae hyn yn dibynnu ar roi'r sgiliau a'r hyfforddiant cywir ar waith.

Rhaid i ni weithredu nawr i greu'r llwybrau sgiliau cywir cyn y gall pobl Cymru fanteisio ar hyn. Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn diwydiannau a sectorau sy'n ein helpu i gyrraedd ein targedau dim-carbon, cynyddu cydraddoldeb a gwella ein llesiant.




Gan weithio gyda'r New Economics Foundation a TUC Cymru, yn 2020 cynhaliais ddadansoddiad manwl i helpu i symud Cymru i'r cyfeiriad hwn. Mae hyn wedi dangos bod:

- **Diffyg cyfatebiaeth rhwng** set sgiliau ein poblogaeth yng Nghymru a'r hyn sy'n ofynnol i yrru'r trawsnewid gwyrdd hwn. Yn syml, nid oes digon o athrawon, disgyblion yn cael eu haddysgu, prentisiaethau'n cael eu sicrhau, cyrsiau coleg a phrifysgol yn cael eu haddysgu neu eu dysgu yn niwydiannau'r dyfodol sydd eu hangen arnom ar gyfer Cymru lanach, wyrddach a chyfoethocach.
- **Mae cyllid i ddelio â'r diffyg** hwn hefyd yn annigonol i ymdopi â'r galw a'r raddfa. Er enghraifft, dim ond codiad o 10% sydd wedi bod yn y cyllid, yn erbyn y disgwyliad y bydd cyfraddau diweithdra'n dyblu erbyn diwedd 2021, o'i gymharu â lefelau cyn-argyfwng.
- **Mae angen gweithredu** wedi'i dargedu a'i gynnal yn barhaus i sicrhau bod diwydiannau twf gwyrdd yn darparu mynediad i bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; menywod; pobl anabl; a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.
- **Ar lefel leol,** nid yw amcanion a chamau llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach. Mae hyn yn cyfyngu ar gwmpas yr hyn y gellir ei gyflawni, gan golli cyfleoedd i wella sgiliau mewn diwydiannau carbon isel a sicrhau bod cyfleoedd cyfartal ar gael i bawb.

Ar sail y canfyddiadau hyn, cyfrannais at Grwpiau Cynghori Gweinidogol; mynychais sesiynau her mewnol gyda gweision sifil Llywodraeth Cymru; darparais adroddiadau; tystiolaeth a chyngor i swyddogion Llywodraeth Cymru ar bolisi economaidd; darpariaeth cyllideb; sgiliau ac addysg ôl-16, a gyflwynwyd mewn fforymau diwydiant fel yr Uned Dysgu a Gwaith; Tai Cymunedol Cymru; Fforwm Adeiladu; ysgrifenais at y Prif Weinidog ac Aelodau'r Cabinet; gweithiais gyda TUC Cymru; grwpiau amgylcheddol ac eraill i adeiladu tystiolaeth a naratif o amgylch adferiad gwyrdd. Rydyn ni gyda'n gilydd yn galw am fuddsoddi mewn meysydd sydd angen buddsoddiad cyflym a chynyddu cynigion sgiliau cyfredol, hyfforddiant ac addysg. Cyhoeddwyd yr [ymchwil](ymchwil) ym mis Mai 2021.






Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

**Ar gyfer adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal, argymhellais y dylai Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru:**

- **Wella aliniad a gweithredu** tuag at argyfyngau hinsawdd a natur gyda'u buddsoddiad mewn sgiliau, hyfforddiant a sectorau a fydd yn darparu adferiad gwyrdd a chyfiawn.
- **Fuddsoddi yn niwydiannau** a thechnolegau'r dyfodol, a chefnogi busnesau a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel a chloi cyfoeth a swyddi mewn ardaloedd lleol gyda buddsoddiad yn yr economi sylfaenol.
- **Nodi cynllun ar** gyfer ymateb i argyfyngau cyfredol a thueddiadau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u dwysáu.
- **Sefydlu ac ariannu** cenhadaeth genedlaethol a rennir ar gyfer addysg a hyfforddiant gan ddod â sgiliau busnes, trydydd sector, gweithredwyr cymunedol, pobl hŷn a'r sector gwasanaethau ieuenctid i mewn.
- **Sefydlu gweledigaeth genedlaethol** i Gymru ddod y genedl fwyaf eco-lythrennog a chyfrifol yn fyd-eang yn y byd.
- **Creu Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol** i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n cael eu profi gan Bobl Dduon, Asiaidd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.
- **Buddsoddi mewn** 'adferiad a arweinir gan ofal' - diwydiant carbon isel lle byddai buddsoddiad yn darparu o leiaf 2.7 gwaith y swyddi y gallai'r un buddsoddiad mewn adeiladu eu darparu, a darparu cydnabyddiaeth ariannol a chymdeithasol briodol i weithwyr gofal.

> *"Darllenais yr adroddiad Rhaglen Lywodraethu ddoe gyda diddordeb mawr. Mae'n adroddiad da iawn. Rwyf wedi anfon at uwch gydweithwyr yn SHELL a meysydd cysylltiedig, ac wedi tynnu sylw at yr adran sgiliau. Rwyf hefyd wedi trafod a chrybwyll wrth gydweithwyr eraill sy'n gyfarwyddwyr, ac rwy'n ymwybodol bod gweinidogion yn ymwybodol ohono. Diolch eto am eich holl gymorth wrth ein paratoi ar gyfer hyn a'r heriau sylfaenol sy'n cyd-fynd ag ef."*
>
> **Huw Morris, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru**



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau?

### Fframio'r ddadl a chael materion ar yr agenda

- **Cefnogais ddeiseb a gyflwynwyd i** Bwyllgor Deisebau'r Senedd Cymru yn ddiweddar yn galw ar i ymwybyddiaeth amgylcheddol fod yn fodiwl allweddol mewn ysgolion: Ymgyrch Dysgu'r Dyfodol sy'n cael ei lansio yng Nghymru ac wedi halinio â'r Ddeddf a'r argyfwng hinsawdd. Mae sefydliadau llai fel Cymgrogi Futures yn Sir Benfro, Permaddiwylliant 39 ym Mhowys; Coleg y Mynydd Du i gyd yn seilio dysgu ar ecosystemau a chydnerthedd hinsawdd / natur.

### Effeithio ar gynnwys ac ymrwymiadau polisi

- **Dyluniwyd y Cwricwlwm Cymru 2022 newydd** i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn gynwysedig yng nghanllawiau fframwaith y cwricwlwm anogir holl ysgolion a lleoliadau addysg eraill i ddefnyddio'r pum dull o weithio ac ymroi i gyfrannu at y nodau llesiant. Mae'r cwricwlwm hefyd yn cymryd golwg hirdymor, gan roi pwys mawr ar greadigrwydd, sgiliau digidol a datrys-problemau, gan fod y rhain yn sgiliau y rhagwelir y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol oherwydd eu bod yn anodd eu hawtomeiddio.
- **Ar gyfer dysgu ôl-16,** mae'r Mesur Addysg ac Ymchwil Trydyddol drafft yn cynnwys dyletswydd cenhadaeth ddinesig (yn seiliedig ar y Ddeddf) ac mae'n cynnwys gweithio mwy gyda'r gymdeithas ehangach ar ddysgu ac addysgu.
- Mae'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi (Chwefror 2021) yn defnyddio egwyddorion y Ddeddf i nodi ymdrechion tuag at 'Economi Llesiant' gydag addysg, hyfforddiant a dysgu ôl-16 yn canolbwyntio ar ffyniant, cydraddoldeb a diwydiannau gwyrdd.

### Sicrhau newid gweithdrefnol diogel yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau

- **Mae gweithredu'r cwricwlwm** wedi gweld cynnydd yn y cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol a mwy o athrawon (600 o gynorthwywyr ychwanegol, 300 o athrawon ychwanegol), rhywbeth y galwais amdano yn 2019.
- **Mae arholiadau bellach** wedi cael eu disodli gan asesiad athrawon yn ystod 2020 a 2021. Ac awgrymodd yr Adolygiad Annibynnol newid tymor hwy i gymwysterau. Roedd cefnogaeth eang i ddiwygio ym maniffestos 2021 ac mae Cymwysterau Cymru wrthi'n ystyried cydbwysedd cywir rhwng arholiadau / dulliau eraill ar gyfer asesu yn y dyfodol.
- **Mae sefydliadau** addysg bellach ac uwch yn cydweithredu â chyrff cyhoeddus, yn aml trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth i bobl leol.

### Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol

- **Yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot,** mae ystafelloedd dosbarth dysgu awyr agored ac Ysgolion Coedwig.
- **Yn Sir Ddinbych,** mae'r Cyngor wedi cael mynediad gan y Cyngor i dir ger eu hysgol fel ystafell ddosbarth awyr agored lle byddant yn monitro rhywogaethau sydd mewn perygl ac yn cyflawni tasgau ymarferol i ddysgu sut i ofalu am eu hamgylchedd.
- **Mae Cenhadaeth Ailgylchu Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr** yn dysgu disgyblion sut mae bwyd yn cael ei droi'n bŵer trydan trwy gystadleuaeth ar adnoddau addysgu ar-lein.
- **Yng Ngwent, mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chymunedau Digidol Cymru** yn cael eu hyfforddi fel 'Arwyr Digidol' ac yn treulio amser gyda phobl hŷn i ddeall eu hanesion, gan ddefnyddio rhith-realiti, iPads a chynorthwywyr technoleg personol i ddysgu'r hyn sy'n bosibl i'r bobl hŷn hefyd. Mae plant yn dod yn fwy gwybodus yn foesegol ac mae pobl hŷn yn elwa o ddefnyddio technoleg fel dewis arall yn lle meddyginiaeth wrth ddelio â phryder, dementia ac unigrwydd. Profwyd hefyd ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar atal cwympiadau.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Cydraddoldebau - Peidiwch â gwyngalchu'r adferiad gwyrdd

**Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau enfawr yn ein cymdeithas ledled y byd ac yng Nghymru. Mae COVID-19 yn taro menywod, a menywod nad ydyn nhw'n wyn, yn galed, yn amrywio o bwysau economaidd ac ansicrwydd ariannol yn dilyn diswyddiadau a ffyrlo, i gyfrifoldebau gofal cynyddol.**

Yn fyd-eang, bod 70 y cant o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn fenywod, ac maent yn fwy tebygol o fod yn weithwyr iechyd rheng flaen, fel nyrsys, bydwragedd a gweithwyr iechyd cymunedol.

- **Mae cyfraddau heintiau** ymhlith gweithwyr gofal iechyd benywaidd hyd at 3x yn uwch nag ymhlith eu cymheiriaid gwrywaidd.
- **Mae cyflogaeth menywod** 19% yn fwy peryglus na chyflogaeth dynion.
- **Collodd 72% o weithwyr domestig,** 80% ohonynt yn fenywod, eu swydd o ganlyniad i COVID-19.

Er nad yw'n faes ffocws penodol o dan fy mlaenoriaethau gwreiddiol, mae COVID-19 wedi datgelu anghydraddoldebau presennol i'r fath raddau fel na ellir eu hanwybyddu mwyach. Mae adferiad 'Cymru' yn dilyn y pandemig yn gyfle i newid. Gallai sut mae Cymru'n dewis ymateb i'r pandemig a thueddiadau eraill yn y dyfodol gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar anghydraddoldeb.

Mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ym mis Chwefror 2021 comisiynais waith pellach i nodi tueddiadau sy'n debygol o effeithio'n fwyaf ar anghydraddoldeb (er enghraifft cynyddu awtomeiddio, ein poblogaeth sy'n heneiddio a newid yn yr hinsawdd), gan dynnu sylw at gyfleoedd a heriau penodol ar gyfer nodweddion a grwpiau gwarchodedig penodol mewn cymdeithas. Y cam nesaf yw defnyddio'r canfyddiadau hyn i weithio ar y cyd â sefydliadau cydraddoldeb a phobl sydd â phrofiad byw i wella llunio polisïau, rhoi llais i'r rhai mwyaf agored i niwed a helpu i ddatblygu glasbrint newydd i alluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i fabwysiadu'r dull hwn yn y dyfodol. Yn lle ffocysu sylw ar yr hyn sy'n digwydd yn fan a'r lle yn unig, mae'n rhaid i ni fod yn feiddgar a datblygu polisïau na fydd yn ailadrodd nac yn atgyfnerthu'r anghydraddoldebau presennol.

Cyhoeddir yr ymchwil hwn ym mis Medi 2021, ond mae'r canfyddiadau cychwynnol eisoes yn ddefnyddiol ar gyfer trwytho meysydd eraill o'm gwaith ynghylch sgiliau, tai a chyllideb y Llywodraeth.

Mae'r llwybr i sero net yn cynnwys cyfleoedd, o swyddi i gymunedau iachach sydd â chysylltedd gwell a gwyrddach. Ond wrth i ni ymateb i anghenion uniongyrchol y pandemig, mae'n rhaid i ni atal anghydraddoldebau rhag gwaethygu yn y dyfodol, neu bydd yr adferiad gwyrdd yn wyngalch. Mae herio'r rhwystrau strwythurol sydd ar waith ar hyn o bryd ymhlith pobl dan anfantais eisoes yn golygu creu piblinell sgiliau cyfartal a gwneud mwy i fynd ati i dargedu pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, fel menywod a phobl nad ydyn nhw'n wyn.

Mae angen gweithredu i gysylltu'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan anghydraddoldebau presennol, pandemig COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd â swyddi, sgiliau a chyfleoedd newydd a ddaw o'r trawsnewid i sero net. Rwyf wedi gofyn i'r Llywodraeth nodi cynllun ar gyfer ymateb i dueddiadau'r dyfodol, mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u dwysáu.

## Stoc Dai

**Mae cysylltiad cryf rhwng tai o ansawdd gwael ac anghydraddoldeb, tlodi a chyfleoedd bywyd cyfyngedig.**

Mae'r adeiladau rydyn ni'n byw ynddynt fel arfer yn bodoli am ganrif neu fwy ac felly, bydd y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud heddiw yn cael effaith ddwys ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol - yn uniongyrchol ar eu hamodau byw ac yn ehangach, ar allyriadau carbon Cymru, ein tirwedd, economi a chymunedau.

### Green Housing Needs to be Wales' Priority

10th September 2020 Politics and Policy
climate emergency, coronavirus, covid19, future generations, housing



Our green recovery from the Covid recession should focus on house-building and retrofitting, argues Sophie Howe.

Wales' recovery from the pandemic is an opportunity to enact change and build back a better and fairer economy, and the way the Welsh Government allocates its budget will send important messages about whether we are taking this opportunity.

Mae fy ngweledigaeth ar gyfer cymunedau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol lle mae tai yn hawl ddynol sylfaenol yma.

Bydd buddsoddi mewn adeiladu tai fforddiadwy carbon isel newydd a rhaglen genedlaethol i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol yn helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau newid hinsawdd wrth greu swyddi a gwella iechyd a llesiant pobl.

Mae Cymru wedi gwneud addewidion sy'n arwain y byd i ddatgarboneiddio stoc dai yn sylweddol erbyn 2030 i gefnogi ein nod i fod yn sero net erbyn 2050. Ond mae stoc dai Cymru ymhlith y gwaethaf yn Ewrop o ran effeithlonrwydd ynni felly i ddatgarboneiddio ein stoc dai ar y raddfa sydd ei hangen bydd angen buddsoddiad sylweddol ynghyd â mwy o gydlynu pawb yn y system. Yn 2020, comisiynais y New Economics Foundation i archwilio opsiynau ariannol - yn benodol i amcangyfrif cyfanswm y cyllid sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru, nodi bylchau cyllido ac awgrymu dulliau o fynd i'r afael â'r rhain.

Gweithiais yn agos gyda nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid, gan adeiladu ar waith blaenorol gan gynnwys adroddiad 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell', gwaith Ysgol Pensaernïaeth Cymru (WSA), adroddiad Altair a gomisiynwyd gan Dai Cymunedol Cymru a Rhaglen Llywodraeth Cymru: Ôl-osod er mwyn Optimeiddio sy'n profi dulliau o ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru. Canfyddiadau cychwynnol y gwaith hwn, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2021, yw:

- **Bod gan raglen datgarboneiddio tai** sy'n seiliedig ar ôl-osod er mwyn optimeiddo, y potensial i gyfrannu at lawer o'n nodau llesiant cenedlaethol ynghyd â chynhyrchu buddion sylweddol i'n hamgylchedd a'n heconomi (26,500 o swyddi newydd o bosib erbyn 2030).
- **Mae angen i Lywodraeth Cymru** arwain y ffordd ond ni fydd yn gallu cyllido'r rhaglen 100%. Rhaid cydbwyso'r her o ariannu'r newid hwn ar draws Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, cymdeithasau tai, landlordiaid a pherchnogion tai, gyda llawer o sefydliadau eraill yn chwarae eu rhan.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

- **Mae angen cynllun tymor hwy** ar gyfer cyllid. Ac mae maint yr her yn golygu bod angen sefydliadau newydd a bydd rolau newydd i'r sefydliadau presennol.
- **Mae cyllid yn allweddol** ond dim ond un darn o'r pos ydyw; ar ei ben ei hun ni fydd yn sicrhau newid yn y cyflymder a'r raddfa sydd eu hangen, gyda meysydd polisi eraill fel strategaeth, ymgysylltu, cydweithredu a chyflawni, rheoleiddio, sgiliau, cadwyn gyflenwi a safonau, modelau busnes integredig a chymhellion cyllidol i gyd yn hanfodol i lwyddiant.
- **Mae yna fwlch sylweddol** o ran niferoedd sy'n gymwys i gyflawni'r gwaith hwn a rhaglenni i hyfforddi ac uwchsgilio gweithlu yn y dyfodol, gan fod y niferoedd cyfredol o brentisiaethau / cyfleoedd hyfforddi yn llawer is na'r hyn sydd ei angen.
- **Er bod yn rhaid cryfhau ein huchelgais** i ddatgarboneiddio, mae'n bwysig bod tlodi tanwydd hefyd yn cael sylw fel rhan o ymagwedd holistig. Dylai'r cartrefi gwaethaf gael eu targedu yn gyntaf.

> *"Rwyf newydd ddarllen eich erthygl 'Green Housing Needs to be Wales Priority". Rwy'n cytuno'n llwyr"*
>
> **Gohebiaeth gyhoeddus**



## Tai fel hawl ddynol sylfaenol

**Yn fy Maniffesto y Dyfodol, heriais Lywodraeth Cymru i ymgorffori yng nghyfraith Cymru bod tai yn hawl ddynol, ac i drosi'r hawl hwn yn bolisi ac arfer. Mae hawl cyfreithiol i dai yn un o'r anrhegion mwyaf y gallem ei rhoi i genedlaethau'r dyfodol.**

Mae cartrefi fforddiadwy, diogel, cysylltiedig, ynni-effeithlon yn helpu i gadw pobl yn iach, a byddai hawl cyfreithiol i dai yn ein helpu i gyflawni'r nodau a osodwyd gan ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol unigryw, gan atal digartrefedd, gostwng cost rhedeg cartref, gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a chaniatáu i ni gynllunio'n well ar gyfer gofalu am bobl oedrannus.

Rwy'n cefnogi Cefnogi'r Bil, ymgyrch ar y cyd gan elusennau Tai Pawb, Sefydliad Siartredig Tai Cymru a Shelter Cymru i ddod ag argyfwng tai a digartrefedd Cymru i ben ac annog pob plaid wleidyddol yng Nghymru i ymrwymo i hawl gyfreithiol i dai digonol yn eu maniffestos yn arwain at Etholiad Seneddol 2021.







Credyd: iCreate a Sero Homes

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

> *"Mae ail gartrefi yn gwthio prisiau tai allan o gyrraedd ein bobl ifanc. Mae hyn yn arwain at ddiboblogi, drwy fod ein bobl ifanc yn cael eu gorfodi i symud allan o'u cynefin. Gwelir yma fygythiad difrifol i gynaliadwyedd ein cymunedau. Rhaid mynd i'r afael â'r broblem yma ar frys er mwyn sicrhau ein diwylliant, ein ffordd o fyw, ein hiaith, ein heconomi a'n bodolaeth."*
>
> **Gohebiaeth gyhoeddus**

> *"Rwy'n teimlo'n arbennig o gyffrous i gyhoeddi cyllid ar gyfer cais cydweithredol, gan gonsortiwm o landlordiaid cymdeithasol i ddarparu dros 100 o gartrefi cymdeithasol newydd y mae eu mawr angen mewn pedwar safle yng ngogledd Cymru. Mae'r cais hwn yn cwrdd â'n huchelgais ar gyfer adferiad dan arweiniad tai gwyrdd, gan ddefnyddio pren o Gymru a gwneuthurwr MMC o Gymru; agor cyfleoedd ar gyfer creu swyddi yn lleol ac ehangu busnes. Dyma enghraifft berffaith o sut y bydd awydd y llywodraeth hon i 'adeiladu'n ôl yn wyrddach', yn darparu gwaith gwarantedig i fusnesau, yn creu swyddi medrus newydd mewn rhannau o gefn gwlad Cymru ac yn cyfrannu at ein huchelgeisiau fel a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."*
>
> **Datganiad gan Julie James AS, Tachwedd 2020**

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i dai?

### Effeithio ar ymrwymiadau polisi


- **Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru, Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** yn ariannu mesurau effeithlonrwydd ynni mewn hyd at 1,000 o gartrefi presennol sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol a chynghorau cofrestredig i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chyfrannu at ddatgarboneiddio.

### Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau

- Yn ddiweddar, cwblhaodd **Dinas a Sir Abertawe** eu prosiect ôl-osod ym Mharc Craig Cefn, lle mae paneli solar, storio batris a gwresogi ffynhonnell ddaear wedi cael eu hôl-osod mewn chwe byngalo sy'n eiddo i'r cyngor. Maent hefyd wedi adeiladu 18 cartref ar gyfer rhent cymdeithasol a ddyluniwyd yn unol â safonau ynni isel Passivhaus, sy'n golygu mai ychydig iawn o ynni sydd ei angen arnynt ar gyfer gwresogi ac oeri, gan helpu i gadw biliau tanwydd yn isel a helpu'r amgylchedd. Fe wnaeth adeiladu greu swyddi, gan ddarparu cyfleoedd i brentisiaid a defnyddio cyflenwyr lleol.
- Mae **cyngor Abertawe** hefyd wedi bod yn gweithio gyda grant Llywodraeth o £ 5.6m i ddarparu 100 eiddo un ystafell wely i gynnal rhai sy'n cysgu allan yn dilyn COVID a sicrhau nad prosiect ymatebol yn unig yw eu lloches ond newid hirdymor.
- Mae gan **gymdeithas tai Cartrefi Conwy** is-gwmni eiddo a hyfforddiant o'r enw Creu Menter sydd wedi cychwyn ffatri 'tai modiwlar' yng Nghaergybi, sy'n defnyddio pren i adeiladu cartrefi mewn llai na phythefnos. Mae'r cartrefi yn ynni isel, a all arbed hyd at 90% mewn costau ynni i breswylwyr a thrwy leihau colli gwres mae'r effaith ar yr amgylcheddol yn isel iawn.
- Mae **Cyngor Bro Morgannwg** wedi gweithio gyda phartneriaid i ailwampio adeilad rheilffordd sy'n eiddo i'r cyngor mewn ardal sydd yn fodel o 'weithio a byw' o'r enw'r Goodsheds. Adnewyddwyd Junction House yn 24 o fflatiau rhent cymdeithasol ac yna 18 o fflatiau ar rent masnachol, ac mae'r rhain wedi'u cydleoli gyda bwytai, unedau masnachol a swyddfeydd ynghyd â champfa.
- Mae **ClwydAlyn** yn adeiladu 63 o gartrefi ffrâm bren i fod yn ddi-garbon gydol oes, wedi'u hadeiladu gan gwmni MMC o Gymru. Bydd y cwmni'n cynnig cyfleoedd hyfforddi i grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd sicrhau cyfleoedd cyflogaeth.
- Bydd **Tai Tarian** yn adeiladu 55 o gartrefi newydd ac yn ôl-osod 72 o rai presennol ym Mhort Talbot, gan gynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau biliau tanwydd i denantiaid. Bydd y cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn Castell-nedd Port Talbot gan gwmni teuluol lleol.

### Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol

- Mae Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent wedi ymgysylltu â thenantiaid i ofyn eu barn ar y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. [Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent.]




Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio

Mae Adroddiadd Risgiau Byd-eang Fforwm Economaidd y Byd 2020 yn dangos mai newid yn yr hinsawdd yw'r risg hirdymor amlycaf y mae'r byd yn ei wynebu, gyda methiant i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd fel y pryder allweddol.

Ers dechrau fy nhymor, rwyf wedi cynghori cyrff cyhoeddus bod angen i ni weld gweithredu clir, a dyrannu adnoddau i gyd-fynd â'r targedau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Rwyf wedi cefnogi, herio a darparu fforymau ar gyfer rhannu arfer da yn ymarferol i gynorthwyo cyrff cyhoeddus.

**Mae fy ngweledigaeth ar gyfer dyfodol carbon isel yma.**



Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi gweithio mewn partneriaeth â'r New Economics Foundation ar ddatgarboneiddio tai a chyllideb Llywodraeth Cymru. Rwyf hefyd wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ynni cymunedol, grwpiau amgylcheddol, y Ganolfan Technoleg Amgen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac academyddion.

Mae Cymru wedi gwneud addewidion sy'n arwain y byd i fod yn sero-net erbyn 2050 gyda thargedau newydd, mwy uchelgeisiol wedi'u cyhoeddi yn gynharach eleni. Roeddwn yn falch i weld dyraniad o £140 miliwn i gefnogi gweithredu ar yr hinsawdd a natur yng nghyllideb 2020-21 Llywodraeth Cymru, yn unol â'r hyn a gynigiais, a hefyd gynnydd yn y cyllid ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol.

Sefydlodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Banel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol yn 2020-21 i gynyddu uchelgais a bwriad, sy'n canolbwyntio ar gaffael, adeiladau, trafnidiaeth a defnydd tir.

Rwy'n croesawu Gweinidogaeth newydd Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru sydd bellach yn cwmpasu'r holl feysydd polisi allweddol hyn i sicrhau y gellir cyflymu gweithredu yn y degawd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi eu hail Gynllun Carbon Isel yn ddiweddarach yn 2021 a bydd angen i hyn gynnwys camau uchelgeisiol os ydyn ni am gyrraedd ein targedau newid hinsawdd sef gostyngiad o 63% mewn allyriadau erbyn 2030 a gostyngiad o 89% erbyn 2040, gyda'r mwyafrif o gynnydd yn ofynnol yn ystod y 15 mlynedd nesaf.



Climate change: Wales 'must take advantage of COP26'

By Steffan Messenger
BBC Wales environment correspondent

3 February 2021

GETTY IMAGES

**Wales must take advantage of the major UN climate change conference set to take place on its doorstep, a top government advisor says.**

Glasgow is due to host the global gathering - known as COP26 - in November.

Future Generations Commissioner Sophie Howe said it should motivate Wales' efforts to cut emissions.

Bydd y camau hyn yn angenrheidiol os yw Cymru am chwarae rôl arweinydd yn y DU ac yn fyd-eang ar y newid yn yr hinsawdd yn Uwchgynhadledd Hinsawdd COP26. Edrychaf ymlaen at gefnogi ymagwedd a phresenoldeb 'Tîm Cymru' yn Glasgow - ac anogaf Lywodraeth Cymru i gyflawni uchelgais y foment.

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd?

### Effeithio ar ymrwymiadau polisi

- **£140 miliwn** ar hinsawdd a natur yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, gyda chynnydd o 63% yn y cyllid ar gyfer teithio cynaliadwy yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf
- **Sefydlu'r** Weinyddiaeth Hinsawdd newydd ym mis Mai 2021

### Sicrhau newid gweithdrefnol diogel yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau

- Dylid canmol **Cyfoeth Naturiol Cymru** am eu hymdrechion i fod yn sefydliad carbon bositif sy'n cael ei gyflwyno i gyrff cyhoeddus eraill.
- Mae **Tân ac Achub De Cymru** wedi addo lleihau eu hôl troed carbon o 25% mewn tair blynedd yn unig. Bydd eu Cynllun Lleihau Carbon newydd yn canolbwyntio ar reoli fflyd a theithio, technoleg arloesol, prosesau caffael a chyllid, lleihau gwastraff, cyflenwadau ac offer a'r defnydd o ddŵr. Mae hyn yn cynnwys paneli solar wedi'u gosod mewn gorsafoedd a gweithredu ystafelloedd sychu citiau a yrrir gan synhwyrydd.
- Mae **Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd** yn helpu cyrff cyhoeddus i rannu arfer gorau ar Weithredu ar yr hinsawdd. Maent wedi arwain gweithdai addysgol cydweithredol ac mae 220 o weision cyhoeddus yn yr ardal bellach wedi derbyn achrediad mewn llythrennedd carbon. Mae chwe deg dau o unedau newydd gwefru cyflym deuol 22kw ar gyfer cerbydau trydan hefyd wedi'u gosod mewn tri deg pedwar o safleoedd ar draws Gwent.
- Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** wrthi'n datblygu eu Strategaeth Datgarboneiddio ac wedi lansio platfform ymgyfrannu i alluogi cymunedau i gael gwybodaeth am y newid yn yr hinsawdd, a thrwytho eu barn, eu syniadau a'u profiadau byw wrth ddatblygu'r strategaeth.

### Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol

- Mae **Riversimple** yn paratoi i gynnal treial 12 mis o 20 o geir celloedd tanwydd-hydrogen yn Sir Fynwy.
- Ymrwymodd **Trafnidiaeth Cymru & Metro i drydan** adnewyddadwy 100% ar gyfer pob gorsaf gyda hanner yr ynni hwn yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, a thrydaneiddio 172 km o drac ar Linellau Craidd y Cymoedd.
- Mae cynghorau **Caerffili, Abertawe, Sir Benfro a Chonwy** wedi cyflwyno paneli solar ar eu hadeiladau eu hunain ac adeiladau cymunedol fel ysgolion.
- Mae **Cyngor Sir Penfro** wedi llwyddo i arwain cais o dan gronfa ynni'r DU ar gyfer prosiect Aberdaugleddau: Energy Kingdom. Dyfarnwyd £ 2 filiwn ar gyfer y prosiect yn ardal dyfrffordd Aberdaugleddau i dreialu prosiect dichonoldeb hydrogen ynni clyfar, a allai ddod yn lasbrint ar gyfer cynhyrchu ynni lleol mwy gwyrdd ar y ffordd i sero net.
- Mae **bron i 50%** o fflyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bellach yn drydanol.




Credyd: Riversimple

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Cyllideb Llywodraeth Cymru

Cyllideb Llywodraeth Cymru yw'r penderfyniad unigol mwyaf (neu'r set o benderfyniadau) a wneir gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal â phenderfynu sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu, mae'r broses gyllidebol a phenderfyniadau yn anfon arwyddion pwysig am flaenoriaethau ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn dangos a yw'r blaenoriaethau hynny'n newid i wireddu dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Eleni, canolbwyntiais ar gyfleoedd ar gyfer adferiad gwyrdd a chyfiawn gan wneud y cysylltiadau â meysydd eraill sy'n rhan o fy ngwaith fel tai, datgarboneiddio a sgiliau:**

**1. Cyngor ar flaenoriaethau ar gyfer adferiad gwyrdd a chyfiawn:**

- **Ym mis Mai 2020,** cyhoeddais ddatganiad ar sut y mae'n rhaid i'r Gyllideb Atodol gyntaf nodi newid cyfeiriad i ailosod ein heconomi.
- **Ym mis Hydref 2020** rhoddais gyngor manwl i'r Gweinidog Cyllid a'r Cwnsler Cyffredinol (yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd y Cabinet dros Adferiad ar y pryd) ynghylch blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn adferiad gwyrdd a chyfiawn. Rwy'n deall bod y cyngor hwn wedi trwytho trafodaethau'r Cabinet am flaenoriaethau.
- **Ym mis Tachwedd 2020,** rhoddais fanylion pellach am flaenoriaethau ar gyfer cyllid cyfalaf, m**ewn ymateb i gais gan swyddogion.**
- **Ym mis Ionawr 2021,** darparais dystiolaeth ysgrifenedig ar y gyllideb ddrafft.






**2. Ymchwil i ofynion buddsoddi *mewn dau faes blaenoriaeth uchel* ar gyfer adferiad gwyrdd a chyfiawn, mewn partneriaeth â'r New Economics Foundation.**

a. *Briffio: sgiliau a hyfforddiant ar gyfer adferiad gwyrdd yng Nghymru.*

Mwy o fuddsoddiad mewn sgiliau ar gyfer adferiad gwyrdd yw un o'r cyfleoedd allweddol a amlygwyd yn fy ngwaith ar broses y gyllideb. Mae'r briff hwn, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021, yn tynnu sylw at gyflwr gwael datblygu sgiliau oedolion yng Nghymru cyn y pandemig, gan gynnwys diffyg unrhyw biblinellau wedi'u cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau gwyrdd, ac mae'n nodi sectorau allweddol fel adeiladu, gwresogi, gosod trydanol, gweithgynhyrchu a pheirianneg, ac adfer natur sy'n debygol o fod â photensial sylweddol i greu swyddi ar gyfer adferiad gwyrdd.



# 'Wales should use M4 relief capital to build eco recovery'

SION BARRY
Business editor
sion.barry@walesonline.co.uk

WALES needs a significant uplift in borrowing powers from Westminster to build a green recovery, says the Future Generations Commissioner, Sophie Howe.

Ms Howe wants the Welsh Government to use capital it could have borrowed for the scrapped £1.2bn M4 Relief Road to invest in green housing, jobs and infrastructure.

The UK Government had ring-fenced an £800m borrowing facility for the Welsh Government to help fund the M4 project and has currently no plans to make it available for other projects.

The Welsh Government currently has a borrowing facility for capital of £1bn over a five-year period. It continues to press the Treasury for that ceiling to be increased and flexibility also to use its revenue budget for capital projects.

Ms Howe said that funding should be put into projects such as improving the quality of existing homes, the expansion and upgrade of Wales' bus and rail networks and innovative industries including electric vehicles and recycling.

She said: "Wales didn't need a £1.2bn motorway a year ago and it doesn't need one now. We need green jobs, industries and infrastructure to recover from the pandemic, and protect ourselves against the uncertainties of another crisis in the form of the climate and nature emergency."

A TUC report suggests 1.24 million jobs across the UK could be created through a two-year emergency clean infrastructure stimulus, via fast-tracking spending on projects such as broadband, green technology, transport and housing.

The unions body said a "massive economic stimulus" was needed to deliver on good-quality jobs, decarbonisation and investment to support industries like steel to transition to lower-carbon models and to develop new and emerging green industries like tidal, marine and hydrogen energy.

Ms Howe, whose role is to protect future generations from the political actions of today, said Wales has a once-in-a-generation opportunity to reset its economy.

She added: "Everyone in Wales deserves the health equality that comes from clean air and a commitment to a greener economy.

"To make the changes needed and transition to a net-zero economy, we need visionary ideas and transformative investment.

"Welsh Government needs full borrowing powers to deliver this shift to a green economy. With that investment, we can be UK-leading, and move from an economy built on consumption to one which safeguards jobs and protects the planet for our children."

The commissioner has also called for a Universal Basic Income and a four-day working week to help reduce emissions.

> Sophie Howe, the Future Generations Commissioner for Wales
Mark Griffiths

b. *Adroddiad: ariannu'r newid i dai sero net Cymru.*

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr heriau a'r datrysiadau ar gyfer ariannu ôl-osod carbon isel yn y stoc dai bresennol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso opsiynau cyllido ar draws deiliadaeth gyda ffocws penodol ar dai cymdeithasol.

Cyhoeddwyd y gyllideb ar gyfer 2021-22 ym mis Mawrth 2021. Rwy'n cydnabod yr heriau sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n gadarnhaol bod y gyllideb yn pwysleisio pwysigrwydd adferiad gwyrdd a chyfiawn.

Er bod y pandemig wedi bod yn ddinistriol ac yn heriol mewn sawl ffordd, mae hefyd wedi dod â buddion, gan gynnwys ffyrdd newydd o weithio'n arloesol, yn ddigidol ac ar y cyd, sydd â'r potensial i newid diwylliant sut rydyn ni'n gwneud pethau yng Nghymru. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod buddsoddiad ar draws portffolios yn 'cynnal y da' trwy gefnogi ffyrdd cadarnhaol newydd o weithio pan symudwn i'r modd adfer ac efallai mai'r demtasiwn fyddai mynd yn ôl i'r 'hen normal'.

**Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn:**

- **Sgiliau a chyflogadwyedd** ar gyfer economi di-garbon, yn enwedig trwy wella mynediad i sectorau sydd mewn sefyllfa dda i weithredu adferiad gwyrdd.
- **Canol trefi a hybiau lleol** i alluogi mwy o weithio o bell a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- **Gwell ffyrdd** o gysylltu a symud pobl trwy wella cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- **Diwydiannau diwylliannol a chreadigol,** gan ennyn eu cyfraniad wrth adeiladu'n ôl yn well a'u galluogi i ddod yn rhan greiddiol o gymunedau a gwasanaethau cyhoeddus.
- **Natur** i helpu i gyflawni amgylchedd naturiol bioamrywiol a sicrhau bod gan bobl fynediad i fyd naturiol sy'n llawn bywyd gwyllt.
- **Rhaid i ddyraniadau gadw** i fyny â'r galw cynyddol a'r farchnad lafur sy'n newid yn gyflym a dylai buddsoddiad sicrhau buddion mewn perthynas â chymaint â phosibl o'r nodau llesiant.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i gyllideb y Llywodraeth

### Annog ymrwymiadau disgyrsiol gan Weinidogion, y Llywodraeth ac eraill

- **Yn dilyn fy nghyngor,** mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i raglen waith i ddeall yn well lefel yr allyriadau carbon sy'n deillio o benderfyniadau cyllidebol.

### Effeithio ar gynnwys ac ymrwymiadau polisi

- **Bu cynnydd o 63% mewn gwariant** ar deithio cynaliadwy ers 2019-20, ochr yn ochr â chynnydd mewn buddsoddiad mewn teithio llesol, Metro a chynlluniau rheilffordd a Seilwaith Cerbydau Trydan.
- **Cynnydd mewn cyllid** mewn perthynas â datgarboneiddio cartrefi, gan adeiladu ar y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

### Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau

- **Mae Llywodraeth Cymru** wedi ymrwymo i wella'r broses gyllidebol gan ddefnyddio'r Ddeddf a'r pum dull o weithio i ysgogi gwelliant parhaus









## Materion polisi parhaus eraill

### Cynllunio Trafnidiaeth

Mae ffyrdd newydd o gynllunio ar gyfer trafnidiaeth yn sylfaenol i gyflawni'r nodau llesiant, p'un ai yw hynny'n darparu opsiynau teithio sy'n isel neu'n sero carbon; lleihau llygredd aer; cydraddoli cyfleoedd i bawb; cefnogi ffyrdd iach o fyw; gwella cydlyniant cymunedol a chreu Cymru sydd â chysylltiadau da.

Dros y pedair blynedd diwethaf, rwyf wedi buddsoddi adnoddau sylweddol ar gyfer cynghori Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ar gynllunio trafnidiaeth, i helpu i gyflawni gweledigaeth ar gyfer creu cymunedau â chyslltedd da, carbon isel a gweithredol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- **Tystiolaeth i'r ymchwiliad** cyhoeddus lleol ar Ffordd liniaru arfaethedig yr M4.
- **Mewnbwn i Gomisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru.** Ymgysylltodd fy swyddfa â'r Comisiwn trwy ddeialog barhaus, trwy fynychu gweithdai, a rhoddais adborth ar adroddiad interim y Comisiwn yn haf 2020. Rwy'n croesawu cynlluniau'r Comisiwn i wella trafnidiaeth gyhoeddus i leihau traffig ar yr M4 ond mae angen gwneud mwy i gadw'r nifer o bobl sy'n gweithio o bell. Mae fy natganiad ar adroddiad terfynol y Comisiwn yma.
- **Cyngor ar weithredu'r Arweiniad** ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymreig (WelTAG) newydd. Ysgrifennais at Ken Skates, MS (y Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y pryd) ddwywaith - Gorffennaf 2019 a Thachwedd 2020 i dynnu sylw at bryderon ynghyd â'r anghenion am well gallu a hyfforddiant.
- **Cyngor manwl** ar ddatblygu strategaeth drafnidiaeth 20 mlynedd newydd ar gyfer Cymru.



### Yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a Maniffesto y Dyfodol, argymhellais y dylai cyrff cyhoeddus:

- **Fuddsoddi mewn ffyrdd gwell** o gysylltu a symud pobl trwy wella cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- **Gosod targed cenedlaethol** ar gyfer newid moddol i alluogi pobl i fabwysiadu dulliau teithio carbon isel.
- **Cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim** i bobl ifanc yng Nghymru.
- **Dyrannu o leiaf 50%** o wariant cyfalaf cludiant ar wella gwasanaethau bysiau a threnau.
- **Dylid defnyddio arian a ddyrennir** ar gyfer ffordd liniaru'r M4 (a ddilewyd) i ariannu adferiad gwyrdd a'i fuddsoddi mewn tai gwyrdd, swyddi a seilwaith (gweler yr adrannau uchod).


Rwy'n dechrau gweld y cygnor hwn yn talu ar ei ganfed gyda chyhoeddi cynlluniau a chynigion cyffrous sy'n dyst i'r newid y mae'r Ddeddf yn ei gyflawni.

Mae strategaeth drafnidiaeth newydd 20 mlynedd 'Llwybr Newydd - New Path,' Cymru , yn ddull radical newydd ar gyfer symudedd yng Nghymru gyda ffocws enfawr ar newid i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae wedi cael ei drwytho gan y cyngor a'r her y mae fy nhîm a minnau wedi'u darparu dros nifer o flynyddoedd ac yn nodi 'uchelgeisiau' i ail-lunio trafnidiaeth yng Nghymru. Ymhlith y rhain mae hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy newydd i symud Cymru i ffwrdd o orddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat i 'genedl teithio llesol.'

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo creu mwy o le ar gyfer cerdded a beicio, rhwydwaith cyflymach, mwy dibynadwy o lwybrau bysiau, a mwy o drenau gwasanaethau a gorsafoedd i gysylltu pobl â chyflogaeth, iechyd a hamdden.

Ar hyn o bryd mae trafnidiaeth yn cyfrif am 17% o'n hallyriadau carbon a bydd ymdrech genedlaethol i newid ymddygiadau, mewn ymateb i'm hargymhelliad ar gyfer 'symud moddol', yn gweld Llywodraeth Cymru yn gwella cyfleoedd i bobl a busnesau wneud dewisiadau cynaliadwy, gan gynnwys datblygu trafnidiaeth gyhoeddus ac ail-flaenoriaethu gwariant.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a fy Maniffesto ar gyfer y Dyfodol ac wedi gosod targed ar gyfer newid moddol i drafnidiaeth gynaliadwy. Wrth inni symud i sefyllfa lle bydd 45% o deithiau'n cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio erbyn 2040, mae angen i ni gael gwared ar rwystrau cymdeithasol a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb fel y gall pawb yng Nghymru fwynhau buddion y newid hwn, yn enwedig y rhai heb fynediad i gar.



## WelTAG

Mae'n rhwystredig gweld o'm dadansoddiad fy hun a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i mi gan gymunedau bod bwlch gweithredu sylweddol o hyd yn nhermau **Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)** - a ddefnyddir ym mhob penderfyniad ar ymyriadau trafnidiaeth. Ar ôl gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gynhyrchu'r canllawiau, yn lle nodi'r datrysiad symudedd gorau ar gyfer ardal, gan ystyried nodau llesiant ac amcanion llesiant lleol, mae'r canllawiau yn aml yn cael eu hôl-osod yn dilyn datrysiad penodol a wnaed eisoes (e.e. adeiladu ffordd neu ffordd osgoi), neu mae cyllid eisoes wedi'i ddyrannu. Er enghraifft, yn niweddariad diweddar Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru (Tachwedd 2019) dyrannwyd 62% o'r cyllid cyfalaf i adeiladu ffyrdd newydd.

Fodd bynnag, croesawais gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth yn gwrthod cyllid ar gyfer cynllun ffyrdd yn seiliedig ar gymhwyso WelTAG yn anghywir, sy'n cyd-fynd â'r cyngor yr ydyn ni wedi'i ddarparu o'r blaen i Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i ariannu cynlluniau WelTAG nad ydynt wedi defnyddio'r canllaw yn gywir.

### Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i drafnidiaeth?

#### Effeithio ar gynnwys ac ymrwymiadau polisi

- **Mae'r penderfyniad** gan Lywodraeth Cymru i beidio ag adeiladu ffordd liniaru'r M4 wedi dangos newid amlwg ym mholisi'r llywodraeth gyda'r Prif Weinidog yn rhoi pwys sylweddol ar yr effaith y byddai'r cynllun yn ei gael ar yr amgylchedd. Mae Comisiwn arbenigol newydd wedi'i sefydlu sy'n ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gylch gorchwyl.
- **Trwytho dull radical** newydd ar gyfer symudedd a nodir yn y Strategaeth Drafnidiaeth newydd Llwybr Newydd - New Path.
- **Mae Cyngor Caerdydd** yn blaenoriaethu aer glân; symud o deithio mewn car preifat i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae dyluniо'r cysyniadau cychwynnol ar gyfer llwybrau uwch-briffordd pedwar beic wedi cael eu paratoi, ynghyd â chynlluniau seilwaith beiciau a'r cynllun Llogi Beicio Ar y Stryd (Nextbike) sydd wedi dod y mwyaf llwyddiannus yn y DU.

#### Sichrau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau

- Mae **Llywodraeth Cymru** wedi gwrthod cyllid ar gyfer cynllun ffyrdd Pendoylan ym Mro Morgannwg sy'n cysylltu J34 o'r M4 â'r A48.


#### Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol mewn eraill

- **Mae Dinas a Sir Abertawe** wedi prynu 40 o gerbydau trydan ac wedi ennill gwobr am y nifer fwyaf o faniau trydan mewn fflyd yn y sector cyhoeddus.
- **Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** gyda Stagecoach, yn ogystal â chynghorau Caerdydd a Chasnewydd yn y broses o gyflwyno bysiau trydan.
- **Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys** wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu pwyntiau gwefru EV sydd wedi'u gosod yn strategol a'u cofrestru ar 'Zap-Map' i sicrhau rhwyddineb defnydd i breswylwyr. O 17 Awst sicrhawyd pwyntiau gwefru EV mewn nifer o feysydd parcio Cyngor Sir Powys.
- **Llwybr Ebwy Fawr Blaenau Gwent** sy'n cyfuno teithio llesol, integreiddio â natur a gwerthfawrogiad o ddiwylliant, gyda gosodiadau celf unigryw'n cael eu cynllunio ar draws y llwybr.
- **Ehangu Siarteri Teithio Iach** - lansiwyd hyd at bum bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ynghyd â Siarteri Teithio Iach busnes yn 2020.

## Cynllunio defnydd tir a chreu lleoedd


Mae fy ngweledigaeth ac argymhellion ar gyfer sut y dylem gynllunio, dylunio ac adeiladu ein cymunedau a'n seilwaith ar gyfer y dyfodol wedi'i nodi yma.

Gan adeiladu ar fy nghyngor ar Bolisi Cynllunio Cymru 10 a'r Llawlyfr Datblygu Lleol, eleni heriais Lywodraeth Cymru ar ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, a anfonwyd i'r Senedd Cymru gael craffu arno yn ystod Haf 2020.










Mae'r Fframwaith yn ddogfen allweddol sy'n gweithio ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a fydd yn gyrru'r cyfeiriad a'r modd y bydd cyfraith gynllunio yn cael ei chymhwyso yn y blynyddoedd i ddod ac felly mae'n hanfodol ei fod wedi'i gynllunio i yrru cynnydd tuag at y nodau llesiant a'i fod yn atgyfnerthu'r polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 10.

Er bod gennyf rai pryderon o hyd ynghylch gweithredoedd ac ymrwymiadau cadarn ynghylch bioamrywiaeth a natur, y ffocws ar ynni gwynt ar y tir a'r angen i annog gweithio o bell lle bo hynny'n bosibl, mae yna newid sylweddol rhwng y drafft y gwnes i sylwadau arno yn 2019 a'r Cynllun terfynol.

**Er enghraifft, mae'n:**

- **Rhoi pwyslais cryfach ar gysylltedd digidol.**
- **Hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur.**
- **Canolbwyntio'n gryfach ar fioamrywiaeth** a natur (a oedd yn brin o'r blaen) ac yn symud i ffwrdd o flaenoriaethu meysydd awyr gan ffafrio polisïau sy'n cyd-fynd â'r datganiad yn cydnabod yr angen am weithredu brys ar yr hinsawdd a datgarboneiddio.

- **Darparu mwy o eglurder** ynghylch Cynlluniau Datblygu Strategol ac ystyriaethau perthnasol cyn eu mabwysiadu.
- **Brin** o'r pwyslais blaenorol ar dwf meysydd awyr.



## Yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus:

- **Wrthod datblygiadau** nad ydynt wedi'u halinio'n llawn â Pholisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac nad ydynt yn gwella nac yn cynnal bioamrywiaeth.
- **Cymryd pob cam i integreiddio gwaith** rhwng asiantaethau sy'n effeithio ar greu lleoedd a'r amgylchedd adeiledig, a chydamseru ac alinio pob cynllun seilwaith.
- **Newid agweddau** i ffwrdd o ymgynghori tuag at ymgyfrannu, a gwneud pob ymdrech i ennyn ymgyfraniad pobl wrth ddylunio cynllun.
- **Cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr** wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol.
- **Ei gwneud yn ofynnol i seilwaith gwyrdd** gael ei ddarparu fel rhan o bob datblygiad newydd a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel gwella ysgolion, cyfleusterau cymunedol, iechyd ac ati.
- **Creu cymdogaethau 20-munud** i sicrhau bod pobl yn gallu cyrchu gwasanaethau allweddol yn agosach i'w cartref; creu cymunedau iachach, gwyrddach a hapusach.

Er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid a'r rhwydweithiau proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud â chynllunio yn ymwybodol o'r syniadau a'r argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn medru manteisio arnynt, rwyf wedi gweithio gyda'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Cymorth Cynllunio Cymru, Un Llais Cymru, y Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu a lledaenu adnoddau cryno, wedi eu targedu.

Mae fy swyddfa wedi cyfarfod â Rhwydwaith Cymru Cynllunwyr Ifanc mewn perthynas â'r cynnyrch hwn - rhwydwaith o gynllunwyr ifanc a oedd yn awyddus i weithio gyda ni a dysgu mwy am weithredu'r Ddeddf.


## Creu Lleoedd

Mae creu lleoedd yn ganolog i wireddu llawer o'r nodau. Rwyf felly wedi bod yn eiriol dros fabwysiadu 'ymagwedd creu lleoedd', sy'n gweld gwahanol elfennau cymuned mewn dull holistig ac sy'n manteisio ar asedau rhanbarth, gyda'r bwriad o greu lleoedd cyhoeddus sy'n hybu iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl.

Mae creu lleoedd yn thema sy'n sail i fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac sy'n rhedeg trwy fy nghyngor ar drafnidiaeth, sgiliau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thai.

Hoffwn weld cyrff cyhoeddus yn mabwysiadu ymagwedd creu lleoedd ar gyfer pob penderfyniad polisi cymunedol ac ariannu. Yn yr un modd, ymunais â grŵp traws-sector i helpu i ddylunio Siarter Creu Lleoedd sy'n anelu at ddarparu dealltwriaeth gyffredinol o'r ystod o ystyriaethau sy'n ymwneud â chreu lleoedd. Mae'r Siarter yn adeiladu ar y ffaith fod effaith rymus y ffocws hwn ar greu lleoedd yn dylanwadu ar bolisi ac arfer yng Nghymru a'i nod yw darparu dealltwriaeth gyffredinol o'r ystod o ystyriaethau sy'n gysylltiedig â chreu lleoedd.

Mae'r canllawiau a lansiwyd gyda'r siarter yn cynnwys camau ymarferol i'r rhai sy'n ymgyfrannu mewn cynllunio. Mae dros 80 o sefydliadau eisoes wedi ymuno â'r siarter.



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

### Siarter Creu Lleoedd Cymru

Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi'i datblygu ar y cyd â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, sy'n cynnwys rhanddeiliaid o wahanol feysydd. Mae'r Siarter yn adlewyrchu ymrwymiad y sefydliadau hyn, ar y cyd ac yn unigol, i gefnogi datblygiad lleoedd o'r radd flaenaf ar draws Cymru, a hynny er lles cymunedau.

**Wrth lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru rydw i/mae fy sefydliad yn cytuno i gefnogi creu lleoedd ymhob maes perthnasol o'm gwaith/o'n gwaith a hyrwyddo'r egwyddorion canlynol wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a phresennol:**

**Pobl a'r gymuned**
Caiff anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pobl eu hystyried o'r dechrau'n deg. Caiff cynigion eu lluno er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion hyn a hefyd greu, integreiddio, diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymdeithas a hyrwyddo cydraddoldeb.

**Lleoliad**
Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir mewn modd effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd â chysylltiadau da. Caiff lleoliad tai, swyddi a hamdden a chyfleusterau eraill ei gynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen i deithio.

**Symud**
Caiff cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus eu blaenoriaethu er mwyn cynnig dewis o ddulliau teithio ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach a chaiff gorsafoedd trafnidiaeth gyhoeddus ac arosfannau eu hintegreiddio mewn modd positif.

**Cymysgedd o ddefnyddiau**
Mae gan leoedd wahanol ddibenion sy'n creu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedau, tyfu busnesau lleol a sicrhau mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a gwahanol ddefnyddiau a deiliadaethau yn helpu i gefnogi cymunedau amrywiol a thir llewyrchus i'r cyhoedd.

**Tir y cyhoedd**
Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u dylunio i fod yn gadarn ac yn rhai y mae modd eu haddasu gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draenio cynaliadwy sydd wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a gwahanol weithgareddau ar gyfer pawb.

**Hunaniaeth**
Caiff nodweddion positif ac unigryw lleoedd presennol eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff y nodweddion a'r cyfleoedd unigryw sydd ynghlwm wrth leoliad gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith a nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol eu pennu ac ymatebir iddynt.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i gynllunio defnydd tir a chreu lleoedd

### Effeithio ar gynnwys ac ymrwymiadau polisi

- **Mae Polisi Cynllunio Cymru,** y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol i gyd wedi cael eu hail-lunio o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau

- **Mae penderfyniadau arolygiaeth cynllunio** wedi defnyddio'r Ddeddf (amcanion a nodau llesiant) i wrthod neu ganiatáu apeliadau.
- **Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru** wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu canllaw i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus ar ddefnyddio'r amgylchedd adeiledig i wella iechyd a llesiant. Mae'r *Canllaw Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer Cenedlaethau ein Presennol a'r Dyfodol* yn egluro sut y gall mannau gwyrdd, mynediad i fwyd iach, cyfleoedd i fod yn actif, aer glân, adeiladau a ddyluniwyd yn dda, a chyfleusterau lleol cefnogol yn gallu helpu pobl a chymunedau i ffynnu yng Nghymru.
- **Mae Shape my Brecon Beacons** yn ganllaw ymarferol a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chomisiwn Dylunio Cymru. Ei nod yw helpu pobl i chwarae rhan wrth greu'r lleoedd sy'n bwysig iddyn nhw, gan roi offer, adnoddau a syniadau i archwilio, newid a gwella trefi, pentrefi neu gymdogaethau.
- **Mae Cyngor Abertawe** yn cynnwys seilwaith gwyrdd a darpariaethau teithio llesol mewn datblygiadau tai cymdeithasol newydd ac yn ymroi i sicrhau bod prosiectau adfywio ledled y ddinas yn cynnwys datblygiadau defnydd cymysg.

### Dylanwadu ar ymddygiad ymarferol mewn eraill

- **Mae'r Ddeddf** wrth wraidd gwaith y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ac mae Comisiwn Dylunio Cymru a chwmnïau ymgynghori fel Mott MacDonald ac Arup wedi cynllunio offer penodol i sicrhau bod eu gwaith yn cyfrannu at y Ddeddf.
- **Roedd Goodsheds** yn adeilad rheilffordd oedd yn eiddo i Gyngor Bro Morgannwg sydd wedi'i ailwampio i ddarparu ar gyfer bwytai, unedau masnachol a swyddfeydd ac ati. Gwnaethpwyd hyn ar y cyd ag adnewyddu Junction House yn 24 o fflatiau rhent cymdeithasol ac 18 ar rent masnachol (Cymdeithas Tai Newydd). Nod y prosiect oedd cyflwyno model hyblyg 'byw-gwaith', gan symud i ffwrdd o ddatblygu parthau defnydd sengl traddodiadol sy'n colli manteision cydleoli. Mae'n cynnig lle perffaith i breswylwyr fyw a gweithio ynddo, neu roi cynnig ar fenter newydd.






## Newid system iechyd - Newid gwariant ar iechyd tuag at atal a chadw pobl yn iach

Oherwydd pandemig COVID-19 cadwyd llygad barcud ar y gyfran uchel o'n poblogaeth sy'n dioddef o afiechyd, gyda phobl hŷn a llai iach yn y perygl mwyaf. Mae gen i ddiddordeb mewn ffyrdd newydd o weithio sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r pandemig ac a allai baratoi'r ffordd tuag at newid tymor hwy. Rwy'n ymwybodol o'r enghreifftiau hyn:

- **Mynd i'r afael ag Arwahanrwydd Cymdeithasol ac Unigrwydd (Cymdeithas Tai Hafod):** Archwilio datrysiadau technolegol i frwydro yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith y rhai o dan 35 oed a thros 60 oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Ymhlith y datrysiadau sy'n cael eu hystyried mae technoleg siaradwr clyfar a gwella data proffilio.
- **Gofyn i un sy'n Arbenigo mewn Dementia:** Ymgynghoriad fideo (trwy Attend Anywhere) sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad ar ofal dementia yn amrywio o glinigwyr arbenigol dementia i glinigwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Cynllun peilot i gynnig sesiynau ar therapi lleferydd ac iaith. Bydd sesiynau ychwanegol yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, nyrs arbenigol dementia, hyfforddwyr dementia a chydweithwyr meddygol. Bydd clinigwyr hefyd yn darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i ofalwyr teulu.
- **Ap i ddarparu cyngor arbenigol i Feddygon Teulu:** Mae Consultant Connect yn galluogi pob meddyg teulu, parafeddyg a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall i gael cyngor arbenigol ar unwaith wrth adolygu neu drin cleifion. Mae'r gwasanaethau craidd yn cynnwys: meddygaeth anadlol; cardioleg; diabetes; gofal lliniarol a meddygaeth acíwt ar gyfer COVID-19.
- **Gwasanaeth Ymgynghori Fideo:** Yn galluogi pobl i gynnal apwyntiadau meddygol allweddol, tra'n cadw pellter cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau fel clinigau diabetes cleifion allanol.

Mae gofal eilaidd wedi gweld dros 3000 o ymgynghoriadau (7 Mehefin 2020), mae 97% o gleifion sydd wedi derbyn gofal rhithwir (ar draws pob sector iechyd - cynradd, eilaidd a chymunedol) ac 85% o glinigwyr (TEC Cymru) o'r farn fod y ffordd newydd o weithio'n rhagorol, da iawn neu dda.

Gan osod COVID o'r neilltu fodd bynnag, mae llawer o wasanaethau sy'n gofalu am iechyd pobl yn gweld dadfuddsoddi fel mewn tai, cyfleusterau cymunedol, cyflogaeth cymorth ieuenctid a chymorth sgiliau a chefnogaeth ar gyfer amgylchedd naturiol iach.





Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales



Y llynedd, un o fy mhrif feysydd gwaith oedd hyrwyddo cyfran uwch o fuddsoddiad mewn atal a phenderfynyddion iechyd ehangach. Daeth y gwaith hwn i ben gyda'r argymhelliad y dylid creu System Les Genedlaethol a gafodd ei gynnwys yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a [Maniffesto y Dyfodol](#). Mae hon yn ymagwedd sy'n cydnabod penderfynyddion ehangach iechyd ac mae'n rhoi trefniadau cyllido a rheoli ar waith gyda sefydliadau, mewn ffordd sy'n cydnabod eu rôl wahanol wrth atal afiechyd.

Cyn y pandemig, roedd tystiolaeth gymhellol nad oedd y Llywodraeth yn buddsoddi yn y cydbwysedd gorau o wasanaethau i gadw pobl yn iach ac roedd y GIG yn ei chael hi'n anodd atal salwch. Mae'r ymagwedd gyfredol tuag at ariannu yn golygu bod yn rhaid i'r GIG roi blaenoriaeth i drin y rhai sy'n sâl oherwydd bod yna alw mawr, a dyna'r ffordd y mae'r llywodraeth yn rheoli perfformiad. Mae'r dywediad "mae'r hyn sy'n cael ei fesur, yn cael ei wneud" yn arwyddocaol oherwydd bod cyrff iechyd yn ei chael hi'n anodd gweithredu'r Ddeddf o dan y pwysau hyn.

O ran lle'r ydyn ni nawr, nid yw'r darlun hwn wedi newid ac mae'n debyg ei fod wedi gwaethygu oherwydd ffocws dealladwy'r llywodraeth a'r GIG ar reoli argyfwng y pandemig.

Fe wnes i ystyried defnyddio fy mhwerau Adolygu Adran 20 i dalu sylw i ba raddau y mae'r system gyfredol o reoli perfformiad, Cynlluniau Tymor Canolig Integredig neu'r Gronfa Drawsnewid wedi galluogi ac annog cyrff iechyd i ymgorffori gofynion y Ddeddf.

**Y camau a gymerais i gwmpasu'r Adolygiad oedd:**

- **Ffurfiais grŵp llywio** i arwain fy ngwaith ar iechyd a lles a darparu cyngor ar ddefnyddio fy mhwerau Adolygu. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltiad gweithredol y Sefydliad Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cydffederasiwn y GIG a nifer o sefydliadau allweddol eraill.
- **Datblygais y cysyniad o 'System Les Genedlaethol'** fel model amgen ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar benderfynyddion ehangach iechyd a buddsoddiad mewn atal.
- **Chwaraeais ran weithredol yn y grŵp 'Adeiladu Cymru Iachach'** Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan eu hannog i alluogi newid trawsnffurfiol tuag at atal.

Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth gadarnhaol i'r syniadau hyn gan lywodraeth leol, rhai rhannau o fyrddau iechyd (Cyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd) yn ogystal â sefydliadau eraill. Fodd bynnag, rwyf wedi gohirio'r gwaith hwn gan fod cyrff y GIG, yn ddealladwy, wedi bod yn blaenoriaeth i'w hymateb i'r pandemig.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

*"Dyma'r adborth o ddigwyddiad Meddygon Cymru'r Genhedlaeth Nesaf. Fel y gwelwch, cawsoch effaith enfawr ar y rhai yn yr ystafell trwy adrodd eich stori ac rydyn ni'n gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn rhoi o'ch amser ar gyfer hyn. Mae'n anhygoel darllen pa berlau y mae pobl wedi'u cymryd yn dilyn un noson yn unig ac rydyn ni'n sicr y byddwch chi'n gadael argraff barhaol a chadarnhaol iawn ar yr holl fynychwyr."*

*"Wrth gywed y fath bositifrwydd ynglŷn â dylanwadu ar newid - byddwch yn adeiladaol aflonyddgar! Rwy'n teimlo wedi fy ysbrydoli ac yn llawn syniadau ac rwy'n awyddus i gysylltu ag eraill i wneud newid."*

*Roedd yn hyfryd clywed am newid ac arweinyddiaeth o safbwynt anfeddygol."*

*Hyfryd cwrdd ag unigolyn mor ysbrydoledig, a hynod ddiddorol clywed amdani."*

**Meddyg Cymru'r Genhedlaeth Nesaf**

*"Yn sicr mae eich ymyrraeth wedi cyflymu ein cyfathrebu gyda'r Bwrdd Iechyd. Gobeithio ei fod yn argoeli'n dda at y dyfodol. Diolch eto."*

**Parc Llesiant Bronllys**

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i iechyd:

### Annog ymrwymiadau disgyrsiol gan weinidogion, y Llywodraeth ac eraill

- **Llywodraeth Cymru** yn creu Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Iaith Gymraeg yn ystod y pandemig. Mae rôl y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi parhau yn y Cabinet newydd.

### Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas pethau

- **Mae Llywodraeth Cymru** yn archwilio sut y gallai presgreibio cymdeithasol gynorthwyo adferiad Cymru'n dilyn y pandemig COVID. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Presgreibio Cymdeithasol Gweinidogol wedi'i sefydlu sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Meddygol a Gweinidogion Cymru sy'n edrych ar fudd-daliadau, rhwystrau ac ymagwedd Cymru gyfan. Mae presgreibio cymdeithasol yn annog ffocws ar lesiant, atal, integreiddio a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn lleoliadau cymunedol. Mae yna ystod eang o gynlluniau presgreibio cymdeithasol ledled Cymru, llawer ohonynt yn gydweithrediad rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.
- **Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent** yn cyflwyno rhaglen i drawsffurfio cefnogaeth i iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Nod Rhwydweithiau Llesiant Integredig yw datblygu ymagwedd tuag at lesiant wedi ei seilio yn y gymuned, gan ddod ag ystod o asedau llesiant ynghyd mewn cymunedau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant cadarnhaol.
- **Ym Mhowys,** mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu ymagwedd newydd tuag at hyrwyddo llesiant. Maent yn disgrifio hyn fel "cyfle unwaith mewn oes i greu campws llesiant aml-asiantaeth sy'n pontio cenedlaethau a fyddai'n cynnwys addysg gynradd, iechyd, gofal cymdeithasol a llety â chymorth".
- **Sefydlodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel** Dda Ganolfan Gofal Integredig Aberaeron sy'n dod â gofal iechyd a chymdeithasol cydgysylltiedig i gymunedau lleol am y tro cyntaf. Bydd y Ganolfan yn darparu popeth o apwyntiadau meddygon teulu a gwasanaethau clinigol (a ddarparwyd yn flaenorol yn ysbyty Aberaeron) i dimau nyrsio a gofal cymdeithasol ardal, sefydliadau'r sector gwirfoddol a thîm amlddisgyblaethol Porth Gofal.
- **Rwy'n croesawu'r trafodaethau** sy'n digwydd ym Myrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chwm Taf ar sut y gallant symud i ffwrdd o fodel meddygol i fodel sy'n seiliedig ar fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.

### Dylanwadu ar ymddygiad ymarferol mewn eraill

- Mae'r **Bwrdd Iechyd lleol yn contractio Cydweithfa Gofal Cymunedol yn Wrecsam** i redeg tair meddygfa. Mae wedi recriwtio tîm llesiant emosiynol i ddarparu cefnogaeth llesiant i gleifion ac mae wedi gweld gostyngiad o 57% mewn atgyfeiriadau i sefydliadau iechyd meddwl eraill.





Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pwrpas 2

# Cefnogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i gefnogi eraill i weithredu'r Ddeddf ac i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rwyf wedi defnyddio fy mhwerau i:

1. Ymateb i geisiadau am gefnogaeth gan gyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sectorau eraill.
2. Rhoi cyngor a her fanwl i gyrff cyhoeddus trwy Adolygiad Adran 20 i arferion caffael.
3. Gweithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ein priod ddyletswyddau statudol.
4. Rhoi tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd Cymru gan gynnwys ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r rhwystrau i weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



## Cefnogaeth i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus


### Cyngor ymatebol

Yn ogystal â darparu cyngor manwl yn rhagweithiol i gyrff cyhoeddus ar fy meysydd ffocws (ar faterion fel trafnidiaeth, sgiliau a chynllunio defnydd tir er enghraifft - gweler Pwrpas 1), rwyf hefyd yn ymateb i geisiadau am help. Mae'r rhain yn amrywio'n fawr o ran cwmpas ond yn golygu y gallaf roi cymorth i bobl ble a phryd y mae ei angen arnynt.

Dechreuais recordio ceisiadau am gyngor a chymorth yn 2018 a dros y tair blynedd diwethaf, rwyf wedi derbyn cyfanswm o 642 o geisiadau gan ystod eang o sefydliadau. Mae hwn yn ffigur sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Yn ogystal â chyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, bu llawer o alw am fy nghyngor gan sectorau eraill, megis sefydliadau proffesiynol, ysgolion a phrifysgolion.

**Yn 2020-21, cefais 263 o geisiadau, a daeth 91 ohonynt gan gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf. Roeddent yn ymdrin â phethau fel:**

- **Trafod** maes polisi penodol neu fynychu cyfarfodydd bwrdd.
- **Rhoi** sylwadau ac adborth ar ddogfennau, megis amcanion corfforaethol.
- **Arwain** gweithdy, gweminar neu ddarparu hyfforddiant ar eu cyfer.
- **Ymateb** i ymgynghoriad.
- **Eu helpu** gyda gwybodaeth, syniadau, adnoddau a chysylltiadau.
- **Rhoi** cyngor manwl wedi'i deilwra.



Pyramid: Lefel y ceisiadau a gwblhawyd

Er fy mod yn gallu cyflawni'r rhan fwyaf o'r rhain, oherwydd y nifer cynyddol, mae'n rhaid i mi wrthod rhai. Mae gen i feini prawf i'm helpu i ddewis pwy i gynghori o fewn fy adnoddau cyfyngedig i sicrhau fy mod yn cael yr effaith fwyaf; aros o fewn ffiniau fy mhwerau statudol; a'r dull mwyaf effeithlon o yrru'r newid yr wyf am ei weld. Fy mlaenoriaeth yw cefnogi'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a 44 corff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf ac yn benodol Llywodraeth Cymru sy'n gosod polisïau cenedlaethol sy'n effeithio ar bawb.

Rwy'n ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o gyfleu fy nghyngor sy'n cynnwys trwy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, cylchlythyrau, fersiynau Pobl Ifanc o fy Maniffesto ar gyfer y Dyfodol a fy ail Fardd Preswyl.

**Mae enghreifftiau o gefnogaeth a ddarparwyd yn 2020-21 yn cynnwys:**

- **Amgueddfa Cymru** - eu cynghori ar eu strategaeth a'u hamcanion llesiant. Fe wnaethom ddarparu cyngor ysgrifenedig, cwrdd â swyddogion i ehangu ar hyn, a dilyn hyn gydag e-bost manwl ar ble y gellir integreiddio ymhellach rhwng y nodau a'r ffyrdd o weithio o fewn y strategaeth. Ar y cyfan, mae'r strategaeth yn dda iawn ac yn dangos ystyriaeth naturiol iawn o'r Ddeddf, gan ddefnyddio'r pum dull o weithio ac awgrymiadau yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol o'r cychwyn cyntaf. Datblygwyd dwy astudiaeth achos o amgylch y gwaith rhagorol y mae Amgueddfa Cymru yn ei wneud i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau llesiant ac ehangu eu hymgysylltiad â phobl ifanc.
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** - eu cefnogi i ddatblygu eu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig o amgylch y cysyniad o gymdogaeth 20-munud. Cyfarfu fy nhîm â nhw i awgrymu cysylltiadau â'r Ddeddf, pobl y gellid cysylltu â nhw, ac integreiddio â dimensiwn diwylliannol llesiant. Datblygwyd astudiaeth achos o amgylch yr enghraifft hon, yr ydym ni hefyd wedi bod yn ei hyrwyddo.
- **Cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru** y 'Gweithdy Tri Gorwel', ynghyd â Bill Sharpe "w helpu nhw i ddatblygu meddwl mwy hirdymor ac ystyried beth ddylai eu nodau a'u gweithredoedd yn y dyfodol fod.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** - ym mis Chwefror 2021, rhoddais gyflwyniad i Fwrdd Gweithredol Bwrdd Prifysgol Iechyd Hywel Dda. Yn 2019, roeddwn wedi eu cynghori i ehangu eu hamcanion llesiant y tu hwnt i iechyd. Bellach mae ganddyn nhw amcanion sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol ac argyfwng hinsawdd ac maen nhw'n cynllunio i'w hysbyty newydd fod yn garbon-negyddol. Trafodais fy ngwaith ar sgiliau ar gyfer y dyfodol a heriais y Bwrdd ar sut y gallai'r ysbyty a'r gwasanaethau newydd uwchsgilio pobl leol a chreu swyddi; a sut y gellid defnyddio eu hystadau ar gyfer hybiau gweithio o bell neu at wahanol ddibenion. Roedd eu Cyfarwyddwr Ystadau yn cytuno ac yn siarad am sut mae'n rhaid iddynt fachu ar y cyfle hwn i weithio'n well gydag ysgolion, colegau, prifysgolion a hyfforddwyr i fanteisio'n lleol ar y cyfle hwn a dod â buddion lluosog. Roeddwn i'n gallu gweld bod y Bwrdd wedi eu cyffroi gan y posibilrwydd o gael sawl buddugoliaeth.

**Llywodraeth Cymru:**

- Fe wnes i sicrhau bod **Cyd-bwyllgorau Corfforaethol** yn ddarostyngedig i'r Ddeddf a bod eu dyletswydd yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n symleiddio tirwedd y bartneriaeth yn hytrach na'i chymhlethu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys sawl cyfarfod, llythyrau at y Gweinidog, adborth a sylwadau ynghylch cyllido ac mae'n parhau.

- Hefyd, adolygais eu **Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi** cyn ei chyhoeddi ac anfon sylwadau ac awgrymiadau manwl yn ôl at Lywodraeth Cymru ar y ffordd orau iddynt sicrhau bod y Ddeddf wedi'i hymgorffori. Mae'r strategaeth gyhoeddedig sy'n deillio o hyn yn gosod yr 'economi llesiant' yng nghanol eu hymagwedd; yn defnyddio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i fesur cynnydd; yn dangos integreiddio â rhannau eraill o'r Llywodraeth fel y Cynllun Cyflawni Carbon Isel a'r Tasglu Adferiad Gwyrdd; ac yn blaenoriaethu adferiad 'gwyrdd a chyfiawn', yr oeddwn wedi bod yn galw amdano.

- Gofynasant am adborth ar eu hail **Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Cyflenwi Carbon Isel.** Anfonais sylwadau ac awgrymiadau manwl ar y strategaeth a'u defnydd o'r Ddeddf. Un peth i'w nodi yw nad yw asesiad llesiant yn statudol a dewisodd Llywodraeth Cymru wneud hyn, sy'n beth da.

- Fe wnaethant gysylltu â **llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit** yn dilyn fy ymateb i'w hymgynghoriad y llynedd. Cyfarfu fy nhîm â nhw, gwneud awgrymiadau a rhoi sylwadau ar eu llawlyfr drafft.

**Yn ogystal, rwyf hefyd wedi:**

- Cynnal, yn bersonol, gannoedd o sesiynau ymgysylltu a chyfarfodydd lle rhoddais gyngor uniongyrchol i arweinwyr a staff rheng flaen ac unigolion o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Rwyf wedi meithrin dealltwriaeth o'r Ddeddf trwy lawer o ddigwyddiadau, sesiynau hyfforddi, gweithdai, cynadleddau a sesiynau byrddau ffocws.














- **Parhau i hyrwyddo** fy Nheithiau Y Gallu i Greu - y camau y dylai cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill fod yn eu cymryd ar eu taith i gyflawni'r nodau llesiant.

- **Cyhoeddi Pecyn Cymorth Tri Gorwel** - a ddatblygwyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu cyrff cyhoeddus i osgoi gwneud penderfyniadau nad ydynt yn sefyll prawf amser. Mae'n seiliedig ar fodel a ddatblygwyd gan Bill Sharpe a'r Fforwm Dyfodol Rhyngwladol ac mae ar gyfer unrhyw un sydd angen ystyried y dyfodol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i feddwl sut a pham nad yw'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yn addas at y diben; tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a allai lunio'r dyfodol; sut y dylai dyfodol delfrydol edrych a'r mathau o gamau sydd eu hangen i ddod yn agosach at y dyfodol hwnnw.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales



- **Cyhoeddi cynhyrchion** 'cryno wedi eu targedu'. Crynodeb o'r syniadau a'r argymhellion a gynhwysir yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n berthnasol i wahanol sectorau a phroffesiynau o fewn cyrff cyhoeddus. Nid yw'r cynnwys yn newydd - mae wedi'i dynnu o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ond fe'i cyflwynir mewn fformat wedi'i dargedu, y gobeithiaf y bydd yn haws ei gyrchu.
- **Cyhoeddi astudiaethau** achos o'r hyn sy'n newid o ganlyniad i'r Ddeddf i ysbrydoli ac annog ymarfer da mwy eang.
- **Cyfrannu at gyfarfodydd** chwarterol Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru - rhwydwaith proffesiynol o lunwyr polisi ac ymarferwyr sy'n gwneud datblygu cynaliadwy'n rhan hanfodol o'r 44 corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf.
- **Cyfrannu at gyfarfodydd** chwarterol Rhwydwaith Cydlynwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- **Cefnogi cais llwyddiannus** Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru am gefnogaeth ariannol oddi wrth Loteri Genedlaethol i wella cyfranogiad dinasyddion a chyd-gynhyrchu rownd nesaf asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, cynlluniau llesiant, amcanion a chamau. Mae'r cais yn tynnu'n helaeth ar fy adroddiadau ac argymhellion dros y blynyddoedd gan gynnwys yr angen i ennyn ymgyfraniad pobl yn y broses benderfynu.



Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

## Adborth:

*"Diolch yn fawr am eich ateb prydlon a chynhwysfawr. Af trwy'r nifer o ddolenni a awgrymir ac yna, yn ddiau, byddaf am siarad â chi eto."*

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**

*"Diolch i chi a'ch cydweithwyr am gymryd yr amser i ddarparu arweiniad mor fanwl yn yr amser prysur hwn. Rwy'n ei werthfawrogi'n fawr!"*

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.**

*"Diolch am ein cyfarfod a'ch e-bost isod. Roedd yn ddefnyddiol iawn i mi, a byddwn ni wrth gwrs yn eich cadw chi yn y ddolen."*

**Llywodraeth Cymru yn dilyn cyngor ar adnewyddu'r Contract Economaidd.**

*"Wedi gwirioni ar eich cyflwyniad diolch i Sophie a'ch compendiwm cyfoethog o enghreifftiau gwych ac efallai rhai nad oeddent mor wych – roedd yn dda iawn i fedru dysgu oddi wrthynt, diolch i chi am eich amser."*

**Aelod o Fwrdd Gweithredol Bwrdd Iechyd Hywel Dda.**

Yn 2021 a thu hwnt, fy mwriad yw rhoi mwy o ffocws ar weithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus i'w helpu i ddefnyddio'r adnoddau hyn, gan weithio i ysbrydoli, cynghori ac annog cyrff cyhoeddus i gael Cymru yn agosach ac yn agosach at gyflawni'r nodau.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i gyrff cyhoeddus

- **Fframio'r ddadl a chael materion ar yr agenda** trwy nifer o gyflwyniadau a chyfraniadau mewn digwyddiadau a gweithdai ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.
- **Annog ymrwymiadau disgyrsiol gan weinidogion, y llywodraeth ac eraill** fel bwrdd Iechyd Hywel Dda mewn perthynas â sut y gallai eu hysbyty a'u stadau newydd sicrhau buddion ehangach nag iechyd yn unig.
- **Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o gwmpas eu gwaith** gan gynnwys o ganlyniad i hyfforddiant ar y Tri Gorwel a helpu i wneud yr argymhellion o fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan hanfodol o bolisïau ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus.
- **Effeithio ar gynnwys ac ymrwymiadau polisi** gan gynnwys y Genhadaeth i Gryfhau a Ailadeiladu'r Economi a Chynllun Cyflenwi Carbon Isel y llywodraeth.
- **Dylanwadu ar ymddygiad** ymarferol mewn eraill trwy gyhoeddi a hyrwyddo adnoddau ac astudiaethau achos.

## Cyngor a her fanwl - Adolygiad Caffael Adran 20

Mae caffael yn un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yng Nghanllawiau Statudol y Ddeddf a dylai fod yn faes ffocws allweddol i gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, gan gynnwys gosod, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Ond mae penderfyniadau gan gyrff cyhoeddus ar sut y mae arian yn cael ei wario (ar brosiectau adeiladu newydd, nwyddau a gwasanaethau) yn colli cyfleoedd yn systematig i gyflawni'r nodau llesiant. Mae hyn yn amrywio o sicrhau swyddi, sgiliau a chyfleoedd hyfforddi lleol, i leihau allyriadau carbon a bod yn gyfrifol yn fyd-eang.








Yn 2019, cynhaliais ymchwil i ddarganfod mwy gan gyrff cyhoeddus am eu prosesau caffael. Codwyd nifer o faterion ac o ganlyniad, ym mis Mawrth 2020, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd, Archwilio Cymru ac eraill, sbardunais Adolygiad Adran 20 i archwilio arferion caffael naw corff cyhoeddus yn ffurfiol. Fy nod oedd deall:

- **Sut mae ymdrechion** i ymgorffori'r Ddeddf mewn penderfyniadau caffael yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni (neu gymryd camau i gyflawni) eu hamcanion llesiant.
- **Sut mae cyrff** cyhoeddus yn talu sylw i ffyrdd statudol o weithio, yn enwedig o ystyried effaith hirdymor, yn eu hymagwedd tuag at gaffael.


### Beth yw Adolygiad Adran 20

Mae adran 20 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer imi gynnal Adolygiad o'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy'r ddyletswydd llesiant a thrwy ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Adolygiad Adran 20 yw'r defnydd cryfaf o'm pwerau o dan y ddeddfwriaeth.

Y naw corff cyhoeddus yr ymchwiliwyd iddynt o dan yr adolygiad oedd:

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
- **Cyngor Sir Ddinbych**
- **Cyngor Sir y Fflint**
- **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
- **Ymddiriedolaeth GIG Felindre (fel gwesteion Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru)**
- **Cyngor Sir Wrecsam**
- **Cyngor Ynys Môn**
- **Llywodraeth Cymru, yr adolygwyd ei rôl fel arweinydd.**

Oherwydd pwysau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus sy'n delio ag effaith argyfwng COVID-19, gohiriwyd yr Adolygiad ym mis Mawrth 2020, ailddechreuwyd ym mis Hydref a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2021.




**Canfyddiadau fy Adolygiad 'Caffael Llesiant yng Nghymru' yw:**

- **Mae Llywodraeth Cymru** wedi methu â dangos arweinyddiaeth gydgysylltiedig glir ar rôl caffael yn y dasg o gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru (ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus).
- **Mae cyfathrebu ac integreiddio** rhwng gwahanol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn wael, ochr yn ochr â diffyg cefnogaeth i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar lawr gwlad.
- **Mae cyfleoedd i wneud gwariant** i weithio'n galetach yn cael eu colli oherwydd diffyg cefnogaeth i'r proffesiwn caffael, a diffyg atebolrwydd ar lefel arweinyddiaeth.
- **Nid oes unrhyw fonitro parhaus o ymagweddau tuag at gaffael,** na chanlyniadau caffael, a fyddai'n ddefnyddiol at ddiben sylwi ble mae pethau'n mynd o chwith - ac mae cyfleoedd yn cael eu colli - nac at ddiben nodi a rhannu arfer gorau.

Gallem fod yn gwneud cymaint mwy i wario arian cyhoeddus mewn dull sy'n creu cymunedau iachach, llewyrchus a chysylltiedig yng Nghymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Parthed y rhan fwyaf o'r £ 6 biliwn a wariwyd, yn syml iawn, nid oes gennym unrhyw syniad o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni neu sy'n cael eu colli, er enghraifft cyfleoedd i gefnogi cwmnïau lleol, lleihau anghydraddoldeb, annog economi cylchol a gwarchod bioamrywiaeth. Mae angen ad-drefnu ar frys y ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario yng Nghymru.

> *"Mae'r adroddiad yn gadarnhaol iawn gyda llawer o astudiaethau achos da."*

> *"Roeddwn yn croesawu'n fawr y pwyslais ar weithio traws-sector."*

> *"Byddai unrhyw gefnogaeth o ran gweithrediad ymarferol y polisi yn ddefnyddiol gan mai dyma lle gall fod yn heriol, h.y. symud o'r damcaniaethol i'r gweithredol."*

> *"Bydd gwerth cymdeithasol a lleihau carbon yn gyrru popeth a wnawn o hyn ymlaen."*

> *"Roeddwn i'n meddwl ei fod yn graff a'r argymhellion yn taro'r hoelen ar ei phen."*







**Ochr yn ochr â'r Adolygiad, mae cefnogaeth arall yr wyf wedi'i darparu i gyrff cyhoeddus ar gaffael yn cynnwys:**

- **Cyfrannu at grŵp llywio** caffael Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru.
- **Cynghori WRAP** ar y gefnogaeth a ddarperir i gyrff cyhoeddus ar effeithlonrwydd adnoddau a'i ganllawiau newydd.
- **Ymuno â'r tasglu** dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a ddatblygodd set o fesuriadau y cytunwyd arnynt i'w cynnwys mewn contractau caffael sy'n ymgorffori'r pecyn cymorth Buddion Cymunedol presennol. Gelwir y rhain yn Themâu, Canlyniadau, a Mesurau (TOMs). O ganlyniad i gyfraniad fy nhîm, maen nhw'n defnyddio'r nodau llesiant fel y saith prif thema, a phynciau ein Taith y Gallu i Greu fel y canlyniadau. Rydyn ni wedi datblygu astudiaeth achos o amgylch yr enghraifft hon.
- **Cyfrannu at Fwrdd** a Rhwydwaith Cynghori Gweinidogol ar yr Economi Sylfaenol.
- **Cynghori ar y Mesur Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus** - mae hyn yn bwysig oherwydd bydd canllawiau statudol yn ystyried y Datganiad Polisi Caffael a chynlluniau gweithredu cysylltiedig, gan roi dyletswydd ar awdurdodau contractio i gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol trwy gaffael.
- **Rhoi cyngor manwl ar Ddatganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS)**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 i rannu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod fy Adolygiad. Mae'r WPPS wedi'i alinio â'r argymhellion a amlinellir yn ein hadroddiad 'Caffael Llesiant yng Nghymru', a bydd angen alinio cynllun gweithredu WPPS (pan fydd wedi'i gyhoeddi) â mentrau a meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth i gyrff cyhoeddus ar weithredu.

**Dywedodd Rebecca Evans AS Cymru:**

> *"Bydd Datganiad Polisi Caffael Cymru yn helpu i ddiffinio ein cynnydd yn erbyn y nodau llesiant yr ydym ni'n eu dilyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gan roi Deddf Llesiant Cenhedlaeth'r Dyfodol wrth galon yr holl benderfyniadau caffael. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn atal problemau ac yn meddwl am yr hirdymor, tra'n macsimeiddio cyfleoedd i ddarparu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol."*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Beth Nesaf

Mae gan y naw sefydliad ddyletswydd statudol (Adran 22 (4)) i gyhoeddi eu hymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd yn ein Hadroddiad cyn pen tri mis o'i gyhoeddi (Mai 2021). Byddwn mewn sefyllfa i ddangos canlyniad yr Adolygiad yn ein Hadroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Mae llawer o'r argymhellion â'r un perthnasedd i bob corff cyhoeddus a ddylai eu hystyried fel cyngor, a byddwn yn dilyn cynnydd fel rhan o ddyletswydd y Comisiynydd i ddarparu cyngor a chymorth ac i fonitro ac asesu sut mae cyrff cyhoeddus yn gwneud cynnydd tuag at eu hamcanion llesiant.

Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn o fewn cyrff cyhoeddus ac yn cynghori ar ddatblygiad pellach y Mesur Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, fel bod y system gyfan yn unedig a bod y pwrs cyhoeddus yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i bobl Cymru.


Rebecca Richards
@reblrichards

Huge thanks to @lizlucasccbc and @EurgainHPowell for setting out the role of procurement in @futuregencymru and the transforming effect that can take place when procurement are involved early and take a customer (patient) led approach to outcomes.
#publicmoneysustainablecountry

### Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i gaffael:

- **Fframio'r ddadl** a chael materion ar yr agenda am rôl bwerus caffael i ddarparu llesiant i arweinwyr cyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- **Annog ymrwymiadau disgyrsiol** gan weinidogion, y llywodraeth ac eraill ar faterion fel y Mesur Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael.
- **Sicrhau newid gweithdrefnol** yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau fel y fframwaith TOMS. Mae TOMS yn sefyll am Themâu, Canlyniadau, Mesurau ac mae'n ddull o gysoni safon adrodd a mesur gwerth cymdeithasol. Datblygwyd y fframwaith gan Borth Gwerth Cymdeithasol ac o ganlyniad i mi gymryd rhan, fe'i cynlluniwyd yn benodol i adlewyrchu blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i helpu sefydliadau i fesur a macsimeiddio'r gwerth cymdeithasol y maent yn ei greu. Mae'n alinio polisïau caffael â'r saith nod llesiant sy'n golygu bod y nwyddau a'r gwasanaethau a archebir gan gyrff cyhoeddus yn fwy tebygol o arwain at fuddion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i'r gymuned. Mae mwy o wybodaeth yma.
- **Effeithio ar gynnwys** ac ymrwymiadau polisi gan gynnwys yn Natganiad Polisi Caffael Cymru sy'n gam i'r cyfeiriad cywir i ymgorffori'r Ddeddf yn y ffordd yr ydym ni'n prynu nwyddau a gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi £ 4.5m mewn Cronfa Her Economi Sylfaenol newydd yn 2020. Mae'n cefnogi prosiectau sy'n profi ffyrdd newydd o wneud i'r economi bob dydd weithio'n well ym mhob cymuned yng Nghymru ac fe'i defnyddiwyd i yrru'r broses o gaffael PPE a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig oddi wrth fusnesau Cymru.
- **Dylanwadu ar newid** ymddygiad ymarferol mewn eraill - er enghraifft Ysgol Gynradd Llancarfan Bro Morgannwg, a fydd yn ysgol Carbon Sero Net gyntaf Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru a sylweddolodd ar ôl cyfrifo ôl troed carbon eu gweithgareddau bod caffael yn cyfrannu, at ei gilydd, bron i 60% a 49% - yn y drefn honno - o'u hallyriadau, sy'n fwy na'r allyriadau a grëir gan ddefnydd ynni mewn adeiladau a thrafnidiaeth.

## Cydweithio ag Archwilydd Cyffredinol Cymru

Parheais i weithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth gyflawni fy nyletswyddau. Cyfrifoldeb y Ddeddf yw sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol cyfredol, Adrian Crompton, yn archwilio sut mae'r cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r pum dull o weithio. Mae natur gyflenwol ein dyletswyddau, yn ogystal ag ethos y ddeddfwriaeth, wedi ein harwain i gydweithredu a datblygu strategaethau cyfochrog ac ategol i gyflawni ein swyddogaethau. Fel yr eglura Archwiliad Cymru:

> *"Yn gyffredinol, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol edrych ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi cynllunio a chyflawni eu gwaith, tra bod yn rhaid i'r Comisiynydd edrych ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni.*
>
> *Gall y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol helpu trwy ganolbwyntio ar y pethau iawn, gosod disgwyliadau cyson a pheidio â gwneud gofynion monitro yn ormod o faich ar gyrff cyhoeddus. Mae gan y ddau rôl hefyd yn y dasg o hyrwyddo arfer da a chefnogi gwelliant."*

Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi cynnwys a bwriad ein perthynas. Gan ein bod bellach bum mlynedd i mewn i'r Ddeddf, byddwn yn ystyried adnewyddu hyn er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben yn dilyn ymgynghoriad diweddar 'Archwilio Cymru' gyda chyrff cyhoeddus ar ddyfodol eu hymagwedd tuag at archwilio.

Mae'n hollbwysig i'r ddau ohonom nad ydyn ni'n anfon negeseuon anghyson i gyrff cyhoeddus a'n bod yn gyrru'r newidiadau cyson, dwfn a chywir tuag at y Gymru a garem. I'r perwyl hwn, cyhoeddwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru "Felly, beth sy'n wahanol"? Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol" ochr yn ochr â fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mai 2020. Mae Pennod 2 o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys argymhellion ar y newid diwylliant sydd ei angen ar y llywodraeth a chyrff cyhoeddus i roi'r Ddeddf ar waith.




- **Manteisiais ar y dystiolaeth** a gasglwyd gan Archwilio Cymru i wneud fy argymhellion wedi'u hanelu at gyrff cyhoeddus.
- **Gwnaethom gyfathrebu'n rheolaidd** ar ein canfyddiadau yn ymwneud â sut mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu a'i deall, rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a chynnydd mewn gwahanol sectorau.
- **Gwnaethom geisio** sicrhau bod ein negeseuon yn gyson ac yn ddefnyddiol wrth gynghori cyrff cyhoeddus ar sut i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gan fod y ddau adroddiad wedi eu cynhyrchu yn ystod pandemig COVID, gwnaethom nodi nad oeddem yn disgwyl ymateb gan gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nes bod yr argyfwng wedi mynd heibio.Wrth gasglu'r dystiolaeth ar gyfer yr adroddiadau hyn, gwelsom ein dau nad oes gan wasanaethau cyhoeddus ddigon o adnoddau eu hunain i gefnogi'r newid diwylliannol sy'n ofynnol gan y Ddeddf, ac mae hyn yn cyfyngu ar yr effeithiau cadarnhaol a deimlir mewn cymunedau. Y rhain oedd y canfyddiadau y gwnaethom eu bwydo mewn i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r Ddeddf ym mis Rhagfyr 2020 - Chwefror 2021.

**Mae meysydd eraill lle rydyn ni wedi gweithio gyda'n gilydd eleni yn cynnwys:**

- **Mynychodd Archwilio Cymru'r** panel cynghori mewn rôl arsylwi i drwytho fy Adolygiad Adran 20 o gaffael.
- **Cynaliasom ddigwyddiadau** ar y cyd yn seiliedig ar ein canfyddiadau a'n hargymhellion - ar gyfer Aelodau'r Senedd ac ar gyfer arweinwyr y sector cyhoeddus ym mis Hydref 2020.
- **Gwaethom gydweithio** â'r Gyfnewidfa Arfer Da i drwytho eu digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, y gwnaethom gyfrannu atynt.
- **Gwnaethom gyfrannu** at ddull 'Archwilio Cymru' o feddwl am eu hymagwedd newydd tuag at archwilio. Rhoddodd fy nhîm gyngor ar y ffordd y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad yn y cyfnod adrodd newydd hwn o 2020-25. Mae hyn yn cynnwys sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein dyletswyddau, cydlynu ein hymagwedd a gweithredu a rhannu gwybodaeth yn ymarferol.
- **Trafodwyd sut** yr wyf yn bwrw ymlaen â'm dyletswyddau monitro ac asesu statudol a'n disgwyliadau ar weithredu'r Ddeddf yn ystod 2020-25.
- **Cafodd yr Archwilydd Cyffredinol** ei fentora o chwith fel rhan o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ein bod bellach yn dechrau ar bumed flwyddyn y ddeddfwriaeth, rydyn ni'n disgwyl gweld mwy o gyrff cyhoeddus yn mabwysiadu ein cyngor a'n hargymhellion, gan symud tuag at sicrhau bod newid trawsffurfiol yn digwydd. Bydd dyfodiad COVID-19 yn profi'n heriol ond mae hefyd yn dangos pwysigrwydd cael strategaethau hirdymor a ffocws ar atal.

## Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Rhwng Hydref 2020 a Chwefror 2021, cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd Ymchwiliad i'r rhwystrau sy'n atal gweithrediad llwyddiannus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyhoeddwyd eu hadroddiad ym mis Mawrth 2021 ac chafodd ei drafod yn y Cyfarfod Llawn yn y Senedd Cymru.







Roedd hon yn garreg filltir arwyddocaol yn nhaith y Ddeddf, ac rwy'n croesawu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am y cyfle i rannu tystiolaeth yn ysgrifenedig ac yn bersonol, a oedd yn adlewyrchu canfyddiadau fy adroddiad monitro ac asesu statudol ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn fy adborth nodais y newid amlwg yn yr ymrwymiad gwleidyddol i'r Ddeddf dros y pum mlynedd diwethaf yn nhermau cyffredinol cynnydd, ac rwy'n dechrau gweld cyrff cyhoeddus yn newid y ffordd y maent yn darparu ac yn dylunio gwasanaethau. Mae'r Ddeddf yn darparu offeryn defnyddiol i wneuthurwyr newid herio'r system ac rwy'n falch o chwarae rôl yn y dasg o herio'r rhai sy'n ceisio atal newid. Y Ddeddf yw'r rhaglen newid diwylliannol fwyaf y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru erioed wedi'i phrofi ac rwy'n falch o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni ei dyheadau.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi tanamcangyfrif maint y ffocws, y gefnogaeth a'r diwygiad sydd eu hangen i gyflawni newid ym mhob haen o lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes gennyf yr adnoddau i ddelio â'r holl heriau hyn, ac mae angen mwy o arian ar gyfer capasiti, datblygu arweinyddiaeth a chefnogi newid trawsffurfiol. Bellach mae angen i'r llywodraeth sicrhau bod yr ymagwdd uchelgeisiol tuag at basio deddfwriaeth ar lawr y Senedd yn cyd-fynd â'r uchelgais i'w gweithredu ar lawr gwlad.

### Cafwyd 62 ymateb swyddogol i'r Ymchwiliad, sy'n ffynhonnell ddefnyddiol o fewnwelediad:

- **Datganodd 97%** o'r rhai a ymatebodd eu cefnogaeth i'r Ddeddf (100% o gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).
- **Roedd 58% o'r rhai** a ymatebodd o'r farn fod angen mwy o aliniad traws-bolisi a strategol gan Lywodraeth Cymru (67% o Gyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).
- **Dywedodd 75%** o'r cyrff cyhoeddus a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus a ymatebodd fod fy nhîm a minnau'n gymwynasgar ac yn gefnogol.
- **Roedd 60%** yn credu bod y fframweithiau, canllawiau, adroddiadau ac offer o fy swyddfa yn ddefnyddiol (83% o Gyrff Cyhoeddus a Byddau Gwasanaethau Cyhoeddus).

### Effaith

Yn eu Hadroddiad, adleisiodd y Pwyllgor fy mhryderon ynghylch y rhwystrau systemig i gynnydd y mae angen mynd i'r afael â nhw:

### Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gymhlethu tirwedd sydd eisoes yn gymhleth

**Casgliad pwyllgor 11** – Mae tirwedd gymhleth a biwrocrataidd cyrff partneriaeth a gormodedd o ofynion cyfreithiol ac adrodd wedi ei gwneud yn fwy anodd i gyrff cyhoeddus fabwysiadu'r Ddeddf, ac ar adegau wedi arwain at y gwrthwyneb.

### Nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael digon o flaenoriaeth nac adnoddau gan Lywodraeth Cymru

**Casgliad Pwyllgor 6** – Mae trefniadau ariannu anghyson ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd. Mae ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd oresgyn ar wahân yr un her sylfaenol yn nhermau adnoddau yn aneffeithlon; nid oes iddo unrhyw gyfiawnhad clir ac mae wedi arwain at anghysondebau nas dymunir yn yr hyn y mae Byrddau yn ei gyflawni a'r modd y maent yn gweithio.

### Mae'r cylch cyllido tymor byr yn rhwystr i feddwl yn yr hirdymor

**Casgliad Pwyllgor 5** – Mae cylchoedd ariannu byr a datganiadau ariannu hwyr wedi ei gwneud yn fwy anodd i gyrff cyhoeddus gydweithio'n effeithiol, cynllunio ar gyfer y dyfodol, a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ganddynt.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

*Mae angen integreiddio ac uno'n well*

**Canfyddiadau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

*Mae yna fwlch gweithredu*

**Canfyddiadau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

*"Dwi wir ddim yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi ei chydgysylltu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae yna ddatgysylltiad rhwng polisïau a'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, sy'n siomedig iawn. Nid yr hyn maen nhw'n ei ddweud, ond yr hyn maen nhw'n ei wneud sydd yn bwysig i ddinasyddion."*

**O ohebiaeth gyhoeddus**

**Mae fframweithiau perfformiad a rheoliadol yn gyrru cynnydd a newid yn y meysydd anghywir**

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor**
**Cyngor Sir Powys**

"[...] mae'n rhaid i ni wneud ein hadroddiad perfformiad blynyddol; mae'n rhaid i ni wneud adroddiad perfformiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; mae'n rhaid i ni wneud adroddiad blynyddol bwrdd partneriaeth ranbarthol; mae'n rhaid i gyfarwyddwr gwasanaethau cyhoeddus wneud adroddiad blynyddol ar fframwaith adrodd y cyngor; rydyn ni'n gwneud datganiad llywodraethu blynyddol ac mae yna rai eraill. Ac ym mhob un o'r adroddiadau hynny, mae yna aliniad absoliwt [...] os wnaethoch chi un asesiad y gallech alinio'r gwasanaethu cyhoeddus iddo, un cynllun cyflwyno ac un set o adrodd, byddai hynny ynddo'i hunan yn rhoi i chi aliniad o adnoddau i gyd-fynd â set o flaenoriaethau y byddai pawb yn medru ei lofnodi a'i gyflwyno."

## Beth arall a ddywedodd yr Ymchwiliad wrthym?

- Cydnabod capasiti ac adnoddau prin fy swyddfa.
- Mae adnoddau yr wyf wedi'u cyhoeddi yn ddefnyddiol ond efallai yn 'rhy aml' ac yn 'rhy uchelgeisiol' - gyda nod cyffredinol i'r holl adnoddau gael eu symleiddio. Cafodd hyn ei wrth-ddweud gan sylwadau eraill a oedd yn galw am fwy o fanylion am y 'sut'.
- Cydnabod capasiti ond cefnogaeth ysgubol i fwy o gysylltu o'r du'r Comisiynydd.
- Mae mwyafrif yr ymatebwyr nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf yn galw am fwy o atebolrwydd a mwy o bwerau i'r Comisiynydd. Roedd rhai ymatebwyr oedd yn dod o dan y Ddeddf yn cwestiynu a oedd 'gwobrwyo a chosbi' yn angenrheidiol / yn ddefnyddiol.
- Mae angen mwy o bwyslais ar y saith maes newid corfforaethol a nodir yng Nghanllawiau Craidd Statudol y Ddeddf.

Fel Comisiynydd, un o ddibenion fy swyddfa yw cefnogi cymhwysiad y Ddeddf. Mae lefel y gefnogaeth a'r cyngor y mae cyrff cyhoeddus a Gweinidogion yn gofyn amdanynt wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae fy lefel bresennol o gyllid yn annigonol i ganiatáu imi fonitro ac asesu holl amcanion llesiant cyrff cyhoeddus yn drylwyr a darparu lefel y gefnogaeth sydd ei hangen i newid diwylliant y sector cyhoeddus. Mae hwn yn achos yr wyf wedi'i wneud dro ar ôl tro i amryw o

Bwyllgorau'r Senedd ac i'r llywodraeth. Mae'n ymddangos y bydd y galw ar i gapasiti fy swyddfa gynyddu (er enghraifft, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn ddarostyngedig i'r Ddeddf cyn bo hir ac felly bydd angen eu monitro, eu hasesu ac i mi roi cyngor iddynt). Mae meysydd eraill yn cynnwys effaith bosibl fy swyddogaethau o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE a'r newidiadau dilynol i gylch gwaith Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a sefydliad Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

"Darganfuom fod y cymorth a'r adborth yr ydym wedi ei gael hyd yn hyn gan swyddfa comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol wedi bod yn ddefnyddiol iawn iawn [...] buom yn ddigon ffodus i gael un o'r swyddogion i ddod i gyflwyno sesiwn i ni ar wneud penderfyniadau hirdymor. I gydweithwyr o fewn y bwrdd iechyd roedd yr arbenigedd a'r mewnbwn hwnnw yn wirioneddol ddefnyddiol, ac roeddent yn medru gweld sut yr oedd hynny'n berthnasol i waith beunyddiol."

**Bwrdd Iechyd Caerdydd a Bro Morgannwg**

"Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyhoeddi adnoddau hygyrch iawn, gan ddefnyddio dulliau arloesol o ymgysylltu â phobl a sefydliadau, yn aml drwy ddulliau heriol traddodiadol o gyfathrebu sy'n rhoi llawer i gnoi cil arno".

**Casgliad Pwyllgor 8**

Nid yw cyllid Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi digon o gapasiti i'w swyddfa i ddarparu lefelau o gymorth ymarferol a sector-benodol i gyrff cyhoeddus y maent wedi galw amdano i weithredu'r Ddeddf.

**Dyfyniad o Adroddiad Pwyllgor:**
115. Gwireddwyd barn y Comisiynydd gan yr hyn a glywsom yn ystod digwyddiad rhanddeiliaid, y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym o ymgynghori ysgrifenedig, ac yn ystod sesiynau tystiolaeth llafar. Dro ar ôl tro dywedwyd wrthym gan gyrff cyhoeddus nad oedd gan swyddfa'r Comisiynydd yr adnoddau i fedru rhoi i gyrff cyhoeddus y lefelau o gymorth yr oeddent yn dymuno ei gael.

## Beth nesaf?

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan gyrff cyhoeddus i'r Ymchwiliad ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn amserol, ac mae'n cyd-fynd â sgyrsiau yr wyf yn eu cael gyda chynrychiolwyr ar ble i ganolbwyntio fy adnoddau dros y ddwy flynedd nesaf.

**Bydd canfyddiadau adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dylanwadu ar fy rhaglen waith ar gyfer 2021 a thu hwnt trwy:**

1. Gynyddu'r gefnogaeth a roddaf i gyrff cyhoeddus - mae llawer o wybodaeth ddeallus ddefnyddiol yn ymatebion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Byddaf yn treulio Ebrill - Medi 2021 yn ymgysylltu ymhellach i ddeall yn well pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gyrff cyhoeddus a byddaf yn datblygu ymagwedd tuag at gyflenwi sydd o fewn y dyraniad o adnoddau a roddir i mi ar hyn o bryd.
2. Archwilio'r posibilrwydd o gynnal Adolygiad Adran 20 ar y modd y mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni eu hamcanion llesiant wrth ddylunio a chyflawni eu 'Rhaglen Lywodraethu' (trwy lens y maes polisi sgiliau).
3. Parhau i ddarparu tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd i gefnogi eu gwaith craffu ar y Ddeddf a materion polisi allweddol sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth?

- **Mae Cyngor Caerdydd** yn bwriadu adeiladu fferm solar a fyddai'n cynhyrchu £ 21m o ynni gwyrdd dros gyfnod o 35 mlynedd. Mae hefyd yn edrych ar ffyrdd o wella iechyd a llesiant gweithwyr. Mae nifer o ddogfennau polisi wedi eu creu sydd, er enghraifft, yn ymwneud â, chamddefnyddio sylweddau, bwyta'n iach a gweithgaredd corfforol a chanllawiau menopos.

- **Mae Cyfoeth Naturiol Cymru** yn annog cyfnewid gweithwyr yn briodol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a gyda sefydliadau eraill. Trwy fwrdd Gwasanaethau cyhoeddus Torfaen, maent yn cyfrannu at gyd-ariannu MSc Academi Cymru ar secondiad.

- **Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ac offeryn cynllunio defnydd tir i edrych ar gyfleoedd ar gyfer cysylltedd. Maent hefyd wedi sefydlu fforwm sy'n pontio cenedlaethau, sef Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro a Fforwm 50+ Sir Benfro sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn i drafod materion fel dementia, iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o gwympo, unigrwydd ac unigedd. Mae sawl canolfan ddydd yn cynnal sesiynau rheolaidd gyda phlant ysgol lleol i gynnal sesiynau ar y cyd ar hanes, gwersi coginio a chyfnewid.

- **Mae Amgueddfa Cymru** wedi bod yn rhan o sawl cynllun sy'n canolbwyntio ar y gymuned (fel gerddi sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt yn Sain Ffagan a ddatblygwyd gan Hafal, Ymddiriedolaeth Wallich ac Innovate). Gwnaeth y Prosiect Graft yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe drawsnewid lle nad oedd yn cael ei ddefnyddio yn ardd gyhoeddus, gyda chyrsiau garddwriaethol ar gyfer gwirfoddolwyr. Yn Big Pit datblygwyd y Coity Tip Trail i ddarparu teithiau cerdded byr o amgylch hen domen wastraff o Bwll Coity, ac i gynnal bywyd gwyllt, planhigion a chynefinoedd naturiol. Creodd gwirfoddolwyr yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol ardd lliwio naturiol a chynnal gweithdai lliwio naturiol. Mae ymchwil a wnaed yn y gwyddorau naturiol yn nodi dosbarthiad rhywogaethau yng Nghymru, gwybodaeth sy'n cael ei lledaenu i'r cyhoedd mewn sawl ffordd.

- **Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** yn edrych i ddatblygu partneriaethau gydag elusennau ac mae Cyngor Sir Powys eisiau plannu dwy goeden ar gyfer pob coeden sy'n cael eu torri fel canlyniad i'w gweithgareddau. Mae ganddyn nhw hefyd gyswllt ag Ardal Iechyd Molo yn Kenya sy'n canolbwyntio ar wella iechyd mamau a'r newydd-anedig.

- **Trefnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru** sesiwn 'Cinio a Dysgu' gyda Sanctuary Speakers i gynnig cyflwyniad i realiti ceisio noddfa yng Nghymru ac maent yn cyd-ddatblygu cynnwys ar gyfer modiwl e-ddysgu ar gyfer holl staff GIG Cymru, y gobeithiant y bydd yn mynd yn 'fyw' yn ddiweddarach eleni. Maent hefyd yn cyflwyno hyfforddiant dinasyddiaeth fyd-eang i weithwyr iechyd proffesiynol Cymru mewn partneriaeth ag Oxfam Cymru.

- **Yn Sir Gaerfyrddin,** mae'r llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chartrefi preswyl a chanolfannau dydd, gan greu hwb canolog i adeiladu cymunedau gwell. Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn defnyddio ymagwedd sy'n pontio cenedlaethau yn ei rhaglenni gwaith fel y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol, gan gynorthwyo teuluoedd a phlant i goginio prydau iach. Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau wedi cynnal 'Digwyddiadau Gwrando' gyda rhieni plant anabl ynghyd ag oedolion ifanc i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt.

- **Yn Rhondda Cynon Taf,** mae preswylwyr cartrefi gofal Ferndale yn ymweld â'r ysgol ac yn rhannu gweithgareddau gyda phlant, sydd yn eu tro yn ymweld â'r cartref gofal.

- **Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,** ynghyd â Phrifysgol De Cymru, wedi dyfeisio rhaglenni academaidd ar gyfer arweinwyr yn y sefydliad o'r enw Rhaglenni Arloesi a Herio, sy'n edrych ar heriau sy'n wynebu'r sefydliad a'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.









Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Pwrpas 3
# Mudiad dros Newid

Rhan bwysig o fy strategaeth i helpu gyda gweithredu'r Ddeddf fu adeiladu mudiad ar gyfer newid sy'n cynnwys pob sector yng Nghymru a'r cyhoedd, ond hefyd sy'n cyrraedd ymhellach na Chymru.

Mae angen i newid ledled y wlad fod yn draws-sectoraidd lle mae ystod eang o sefydliadau a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd tuag at y weledigaeth yn y Ddeddf. Mae gwahanol sefydliadau ar wahanol gamau yn eu teithiau ac mae yna lawer y tu hwnt i'r sector cyhoeddus nad ydyn nhw eto wedi ystyried y rhan y gallen nhw ei chwarae a'r gwahaniaeth y gallai ei wneud, ond mae yna rai hyrwyddwyr go iawn hefyd. Rwy'n ceisio bod yn frocer gonest ac yn bwynt cyswllt rhwng gwahanol rannau o gymdeithas i helpu i weithredu'r Ddeddf ymhellach ac yn ddyfnach, gan ddod o hyd i dir a rennir gyda phartneriaid a galluogi newid trawsffurfiol.

## Maniffesto y Dyfodol

Mae fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi'r cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus tuag at gyflawni eu dyletswyddau a'm disgwyliadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn nhermau bwrw ymlaen â'i syniadau a'i argymhellion, ceisiais eu gwneud yn rhan annatod o faniffestos pleidiau gwleidyddol yn y cyfnod yn arwain at etholiadau Senedd 2021.

Ym mis Hydref 2021 (200 diwrnod cyn yr etholiad), cyhoeddais Maniffesto y Dyfodol. Roedd yn cynnwys y prif argymhellion y credaf y dylai pleidiau gwleidyddol eu mabwysiadu o fewn eu maniffestos megis:

- **Buddsoddi mewn natur** a blaenoriaethu cyllid a chefnogaeth ar gyfer adfer, creu a chysylltedd cynefinoedd a bywyd gwyllt ar raddfa fawr ledled Cymru..
- **Sefydlu System Les Genedlaethol** i wella iechyd y genedl a lleihau'r galw ar wasanaethau.
- **Nodi cynllun ar gyfer ymateb** i dueddiadau'r dyfodol * mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u dwysáu, * megis cynyddu awtomeiddio, ein poblogaeth sy'n heneiddio a'r newid yn yr hinsawdd.
- **Creu Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol** i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a brofir gan gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.
- **Sefydlu gweledigaeth genedlaethol** ar gyfer dysgu gydol oes.
- **Gwneud band eang** yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol.
- **Gosod targed cenedlaethol** ar gyfer newid moddol i alluogi pobl i fabwysiadu dulliau teithio carbon isel.
- **Cyflwyno trafnidiaeth** gyhoeddus am ddim i bobl ifanc yng Nghymru.







Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Gweledigaeth Pobl Ifanc

I nodi ei lansiad, gofynnais i bobl ifanc yng Nghymru ddweud wrthyf beth sy'n bwysig iddyn nhw wrth iddyn nhw ddehongli fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae eu syniadau'n gyffrous - a dylai pleidiau gwleidyddol da fabwysiadu ymagwedd uchelgeisiol i gyd-fynd â'u disgwyliadau.

Fel gwarcheidwad Cenedlaethau'r Dyfodol, bûm yn awyddus i gynnwys pobl ifanc yn fy ngwaith. Rwy'n credu bod eu hymglymiad yn hanfodol i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed ac i sicrhau bod lleisiau cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei gynrychioli. Rydyn ni'n cydnabod nad Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei fformat presennol yw'r un mwyaf hygyrch nac atyniadol i bobl ifanc felly rydyn ni wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau gan gynnwys Avant Cymru, Disability Arts Cymru a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru i ddatblygu dehongliad person ifanc, y negeseuon allweddol a'r hyn sydd ei angen arnynt ar gyfer Cymru eu dyfodol mewn ffordd sy'n berthnasol ac yn ddeniadol i bobl ifanc eraill, ac sy'n canolbwyntio meddyliau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Rydyn ni wedi bod yn ddiolchgar i weithio gyda sefydliadau sydd wedi gwerthfawrogi pwysigrwydd y gwaith hwn gan gynnwys Plant yng Nghymru, Cymru Amrywiol, EYST (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig), Urdd, Sipsiwn a Theithwyr Cymru, sydd wedi defnyddio eu rhwydweithiau i ddod â grŵp amrywiol ynghyd o 30 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru.

Gwnaeth ymateb ac ymroddiad y bobl ifanc a gymerodd ran argraff fawr iawn arnaf. Maen nhw wedi fy herio i a'r tîm ar y cynnwys a'r iaith rydyn ni'n ei defnyddio sydd wedi gwneud i ni ystyried y ffordd y byddwn ni'n cyfathrebu yn y dyfodol gyda'r holl gynulleidfaoedd.

Dewisodd pobl ifanc y dull y maent yn dymuno i'w lleisiau gael eu clywed, a chyfansoddi eu hymatebion trwy gân a barddoniaeth, yr ydyn ni'n falch o'u rhannu gyda chi. Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn i ddatblygu eu gwaith ymhellach a rhannu eu syniadau gyda chi dros y misoedd nesaf.

Chwarae Cân    Chwarae Cerdd

Adleisir llawer o'r argymhellion yn y Maniffesto y Dyfodol gan grwpiau eraill yn y gymdeithas ddinesig a'r sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus - y mudiad dros newid yr ydyn ni'n rhan ohono:

| Maniffesto y Dyfodol | Argymhellion | Sefydliadau |
|---|---|---|
| **Cyflwyno rhaglen 'Llwybr Carlam Bywyd Go Iawn' o fewn y Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus i gynnwys safbwyntiau a phrofiadau ehangach wrth ddatblygu polisi.** | Adolygu meini prawf ar gyfer penodiadau cyhoeddus a chynnwys gofyniad am 'brofiad bywyd' o'r mater y bydd corff cyhoeddus yn mynd i'r afael ag ef. | Cynghrair Hil Cymru |
| **Gwneud band eang yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol.** | Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ehangu mynediad i fand eang cyhoeddus. | Coleg Brenhinol Nyrsio |
| | Rhoi mesurau ar waith i roi diwedd ar allgáu digidol. | Tai Cymunedol Cymru |

| Maniffesto y Dyfodol | Argymhellion | Sefydliadau |
|---|---|---|
| **Archwilio cyfleoedd i gyflwyno wythnos waith fyrrach a threialu Incwm Sylfaenol.** | Dylai Senedd nesaf Cymru weithredu Incwm Sylfaenol Cyffredinol, ochr yn ochr â gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. | Diverse Cymru |
| | Dilyn argymhelliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a threialu incwm sylfaenol cyffredinol i sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn wynebu caledi ariannol ac i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. | Youth Cymru |
| **Sefydlu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes.** | Gwella'r seilwaith ffisegol, cymdeithasol a digidol sydd ei angen i gefnogi hawl i ddysgu gydol oes. | Prifysgol Agored |
| **Cyflwyno'r cysyniad cymdogaeth 20-munud ar gyfer pob tref a dinas yng Nghymru.** | Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod datblygiadau wedi'u lleoli o amgylch datblygu sydd eisoes yn bodoli a'u bod yn hygyrch drwy gyfrwng trafnidiaeth gyhoeddus trwy ymgorffori cymdogaethau 20-munud fel egwyddor ganolog yn y system gynllunio. | Sustrans |
| **Cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc yng Nghymru.** | Teithio am ddim ar fysiau a threnau i rai o dan 18 mlwydd oed. | Comisiynydd Plant Cymru |
| **Sicrhau fod pobl yn gallu cyrchu man gwyrdd naturiol o fewn 300 metr i'w cartref.** | Mynediad da i fannau gwyrdd a natur a ddefnyddir fel rhan o ddatrysiad iechyd corfforol a meddyliol gwael. | Plant yng Nghymru |
| **Gosod targed cenedlaethol ar gyfer newid moddol i alluogi pobl i fabwysiadu dulliau teithio carbon isel.** | Strategaeth i greu symudiad moddol i ffwrdd o ddibyniaeth ar geir fel y prif fath o deithio. | Sefydliad y Merched yng Nghymru |
| **Buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant i gefnogi'r newid tuag at ddyfodol gwell, gan greu swyddi gwyrddach.** | Ymrwymo i garbon sero-net erbyn 2030 a chwyldro swyddi gwyrdd sy'n sbarduno adferiad economaidd cynaliadwy o argyfwng COVID - 19. | UCM Cymru |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Effaith - Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith wedi gwneud gwahaniaeth:

Rwy'n croesawu ffocws cynyddol meddwl hirdymor ar draws holl faniffestos y prif bleidiau yn etholiad y Senedd eleni. Mae cynnydd o 75% yn y defnydd o'r gair 'dyfodol' ar draws eu maniffestos (o'i gymharu â 2016) yn ymrwymiad clir gan yr holl bleidiau gwleidyddol i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, i wella ansawdd cartrefi Cymru, i ddarparu sgiliau a chyfleoedd gwaith i bobl ifanc, gwella cysylltedd digidol a mynediad i natur, adfywio ein trefi a'n dinasoedd a mynd i'r afael ag iechyd meddwl. Rwyf wedi gweld ymdrechion gwirioneddol i nodi polisi sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac i gyflwyno syniadau arloesol newydd fel incwm sylfaenol a amlygwyd gan dair prif blaid wleidyddol fel datrysiad newydd posibl i'r busnes anorffenedig o fynd i'r afael â thlodi.

O ganlyniad, mae fy nhîm a'r nifer o gyrff eraill sy'n weithgar yn y meysydd hyn gyda'i gilydd wedi:

- **Fframio dadl** a chael materion ar yr agenda
- **Annog ymrwymiadau disgyrsiol** gan weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- **Effeithio ar gynnwys** ac ymrwymiadau polisi

> *"Diolch am ymateb calonogol iawn - rwy'n gobeithio bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r argymhellion yn llawn. Rwyf wrth fy modd bod yna adran i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol rhag gwleidyddion heddiw. Pob lwc gyda phopeth rydych chi'n ei wneud."*
>
> **Gohebiaeth gyhoeddus**

Y cam nesaf yw trosi'r addewidion hyn yn gamau gweithredu - wedi'u halinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hyn yn rhan o'r Rhaglen Lywodraethu newydd.

Mae'r Llywodraeth newydd wedi nodi'r hyn y bydd yn ei wneud yn ei maniffesto, ond rhaid iddi fod yn glir yn awr ynglŷn â 'sut' y bydd yn ei gyflawni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid i'r Llywodraeth ddangos:

- **Sut y bydd ei rhaglen** yn paratoi Cymru ar gyfer siociau'r dyfodol a heriau hirdymor ac yn bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol;
- **Sut y bydd materion trawsbynciol** yn cael eu deall a'u taclo'n fwy effeithiol ar draws y Llywodraeth;
- **Sut y bydd** yn macsimeiddio gwerth llesiant pob polisi a rhaglen, gan weithio y tu hwnt i gyllidebau adrannau a seilos;
- **Sut y bydd** yn adeiladu ar y gwaith da a ddechreuwyd eisoes wrth gydweithio â phartneriaid allweddol a;
- **Sut y bydd** yn dod â lleisiau newydd i'r bwrdd.

### Gweithio gydag eraill ar dir a rennir

The Manifesto for the Future is a good example. Mae'r Maniffesto ar gyfer y Dyfodol yn enghraifft dda, ond nid yr unig un lle'r wyf wedi parhau i neilltuo llawer o fy amser dros y flwyddyn ddiwethaf i adeiladu partneriaethau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, lle mae pobl yn hyrwyddo ymagwedd Cymru tuag at ddatblygu cynaliadwy a gyrru'r newidiadau sydd eu hangen.

## Cynnwys

Mae ymgyfraniad wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n un o'r pum dull statudol o weithio. Rwyf am arwain trwy esiampl ac rwyf wedi ceisio ennyn ymgysylltiad pobl yn fy ngwaith, ac rwyf wedi neilltuo adnodd sylweddol ar gyfer hyn.



Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n ymgyfrannu fod yn agored i gael eu dylanwadu gan farn pobl a rhanddeiliaid nid yn unig eu trwytho ganddynt. Mae ymagweddau ymgyfrannu'n gweithio'n fwyaf effeithiol gyda phobl pan fyddant wedi eu cynnwys yng nghamau cynharach dylunio polisi neu wneud penderfyniadau, megis trwy helpu i ganfod materion a datrysiadau posibl.

### I weithredu'r geiriau am Gymru Gydnerth, yn 2020/21 rwyf wedi:

- **Darparu** argymhellion manwl ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth i gyrff cyhoeddus fel rhan o fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a Maniffesto ar gyfer y Dyfodol.
- **Cyhoeddi** cynnyrch cryno ar gyfer natur a datgarboneiddio, sef y syniadau a'r argymhellion perthnasol a dynnwyd o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac a gyflwynwyd mewn fformat wedi'i dargedu y gobeithiwn ei fod yn haws ei gyrchu.
- **Wedi** gweithio gyda'r Llywodraeth ar eu cynlluniau adfer yn dilyn COVID gan sicrhau y dylai unrhyw fuddsoddiad gynyddu eu cyfraniad i'r nod llesiant 'Cymru Gydnerth'.
- **Mynychu** ac ymgysylltu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd Cymru ers iddo gael ei sefydlu gan Lesley Griffiths AS yn haf 2020.
- **Cyflwyno polisi** gwirfoddoli lle gall staff gymryd amser i rannu eu sgiliau gyda'r gymuned a dod â dealltwriaeth yn ôl i'r swyddfa i drwytho ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol lleol.
- **Ymgysylltu** a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth yn fy nhîm i wneud bioamrywiaeth yn rhan annatod o benderfyniadau ar bob lefel.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Future Generations Commissioner for Wales

### I weithredu'r geiriau am Gymru sy'n Fwy Cyfartal, yn 2020-21 rwyf wedi:

- **Parhau** i feincnodi fy mhroffil amrywiaeth gweithlu bob blwyddyn yn erbyn yr ystadegau cenedlaethol ac rwy'n falch o amrywiaeth fy nhîm bach. Er bod 85% o fy nhîm staff presennol yn disgrifio'u hunain fel Cymry Gwyn neu Brydeinwyr Gwyn, mae'r 15% sy'n weddill yn cynrychioli pedwar ethnigrwydd arall gwahanol gan gynnwys Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.
- **Cynnig** pecyn gwell ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu sy'n cynnwys chwe mis o dâl llawn yn ystod absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu, a gostyngiad o 50% mewn oriau gyda thâl llawn yn ystod y mis cyntaf yn ôl.
- **Lansio** polisi newydd a fydd yn caniatáu i staff sy'n dioddef cam-drin domestig gael mynediad i grant neu fenthyciad i 'leddfu rhwystrau ariannol' a allai eu hatal rhag gadael y tramgwyddwr.
- **Parhau** i fod yn fentor gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru.
- **Creu cronfa** hygyrchedd ar gyfer ein Hacademi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i annog cyfranogwyr o ystod eang o gefndiroedd gan gynnwys y rheiny ag anableddau neu gyfrifoldebau gofal.
- **Gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru,** Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, rwyf wedi ceisio gwella sut rydyn ni'n cyfleu fy ngwaith ac wedi creu fersiynau Iaith Arwyddion Prydain a fersiynau Hawdd eu Deall o'm tri adroddiad blynyddol diwethaf.
- **Gwella** ein polisi absenoldeb arbennig a'n polisi ar gyfer cefnogi pobl sy'n profi cam-drin domestig.
- **Gweithredu** meddalwedd i sicrhau bod fy ngwefan yn gwbl hygyrch i bobl ag ystod o namau.
- **Wrth** recriwtio staff newydd, cyflwynais ymagwedd sy'n cefnogi 'gweithredu cadarnhaol' ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (nodweddion gwarchodedig) o fewn ein gweithlu. Pe bai unrhyw ymgeisydd o'r grwpiau hyn yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl, roeddent yn sicr o gael gwahoddiad i gyfweliad.
- **Yn ogystal,** rhedais weminarau recriwtio y tu allan i oriau i siarad am y rôl a chaniatáu i ddarpar ymgeiswyr ofyn cwestiynau.

> *"Helo Sophie, roeddwn i eisiau anfon llinell atoch a rhoi gwybod i chi fod y maniffesto rydw i wedi bod yn gweithio arno o'r diwedd yn barod i fynd (rydyn ni'n mynd yn gyhoeddus ag ef yr wythnos nesaf). Mae'r ffaith bod hyn yn bodoli yn gynnyrch rhai sgyrsiau a gawsom amdanaf yn gweithredu ar fy liwt fy hun a bwrw 'mlaen gyda beth bynnag y gallwn fwrw ymlaen ag ef, waeth beth fo'r ffactorau allanol, felly diolch am hynny."*
>
> **Emily Cotterill, mentorai WEN Cymru**





### I weithredu'r geiriau am Gymru Iachach, yn 2020-21 rwyf wedi:

- **Parhau** i gynnig yr ymagwedd 'Unrhyw bryd yn Unrhyw le' tuag at oriau gwaith. Mae hyn wedi lleihau ein hangen i deithio'n ddiangen, yn caniatáu i ni dreulio amser o ansawdd gyda'n teulu ac mae'n ddibynnol iawn ar ein gallu i ymddiried yn ein gilydd i'w gyflawni.
- **Parhau** i gynnig cronfa llesiant staff lle gall aelodau o fy nhîm gael gafael ar swm penodol bob blwyddyn i gefnogi eu llesiant (ariennir hyn gan barodrwydd y staff ar gyflog uwch i aberthu codiadau cyflog)
- **Symud** dosbarthiadau yoga'r swyddfa ar-lein
- **Gweithio** gyda fy nhîm i greu ein 'Haddewid Llesiant', gan nodi a gweithredu mentrau llesiant sy'n bwysig i ni. Rydyn ni'n cynnal 'Seiad Llesiant' i adolygu cynnydd ac mae gennym ystod o fentrau.

### I weithredu'r geiriau am Gymru o Gymunedau Cydlynus, yn 2020-19 rwyf wedi:

- **Dod y** cyflogwr cyntaf yng Nghymru i gynnig absenoldeb cam-drin domestig â thâl i weithwyr. Estynnais y polisi hwn i ganiatáu i staff sy'n dioddef cam-drin domestig gyrchu grant neu fenthyciad i 'leddfu rhwystrau ariannol' a allai fod yn eu hatal rhag gadael y tramgwyddwr. Adroddir mai materion ariannol yw un o'r rhwystrau mwyaf sy'n atal pobl rhag gadael perthynas ymosodol. Mae'r Llywodraeth,Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chomisiynydd Plant Cymru bellach wedi dilyn ein harweiniad.
- **Gweithio** gyda Llywodraeth Cymru i arallgyfeirio cynrychiolaeth ar fy Mhanel Cynghori i'w wneud yn fwy cynrychiadol o gymunedau yng Nghymru, ac yn fwy gwybodus amdanynt. Yn ystod y flwyddyn, gwahoddwyd Anabledd Cymru, EYST a Stonewall Cymru i ymuno â'r Panel.


Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**I weithredu'r geiriau am Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, yn 2020-21 rwyf wedi:**

- **Annog Cymraeg** i gael ei siarad heb waharddiad yn fy nhîm - mae traean o fy nhîm yn hyfedr yn y Gymraeg.
- **Pwysleisio'r** rôl bwysig y mae'r sector diwylliannol a chreadigol yn ei chwarae yn adferiad Cymru o COVID, gan gynnwys helpu i ailadeiladu canol trefi a dinasoedd, cefnogi pobl agored i niwed trwy eu cael i gymryd rhan yn y celfyddydau a cherddoriaeth a helpu i ddod â "meddwl creadigol unigryw" i'r ffordd yr ydym ni datrys problemau ôl-bandemig.
- **Cynghori** Casgliad Cymru ar ei ddatblygiadau a'i ddyluniad yng Ngŵyl 22 - gan sicrhau bod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ei wraidd.
- **Hyrwyddo** diwylliant ac iaith Cymru ar y llwyfan byd-eang gan gynnwys y person cyntaf i siarad Cymraeg yn Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenhedloedd Unedig.
- **Penodwyd** Taylor Edmonds fel fy ail Fardd Preswyl mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Fel bardd 26 oed, a hwylusydd creadigol mae ei gwaith yn archwilio themâu gan gynnwys bod yn fenyw, queerness, awdurdodi, cysylltiad, hud a straeon gwerin, a natur. Bydd ei chydweithrediad hyd blwyddyn gyda fy nhîm yn helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyfleu nodau'r Ddeddf.

**I weithredu'r geiriau am Gymru sy'n Gyfrifol ar lefel byd-eang, yn 2020-21 rwyf wedi:**

- **Annog** eraill i gyfrannu tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a gweithio gydag asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig ac uwch swyddogion i hyrwyddo ymagwedd unigryw Cymru.



# Beth fyddwn ni'n ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf

Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i atgyfnerthu ein gwaith ac yn sylfaen iddo. Dylai pob maes gwaith weithio mor galed â phosibl i ni ac mae dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r gorgyffwrdd yn allweddol yn hyn o beth.

## Tynnu sylw at y materion a'r heriau allweddol sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnyn nhw -

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith arweiniol ar gyfer sut y dylem geisio ymateb i argyfwng COVID-19. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i ni wneud y penderfyniadau cywir, i'n helpu i symud tuag at agwedd ataliol tymor hwy tuag at y modd yr ydyn ni'n rhedeg ein cymdeithas a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Gan fanteisio ar yr argymhellion yn fy Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol, bydd fy ngwaith yn 2021-22 yn ymwneud â rhoi cyngor a her i'r Rhaglen Lywodraethu newydd ar adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal:

- **Adeiladu** pŵer diwylliant a chreadigrwydd i mewn i'n hadferiad yn dilyn Covid.
- **Cynyddu c**yfleoedd i ddysgu gydol oes.
- **Targedu r**haglenni sgiliau mewn diwydiannau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, tuag at fenywod, pobl anabl, pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.
- **Blaenoriaethu** buddsoddiad a chreu swyddi mewn adferiad gwyrdd a arweinir gan ofal - talu cyflog byw go iawn i weithwyr gofal.
- **Buddsoddi** mewn diwydiannau eraill ar gyfer adferiad, megis datgarboneiddio tai a thrafnidiaeth.
- **Gosod** cynllun buddsoddi tymor hir ar gyfer gwneud cartrefi yn fwy ynni effeithlon - gan arbed arian i bobl ar filiau ynni, creu swyddi a dileu tlodi tanwydd yn y degawd nesaf trwy ddyblu cyllid tlodi tanwydd.
- **Lansio Gwasanaeth Natur Cenedlaethol** i ddarparu sgiliau a chreu swyddi, gan gynyddu cyfleoedd ar gyfer presgreibio cymdeithasol (lle mae cleifion yn derbyn cefnogaeth anghlinigol yn y gymuned), tra'n adfer amgylchedd naturiol Cymru fel coedwigoedd, cefn gwlad a mannau gwyrdd, gan helpu Cymru i ddod y genedl eco-lythrennog gyntaf yn y byd.

Byddaf hefyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru yn arbennig i fynd i'r afael â materion a amlygwyd ym Mhennod 2 o fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r rhwystrau sy'n wynebu gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llwyddiannus. Er enghraifft, materion yn ymwneud ag integreiddio a'r bwlch gweithredu rhwng syniadau polisi blaengar a newid ar lawr gwlad.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ffocws allweddol ein gwaith eleni yw darparu cefnogaeth ddwysach i gyrff cyhoeddus yn ychwanegol at yr hyn yr ydyn ni wedi gallu ei wneud o'r blaen.

Byddwn yn dechrau trwy sefydlu cysylltiad cyson â phob corff cyhoeddus ac yn treialu lefel uwch o gefnogaeth sy'n gyson â'n trefn gyllido gyfredol. Rwyf wedi recriwtio pedair rôl Cynorthwyo Ysgogydd Newid newydd a fydd yn helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y 44 corff cyhoeddus a helpu i benderfynu pa gefnogaeth sydd ei hangen a sut y gallem drefnu hyn yng nghyd-destun thema/clwstwr. Mae'n gyfnod newydd cyffrous i fy nhîm.

Byddaf yn parhau i weithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn natblygiad ei weithdrefn archwilio newydd. Byddaf yn cadw golwg ar 'amcanion llesiant' cyrff cyhoeddus ac adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus, a gan fod adroddiadau blynyddol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fod i gael eu cyflwyno ym mis Gorffennaf 2020, byddaf yn cwblhau fy null o adolygu'r rhain. Bydd fy nhîm yn parhau i ymateb i geisiadau am gyngor a chymorth hyd eithaf ein gallu.

## Adeiladu Mudiad dros Newid

Trwy'r gweithgareddau uchod, byddaf yn dod o hyd i dir a rennir ag eraill lle gallwn adeiladu mudiad ar gyfer newid. Byddaf yn parhau i gynyddu ein proffil a chyflawni'r gwaith creadigol, meithrin cysylltiadau newydd, cynnwys ac ymgysylltu â phobl a phartneriaid a gymerodd ran yn y sgwrs Cymru Ein Dyfodol a cheisio ehangu'r rhwydwaith hwn ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Mae fy mherthynas â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a sefydliadau sector gwirfoddol eraill yn allweddol i'r gwaith hwn.

Yn dilyn llwyddiant fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2019/2020 a hyfforddodd 20 o arweinwyr ifanc o sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Cymru yn y Ddeddf, rwy'n anelu at sefydlu ail raglen academi erbyn diwedd 2021. Rwy'n falch iawn bod llawer o'r partneriaid a gymerodd ran y flwyddyn ddiwethaf wedi ymrwymo i ymuno â ni am ail flwyddyn.

Dros y deuddeg mis nesaf, byddaf yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion Cymru a thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn fyd-eang, ac i sicrhau partneriaethau gyda rhanddeiliaid rhyngwladol i ddod ag arbenigedd ar gynaliadwyedd yn ôl i sector cyhoeddus Cymru. Edrychaf ymlaen at gefnogi'r amcanion hyn mewn partneriaeth â swyddfeydd Tramor Llywodraeth Cymru ac mewn digwyddiadau byd-eang fel Uwchgynhadledd Un Byd Ifanc, Expo'r Byd yn Dubai ac Uwchgynhadledd Hinsawdd COP26.

Byddaf hefyd yn ymgynghori ymhellach ar ddatblygu cynlluniau i wella'r ffordd y mae busnesau yng Nghymru'n cael eu trefnu o amgylch y Ddeddf ac yn arddangos cynnydd yng Nghymru ac yn fyd-eang.

## Gweithreu'r geiriau – ysgwyddo'r cyfrifoldeb yr wyf eisiau ei weld mewn eraill

Mae fy nhîm a minnau wedi ymrwymo i greu diwylliant sy'n cael effaith cadarnhaol arnom ni yn ogystal ag yng Nghymru a gweddill y byd. Bydd y gweithredoedd mwy uchelgeisiol a nodir yn fy Nheithiau Y Gallu i Greu yn sail i hyn.

Byddaf yn adolygu fy niwylliant sefydliadol, yn enwedig drwy gefnogi fy nhîm sydd wedi bod yn gweithio'n gyfangwbl o gartref, ac mewn sawl achos yn gorfod cydbwyso gwaith a phlant sy'n dysgu gartref. Gyda recriwtio Prif Ysgogydd Arweiniol Newid Pobl a Diwylliant newydd i'm tîm, rwy'n ceisio rhannu arfer gyda chyfoedion ynghylch gweithredu'r geiriau.



### Am gymryd rhan?

Rwyf am glywed oddi wrth grwpiau ac unigolion sydd â mewnwelediad, arbenigedd, syniadau, pryderon neu brofiad byw ar unrhyw un o'r materion uchod a gweithio gyda nhw. Cysylltwch trwy e-bost, Twitter, llythyr, ffôn neu drwy **cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru** neu **covid-19@futuregenerations.wales** os ydych chi am ddarganfod mwy, neu gofrestru ar gyfer fy nghylchlythyr rheolaidd.

# Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Atebolrwydd 2020-21

Yn yr adran hon, rwy'n adrodd gerbron Gweinidogion Cymru ar ofynion atebolrwydd allweddol yn arddull adroddiad Cyfarwyddwyr a baratoir gan gwmni preifat.

Cafodd y gofynion adrodd hyn eu haddasu i weddu â chyd-destun y sector cyhoeddus. Mae fy adroddiad atebolrwydd yn cynnwys adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol ac Adroddiad Cyflog a Staff. Archwilydd Cyffredinol Cymru syn gyfrifol am adolygu fy adroddiad atebolrwydd o ran cysondeb â gwybodaeth arall yn fy natganiadau ariannol a rhoi barn ar y datganiadau canlynol yn yr adroddiad hwn:

- Cysondeb incwm a gwariant
- Datgeliadau o ran atebolrwydd llywodraethol
- Datgeliadau cyflog a CETV ar fy nghyfer i ac aelodau o'm uwch-dîm rheoli
- Taliadau i gyn-Gyfarwyddwyr, os yw'n berthnasol
- Taliadau ar gyfer colli swyddi, os yw'n berthnasol
- Pecynnau gorffen, os yw'n berthnasol
- Datgeliadau cyflog teg
- Dadansoddi niferoedd a chostau staff

### Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

Amlinellir gwybodaeth am fy strwythur lywodraethol a phwy syn gyfrifol am ac yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn fy Swyddfa ar fy ngwefan ac yn fy Natganiad Llywodraethiant. Mae gofyn i mi hefyd ddatgelu unrhyw ddiddordebau sylweddol a allai wrthdaro yn erbyn ein cyfrifoldebau rheoli, a ddelir gennyf i a'm bwrdd rheoli. Eleni, rwyf wedi penderfynu cynnwys yr wybodaeth hon ar gyfer pob aelod o'm Uwch-dîm Rheoli estynedig. Gellir gweld cofrestr gryno o ddiddordeb ar fy nghyfer i a'r UDR yma. Cafodd unrhyw ddarpar wrthdaro neu wrthdaro gwirioneddol a gododd yn ystod y flwyddyn eu rheoli'n unol â'm polisi gwrthdaro diddordebau.

### Fformat y Cyfrifon

Cafodd fy natganiadau ariannol eu paratoi yn unol â Pharagraff 20 Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Daeth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fodolaeth ar 1 Chwefror 2016 pan gefais fy mhenodi fel y Comisiynydd cyntaf. Mae'r cyfrifon hyn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021 ac maen nhw'n adlewyrchu asedau, dyledion ac alldro adnoddau fy Swyddfa. Mae'r datganiadau ariannol sy'n dilyn yr adroddiad hwn wedi cael eu paratoi'n unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn y FReM yn gweithredu Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer y cyd-destun sector cyhoeddus.

## Cyllido

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn annibynnol o Lywodraeth Cymru, ond fe'i cyllidir ganddi. Yn 2020-21, derbyniwyd £1.509 miliwn i gyllido gweithgareddau, lleihad o 3.5 per cent o'r flwyddyn flaenorol (£1.564 miliwn, 2019-20). Bu i mi hefyd dderbyn incwm arall, yn bennaf drwy weithgaredd partneriaeth i gyllido Academi Arwain Cenedlaethau'r Dyfodol, prosiectau ymchwil cydweithredol, honorariwm am siarad mewn digwyddiadau rhyngwladol ar gynaliadwyedd a llesiant, a ffioedd ar gyfer rhoi cyngor, cefnogaeth a chymorth. Ceir manylion llawn yn Nodyn 8 ar fy Natganiadau Ariannol.

## Canlyniadau ar gyfer y cyfnod

Dengys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wariant dros y flwyddyn o £1.382 miliwn, lleihad o 13.5 per cent o'r flwyddyn flaenorol (£1.598 miliwn i 31.3.20). Cynyddodd balans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn i £384,000 (£257,000 ar 31.3.20). Mae'r lleihad mewn gwariant yn deillio'n bennaf o leihad mewn costau staff a gweinyddiaeth. Roedd costau staff yn is am fod llai o secondiadau yn 2020-21 a dim diswyddiadau gwirfoddol. Roedd costau swyddfa a theithio'n is oherwydd pandemig Covid 19. Cynhelir yr arian wrth gefn gan gynnwys y cynnydd o'r cyfnod cyfrifo hwn ac fe'u defnyddir ar gyfer costau unrhyw waith anghenrheidiol na chynlluniwyd ar ei gyfer neu wariant annisgwyl arall.

## Cwynion

Derbyniodd fy Swyddfa 1 gŵyn yn ystod y cyfnod, ar 21 Chwefror 20201, am gynnwys hysbyseb swydd ar gyfer ein Bardd Preswyl. Honnwyd ei fod yn gwahaniaethu ar sail oedran am ei fod yn nodi oedran llai na 31 oed fel gofyniad.

Bu i ni archwilio'r pwnc a newid yr hysbyseb ar fyrder am ein bod yn cydnabod ei fod yn anaddas. Bu i ni esbonio hefyd fod gennym nod dilys i ddarparu llais a llwyfan i unigolion iau, llai sefydledig sydd, yn ein barn ni, yn cael eu tan-gynrychioli'n anghyfartal ym maes y celfyddydau, ond bu i ni dderbyn fod y gofyniad oedran yn anaddas. Cynhwyswyd y terfyn oedran yn yr hysbyseb gyda'r bwriad o weithredu'n gadarnhaol, yn hytrach nag i wahaniaethu'n gadarnhaol, er mwyn mynd i'r afael â'r tan-gynrychioliad hwn. Rydym hefyd wedi gweithredu i wneud ein staff yn ymwybodol o'r arlliw bychan rhwng gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu cadarnhaol, ac i sicrhau fod y rhain yn cael eu deall yn llawn, ynghyd ag unrhyw fesurau eraill a allai gynorthwyo gyda sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

## Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Hyd y gwn, nid oes gwybodaeth archwilio nad oedd yr archwilwyr yn ymwybodol ohono a chymerodd fy nhîm bob cam y dylai fod wedi'i wneud i ymgyfarwyddo ag unrhyw wybodaeth archwilio perthnasol ac i sefydlu fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yn ystod y cyfnod, ni thalwyd yr un tâl i'm harchwilwyr ar gyfer gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio.

## Datganiad cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo

Dan Atodlen 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi cyfrif gwir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ei incwm a'i wariant, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.


Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol; a
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swydd yn rhinwedd paragraff 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Amlinellir Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol drosto, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
27 Gorffennaf 2021



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

## Pwrpas

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal llywodraethiant effeithiol a system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant hwn yn dilyn Canllawiau Trysorlys EM. Mae'n nodi'r strwythurau llywodraethu ar gyfer fy swyddfa, a'r gweithdrefnau rheoli mewnol a rheoli risg sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Mae'r systemau sydd ar waith fel yr amlinellir hwy yn y datganiad hwn wedi'u cynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd effeithiolrwydd rhesymol yn unig, ac nid absoliwt. O ystyried natur arloesol gwaith fy swyddfa, deuthum i'r casgliad ei bod yn angenrheidiol mabwysiadu archwaeth risg "blysiog" ar gyfer llawer o'm gwaith sy'n wynebu am allan gan na fyddai dull minimalaidd na gofalus mwy traddodiadol yn llwyddo, yn fy marn i, i gyflawni'r newid buddiol y sefydlwyd fy swyddfa i'w gyflawni. Esbonnir hyn ymhellach isod.

## Natur fy swydd ac atebolrwydd

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel unig gorfforaeth. Mae hyn yn golygu bod yr holl swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau) wedi'u breinio yn y deiliad swydd ac nad oes "bwrdd" traddodiadol sy'n gyfrifol yn gorfforaethol am berfformiad a llywodraethiant y sefydliad. Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac yn ddarostyngedig i Ddeddf 2015, yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa, ac i'w Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn benodol am faterion fel y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.



## Panel ymgynghorol

Sefydlodd Deddf 2015 banel i roi cyngor i mi ar weithredu fy swyddogaethau. Aelodau presennol y panel ymgynghorol yw –

**(a) Sally Holland**,
Comisiynydd Plant Cymru

**(b) Aled Roberts,**
Comisiynydd yr Iaith Gymraeg

**(c) Heléna Herklots CBE,**
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**(d) Dr Frank Atherton,**
Prif Swyddog Meddygol Cymru

**(e) Sir David Henshaw,**
Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru

**(f) Shavanah Taj,**
yn cynrychioli TUC Cymru

**(g) Andy Jones,**
Prif Weithredwr Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (penodwyd ym mis Rhagfyr 2020 i gynrychioli pobl sy'n cynnal busnes yng Nghymru)

**(h) Ruth Marks**
Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (dan 'personau eraill y gall Gweinidogion Cymru eu penodi').

Er mwyn gwella amrywiaeth y Panel, gofynnais i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt AS benodi cynrychiolwyr tri sefydliad ychwanegol i ymuno â'r panel: Anabledd Cymru, Stonewall Cymru a'r Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chefnogaeth Ieuenctid (EYST). Mae hyn er mwyn sicrhau bod barn pobl anabl, y bobl o'r gymuned LGBT+ a'r gymuned BAME yn cael eu cynrychioli. Gwnaed y penodiadau ym mis Rhagfyr 2020 a byddant yn ymuno â'r Panel am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2021.

Cyfarfu'r Panel bob chwe mis. Tynnais ar brofiad aelodau unigol i lywio rhaglen waith fy sefydliad a chynghori ar fy swyddogaethau statudol drwy gydol y flwyddyn.

## Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg

Rwyf wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg (ARAC) i roi cyngor adeiladol a her ar faterion llywodraethiant, rheoli ariannol ac archwilio, a threfniadau rheoli mewnol – gan gynnwys adnabod a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys:

- **Alan Morris,** Archwilydd wedi ymddeol a hyrwyddwr datblygu cynaliadwy ymroddedig sy'n cadeirio'r Pwyllgor;
- **Jocelyn Davies,** aelod o Banel Cynghori'r Comisiynydd Plant a Chadeirydd ei ARAC; aelod anweithredol o Fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru a chadeirydd ARAC; aelod o Blaid Cymru; aelod o Banel Aelodaeth, Safonau a Disgyblaeth Plaid Cymru; Cadeirydd Pwyllgor Archwilio, Risg a Chydymffurfiaeth Plaid Cymru; llysgennad Cymorth Menywod Cymru;
- **John Dwight,** Archwilydd wedi ymddeol, ymddiriedolwr a thrysorydd anrhydeddus Hosbis Dinas Caerdydd ac aelod o Weithrediaeth Cangen Cymru-Wales CIPFA;
- **Gareth Madge,** cyn-Brif Swyddog a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol gyda Heddlu De Cymru, is-gadeirydd Bwrdd Treftadaeth Heddlu De Cymru, ymddiriedolwr Capel Bedyddwyr Calfaria;
- **Jonathan Morgan,** ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol yr Eglwys Newydd, unig berchennog a chyfarwyddwr Insight Wales Consulting Ltd., a gyflogir gan Practice Solutions Ltd i reoli Uned Fusnes Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol;
- **Fran Targett OBE,** Is-gadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Cadeirydd annibynnol Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac aelod o Gomisiwn Bevan, yn cynghori Gweinidogion Cymru ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pob un yn annibynnol ac nid ydynt yn gweithio i'r Comisiynydd mewn unrhyw swyddogaeth weithredol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi darparu adroddiad blynyddol i mi ble mae'n dod i'r casgliad "O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn a chanfyddiadau archwilio mewnol ac allanol, gall y Pwyllgor roi sicrwydd i'r Comisiynydd fod y trefniadau llywodraethu, rheoli ariannol a rheoli risg sydd ar waith yn briodol ac wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21. "

## Fframwaith llywodraethiant

Cafodd fy strwythur llywodraethiant corfforaethol ei adolygu yn ystod y flwyddyn i gyd-fynd yn well ag arferion gwaith. Mae ein hymarfer wedi newid yn bur sylweddol o ganlyniad i bandemig COVID-19 a gweithio o gartref:

- Cafodd ein cyfarfod tîm cyfan wythnosol 'Peri iddo ddigwydd' ei gyfnewid am ddau gyfarfod tîm cyfan a gadeirir gennyf ar ddydd Llun a dydd Iau i wella ymhellach gyfathrebu mewnol, rheoli prosiectau a gofalu am lesiant staff yn ystod y pandemig.
- Bu i ni greu strwythur 'Cheerleader' ble bydd aelodau staff uwch yn cysylltu'n wythnosol â chydweithwyr penodedig i wirio'u llesiant, eu budd a'u datblygiad personol, mewn ymateb i'r pandemig a risg cynyddol fod llesiant staff yn lleihau. Mae hyn yn sicrhau fod gan bawb ofal a chefnogaeth fugeiliol un-i-un cynyddol yn rheolaidd.
- O ganlyniad i beilot, mae tîm ehangach bellach yn rhan o'm Uwch Dîm Rheoli. Roedd hyn yn fy nghynnwys i fel Comisiynydd, fy nau gyfarwyddwr, fy nhri Phrif Ysgogwr Newid, yr Arwr Corfforaethol, Cynllunydd Cyfathrebu a'r Pensaer Datrysiadau fel secretariat. Cyfarfu'r UDR yn fisol gan ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyfeiriad a rheolaeth strategol gyffredinol y sefydliad ac adnabod a lleihau risg.
- Mae effeithlonrwydd yr UDR wedi gwella gydag ychwanegu cyfarfodydd bob pythefnos ar gyfer 'tîm rhag-reoli'. Mae'r rhain wedi monitro cynnydd gyda'r gwaith cyffredinol a hwyluso gweithredu ar draws y sefydliad, gan gynnwys adnabod problemau a pharatoi adroddiadau i'w hystyried a phenderfyniadau i'w gwneud gan yr UDR.
- Gan adeiladu ar arolwg tîm dwyflynyddol a mwy o weithdai staff ym mis Ionawr 2020, cynhyrchais gynllun gweithredu llesiant a diwylliant yr wyf wedi dechrau ei roi ar waith.
- Penodwyd aelodau ARAC i brosiectau strategol allweddol fel 'cyfaill beirniadol' i ddod â'u her a'u sylwadau annibynnol i'r gymysgedd ar sail fwy amserol. Roedd y trefniant hwn yn llwyddiannus, a hefyd, helpodd y Pwyllgor i gael gwell dealltwriaeth gyfun o waith fy Swyddfa. Bydd yn cael ei fabwysiadu ar sail barhaus.
- Mae fy ARAC yn cwrdd yn chwarterol. Ysgwyddodd fy Arwr Corfforaethol rôl cynllunio a chefnogi'u gwaith, sydd wedi gwella amseroldeb ac ansawdd y cyfathrebu rhwng fy nhîm ac anghenion y pwyllgor.

Rwy'n parhau i wneud penderfyniadau allweddol ar ôl trafod gyda fy UDR ac aelodau ehangach y tîm. Rwyf hefyd wedi dirprwyo awdurdod i rai staff i wneud gwariant ariannol ar fy rhan. Mae gan y Dirprwy Gomisiynydd, yr Arwr Corfforaethol, y Pensaer Atebion a'r Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol derfynau amrywiol o awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i wariant, yn dibynnu ar eu rolau a'r tasgau a gyflawnir ganddynt. Yn ogystal â hyn, mae gan rai awdurdod dirprwyedig i adolygu ac awdurdodi taliadau am anfonebau cyflenwyr; y rhain yw'r Ysgogwyr Newid, yr Artist Cyfranogiad ac aelodau o staff sy'n ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebu.

Bu Archwilio Mewnol ar waith drwy gydol y flwyddyn a chyflwynodd raglen lawn o waith, a bu'r Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio yn gwbl weithredol. Bu iddynt gyfarfod 4 gwaith yn 2020/21 (Ebrill, Gorffennaf a Hydref 2020 ac Ionawr 2021).

Mae fy Nghynllun Strategol yn amlinellu'r hyn yr wyf yn gobeithio ei gyflawni ar ffurf newid buddiol i bobl Cymru a sut y bwriedaf fynd ati i'w wneud mewn cydweithrediad â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Dyma ddogfen uchelgeisiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus herio'r ffyrdd y maent yn gweithio ac addasu arferion a hen sefydlwyd i gyflawni'r hyn a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru pan benderfynodd gyflwyno'r hyn sydd bellach yn Ddeddf 2015. Mae'n gynllun deinamig a adolygir yn flynyddol a'i addasu yn ôl yr angen mewn ymateb i'r newid mewn amgylchiadau drwy gydol fy nhymor yn y Swydd ac fe'i hategir gan gynllun gwaith blynyddol a nodir mewn Map Ffordd, sydd bellach wedi'i ategu gan 'Fapiau Ffordd Personol' unigol i fanylu ar rôl ac uchelgais datblygu proffesiynol pob un.

**Awdurdod dirprwyedig: ymrwymo gwariant (h.y. gosod archebion, llofnodi contractau)**

| Rolau | Math o wariant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Staffio / Hyfforddiant | Teithio a Lletygarwch | Rheoli Swyddfa / Cyfleusterau | Cyfathrebu, digwyddiadau, gwefan a chyhoeddiadau | Comisiynu ymchwil a chyngor |
| Comisiynydd | Dros £50k | Dros £50k | Dros £50k | Dros £50k | Dros £50k |
| Dirprwy Gomisiynydd / Arwr Corfforaethol | Hyd at £50k | Hyd at £50k | Hyd at £50k | Hyd at £50k | Hyd at £50k |
| Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k |
| Pensaer Datrysiadau | - | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k | - |
| Pennaeth Adnoddau Dynol | Hyd at £5k | - | Hyd at £5k | - | - |

**Awdurdod dirprwyedig: awdurdodi anfonebau prynu i'w talu**

| Rolau | Math o wariant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Staffio / Hyfforddiant | Teithio a Lletygarwch | Rheoli Swyddfa / Cyfleusterau | Cyfathrebu, digwyddiadau, gwefan a chyhoeddiadau | Comisiynu ymchwil a chyngor |
| Comisiynydd | Dros £120k | Dros £50k | Dros £50k | Dros £50k | Dros £50k |
| Dirprwy Gomisiynydd / Arwr Corfforaethol | Hyd at £120k | Hyd at £50k | Hyd at £50k | Hyd at £50k | Hyd at £50k |
| Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k |
| Pensaer Datrysiadau | - | Hyd at £5k | Hyd at £5k | Hyd at £5k | - |
| Pennaeth Adnoddau Dynol | Hyd at £5k | - | Hyd at £5k | - | - |
| Ysgogwr Newid | - | - | - | - | Hyd at £5k |
| Aelod o'r Tîm Cyfathrebu | - | - | - | Hyd at £3k | - |
| Artist Ymgyfraniad | - | - | - | Hyd at £2k | - |

## Dull o drin rheoli risg

Mae fy null o reoli risg yn gyson â'm Cynllun Strategol ac mae'n unol â Deddf 2015 a'r hyn y bwriedir iddo'i gyflawni. Mae fy mholisi rheoli risg, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg, yn ei gwneud hi'n glir fy mod i eisiau creu a chynnal amgylchedd a fydd yn caniatáu i reoli risg ffynnu yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn cael eu cynnwys yn llawn yn y ddolen ynglŷn â'n cynlluniau a'r dull y byddaf i a pherchnogion risg yn ei weithredu i reoli'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r polisi'n ei gwneud hi'n glir nad wyf yn wrthwynebus i fentro. I'r gwrthwyneb, er mwyn cyflawni'r amcanion yn fy nghynllun strategol a chyflawni'r hyn a ddisgwylir, yn aml bydd angen dull risg agored neu flysiog nad yw'n arferol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill. Rwyf wedi dod i'r casgliad mai mabwysiadu dull o'r fath ar gyfer fy ngwaith allanol gyda chyrff cyhoeddus eraill yw'r unig ffordd realistig o sicrhau'r newid sydd ei angen ar draws sector cyhoeddus Cymru. Gallai gwneud fel arall olygu methu â manteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn digwydd a bydd risg uchel o fethu â chyflawni'r amcanion heriol yr wyf wedi'u gosod yn y cynllun strategol a'r hyn a ddisgwylir gennyf gan fy rhanddeiliaid. Yn yr un modd, rwyf wedi penderfynu bod angen i'm sefydliad 'fyw pregeth' y Ddeddf a bod yn agored ac yn arloesol a rhoi cynnig ar ymagweddau newydd at y ffordd yr ydym yn gweithio. Fodd bynnag, ni chymerir risgiau o'r fath yn ddi-hid ond fe'u rheolir yn briodol, eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ofalus gyda'r nod o sicrhau'r dull mwyaf llwyddiannus bosib o gyflawni hyn.

Rwyf wedi cymryd agwedd fwy traddodiadol a gochelgar tuag at fy mhrosesau mewnol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a diogelwch gwybodaeth.

Yn ystod 2020-21, rwyf wedi diweddaru fy nghofrestr risg strategol mewn ymgynghoriad â staff a'r Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg. Nododd y gofrestr risg strategol risgiau priodol yn ymwneud â'm dyletswyddau statudol a'r rôl y bydd fy sefydliad yn ei chwarae wrth helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni nodau'r Ddeddf. Mae gweithredoedd i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori yn fy ngweithrediadau.

## Archwiliad mewnol

Mae gwaith archwilio mewnol yn un o'r gwarantau allweddol sydd eu hangen arnaf fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae Deloitte yn gweithredu fel fy archwilwyr mewnol a bu iddynt gynhyrchu'r adroddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Cynhaliwyd pedwar archwiliad mewnol yn 2 020-21 ar:

- Llywodraethiant Corfforaethol a Rheoli Risg
- Systemau Ariannol
- Adolygiad Archwiliad Llesiant Dilynol
- Trefniadau gweithio gartref

Rhoddodd yr asesiad cyffredinol o'r 4 adroddiad hyn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol 20/21 asesiad cyffredinol i ni fod dosbarthiad gwarantu ar gyfer llywodraethu corfforaethol a rheoli risg yn parhau i fod yn sylweddol.

## Gwarantu Gwybodaeth

Mae fframwaith llywodraethiant gwybodaeth ar waith gyda chasgliad o bolisïau sylfaen sy'n nodi trefniadau diogelwch ac egwyddorion llywodraethiant gwybodaeth da ynghyd â'r cyfrifoldebau a'r ymddygiadau rwy'n eu disgwyl gan bawb sy'n gweithio i mi.

Ni chafwyd unrhyw doriadau data yn ystod y flwyddyn. Ni adroddwyd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol yn ystod y cyfnod.


## Crynodeb o effeithiolrwydd

O'r sicrwydd a ddarparwyd gan fy nhîm, fy ngwybodaeth am waith fy swyddfa, a'r adroddiadau a ddarparwyd gan archwiliadau mewnol ac allanol, gallaf adrodd nad oedd y system reoli fewnol fu ar waith yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cynnwys unrhyw wendidau sylweddol.

## Edrych ymlaen

Ar gyfer 2021-22, byddaf yn monitro, yn cynnal ac yn gwella'r trefniadau llywodraethiant a rheolaeth fewnol i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu fy anghenion gwarantu ac yn cyd-fynd â gweithle modern, ystwyth. Ble bo angen, byddaf yn parhau i ddiweddaru strwythur fy nhîm i sicrhau fod gennyf y trefniadau mwyaf effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r ystod eang o swyddogaethau.

Fel y mwyafrif o sefydliadau, bu i bandemig COVID fwrw cysgod dwfn dros waith fy Swyddfa yn ystod y flwyddyn. Bu'n rhaid i mi addasu fy arferion gwaith, ond ni effeithiwyd yn sylweddol ar ein gwaith, o ystyried ein dull o gynllunio tymor hir ar gyfer trefniadau gweithio sy'n cynnwys arferion gweithio di-bapur, hyblyg ac o bell. Wrth symud ymlaen, byddaf yn ystyried anghenion ôl-COVID fy swyddfa a chyrff cyhoeddus i weld sut y gallaf ddylanwadu orau ar adfer Cymru ac ailadeiladu ein cymdeithas a gwella llesiant ar gyfer fy nhîm ac ar gyfer poblogaeth Cymru.



**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
27 Gorffennaf 2021

# Adroddiad Taliadau Cyflog a Staff

Mae'r rhan hon o fy adroddiad Atebolrwydd yn darparu gwybodaeth am fy mholisi tâl a chyflog ar fy nghyfer i a'm Uwch Dîm Rheoli.

Cefais fy mhenodi ar 1 Chwefror 2016 a phenodwyd fy nghyfarwyddwyr ym mis Mehefin a mis Medi 2016. Eleni, ar ôl cynnal peilot, rwyf wedi ehangu fy UDR fel ei fod bellach yn cynnwys 9 aelod o'm tîm. Mae cynnwys yn ffordd bwysig o weithio ac roeddwn am i'm tîm deimlo eu bod yn rhan o'm penderfyniadau. Mae'r UDR bellach yn cynnwys y Comisiynydd, y Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Deddfwriaeth Polisi ac Arloesi, fy nhri Phrif Ysgogwr Newid, yr Arwr Corfforaethol, y Cynllunydd Cyfathrebu a'r Pensaer Datrysiadau. Gadawodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu y sefydliad ar 16 Mehefin 2021.

Gweinidogion Cymru sy'n pennu tâl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 5 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cymerais gyngor ar gyflog ar gyfer fy nghyfarwyddwyr gan arbenigwyr recriwtio'r gwasanaeth sifil.

Mae'r adrannau canlynol, a fu'n destun archwiliad, yn darparu manylion cyflog a buddion pensiwn y swyddogion uchaf yn fy swyddfa:

## Nifer a dadansoddiad costau staff uwch fesul Band (archwiliwyd)

| | Cyflog £000 | | Buddion mewn Nwyddau (i'r £1000 agosaf) | | Taliad Gweithio Gartref (i'r £1000 agosaf) | | Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
| **Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Llawn amser** | 90-95 | 90-95 | 0.5 | 0.2 | 0.3 | - | 36 | 36 | 125-130 | 125-130 |
| **Marie Brousseau-Navarro – Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi. Rhan amser 0.8 FTE** | 45-50 (FTE 60-65) | 45-50 (FTE 60-65) | 0.2 | 0.2 | 0.1 | - | 21 | 20 | 65-70 | 65-70 |
| **Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethiant. Rhan amser 0.6 FTE** | 40-45 (FTE 60-65) | 45-50 (FTE 60-65) | 0.5 | 0.2 | 0.3 | - | 23 | 19 | 60-65 | 60-65 |
| **Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu. Llawn amser. Daeth y gyflogaeth i ben 31 Rhagfyr 2019** | - | 85-90 | - | - | - | - | - | 18 | - | 100-105 |

| | Cyflog £000 | | Buddion mewn Nwyddau (i'r £1000 agosaf) | | Taliad Gweithio Gartref (i'r £1000 agosaf) | | Buddion Pensiwn (i'r £1000 agosaf) | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
| ***Heledd Morgan – Prif Ysgogwr Newid. Llawn amser** | 50-55 | 45-50 | 0.2 | 0.3 | 0.3 | - | 21 | n/a | 70-75 | n/a |
| ***Jacob Ellis - Prif Ysgogwr Newid. Llawn amser** | 50-55 | 45-50 | 0.5 | 0.2 | 0.3 | - | 21 | n/a | 70-75 | n/a |
| ***Cathy Madge- Prif Ysgogwr Newid. Rhan amser 0.65 FTE** | 35-40 (FTE 50-55) | 40-45 (FTE 50-55) | 0.3 | 0.2 | 0.3 | - | 20 | n/a | 55-60 | n/a |
| ***Helen Nelson – Arwr Corfforaethol. Llawn amser** | 45-50 | 40-45 | 0.7 | 0.4 | 0.3 | - | 20 | n/a | 65-70 | n/a |
| ***Susan Crutcher – Pensaer Datrysiadau. Llawn amser** | 35-40 | 30-35 | 0.3 | 0.4 | 0.3 | - | 15 | n/a | 50-55 | n/a |
| ***Rebecca Brown – Cynllunydd Cyfathrebu. Llawn amser. Daeth y gyflogaeth i ben 11 Ionawr 2021.** | 20-25 | 25-30 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | - | 10 | n/a | 30-35 | n/a |

* Nid yw gwybodaeth buddion pensiwn cymharol ar gyfer 2019-20 ar gael.

## Buddion mewn Nwyddau

Mae'r rhain yn ymwneud â 4 math gwahanol o daliad:

- Anrhegion Llesiant: bydd cyflogau'r bobl sy'n ennill dros £40,000 y flwyddyn yn cael eu brig-haenu a'u talu i Botyn Llesiant. Gall cyflogeion hawlio hyd at £175 i gyfrannu at gostau aelodaeth clwb, gweithgaredd, triniaeth iechyd neu offer i gefnogi'r gweithgaredd.
- Lwfans Celfi Swyddfa yn y Cartref: ad-daliad o gostau celfi ac offer swyddfa yn y cartref hyd at £500 fesul cyflogai. Mae hwn yn fudd mewn nwyddau di-dreth a gynlluniwyd i gefnogi iechyd a diogelwch a llesiant cyflogeion tra bo angen parhaus i'r swyddfa fod ar gau oherwydd pandemig Covid-19.
- Taliad Gweithio Gartref: yn ystod y cyfnod adrodd, mae cyflogeion yn gweithio gartref, a bydd pob gweithiwr yn derbyn £26 y mis i dalu am gostau ychwanegol yn y cartref.
- Budd Bychan y Swyddfa: anrhegion llesiant bychan a anfonir o bryd i'w gilydd ar sail ad hoc i gyflogeion. Dyma fudd mewn nwyddau di-dreth (dan £50 fesul cyflogwr bob blwyddyn) a ddarperir i wella llesiant gweithwyr. Cyn y pandemig Covid-19, byddai cyflogeion unigol yn arfer rhoi anrhegion ar sail wirfoddol a dienw. Bu i hyn barhau ar ffurf buddion bychan ers i'r swyddfa gau.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

## Buddion Pensiwn - Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (archwiliwyd)

| | Cyfanswm y pensiwn a grynhowyd | Cynnydd gwirioneddol y pensiwn | CETV ar 31.3.21 | CETV ar 31.3.20 | Cynnydd / (lleihad) gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o 1 Chwefror 2016.** | 10-15 | 0-2.5 | 114 | 89 | 15 |
| **Marie Brousseau-Navarro - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi, o 12 Medi 2016.** | 5-10 | 0-2.5 | 56 | 42 | 10 |
| **Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethiant, o 6 Mehefin 2016.** | 15-20 a thalp-swm o 30-35 | 0-2.5 a thalp-swm o 0-2.5 | 278 | 253 | 15 |
| **Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu, o 19 Gorffennaf 2016. Daeth y gyflogaeth i ben 31 Rhagfyr 2019.** | - | - | - | 56 | - |
| **Heledd Morgan - Prif Ysgogwr Newid. Llawn amser** | 0-5 | 0-2.5 | 30 | 20 | 7 |
| **Jacob Ellis - Prif Ysgogwr Newid. Llawn amser** | 0-5 | 0-2.5 | 23 | 14 | 6 |
| **Cathy Madge- Prif Ysgogwr Newid. Rhan amser 0.65 FTE** | 10-15 | 0-2.5 | 137 | 123 | 8 |
| **Helen Nelson - Arwr Corfforaethol. Llawn amser** | 5-10 | 0-2.5 | 58 | 43 | 10 |
| **Susan Crutcher - Pensaer Datrysiadau Llawn amser** | 0-5 | 0-2.5 | 40 | 29 | 7 |
| **Rebecca Brown - Cynllunydd Cyfathrebu. Llawn amser. Daeth y gyflogaeth i ben 11 Ionawr 2021** | 0-5 | 0-2.5 | 20 | 16 | 3 |

## Cynllun Pensiwn

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha.** Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol, premiwm** neu **glasurol plws**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, gyda chost y buddion yn cael ei dalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **clasurol, premiwm**, **clasurol plws, nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Mae'r rhai a oedd rhwng 10 a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y bydd aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod [CETV] a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae pob aelod sy'n newid i **alpha** yn cael 'bancio' eu buddion PCSPS, gyda'r rheini â budd-daliadau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha.** (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel sy'n briodol. Ble mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion **clasurol** yn cronni ar gyfradd 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer **premiwm**, mae buddion yn cronni ar gyfradd 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **clasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **clasurol plws** yn ei hanfod yn hybrid gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrif yn fras yn unol â'r **clasurol** a'r buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrif fel yn **premiwm**. Yn **nuvos** bydd aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn enilledig yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno a'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Bydd buddion **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ac eithrio'r gyfradd gronni o 2.32%. Ymhob achos gall aelodau ddewis ildio pensiwn (cymudo) am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau a ddiffinnir yn ôl galwedigaeth sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o'u cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros oed. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm** a **clasurol plws,** 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn PCSPS neu **alpha** – fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar wefan civilservicepensionscheme.org.uk

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfystyr ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd yn actiwarïaidd o fuddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm aelodaeth y cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Mae CETVs yn cael eu cyfrif yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fudd-daliadau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a grynhowyd o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Adrodd ar Gynlluniau Gwasanaeth Sifil ac Iawndal eraill – Pecynnau Gadael (archwiliwyd)

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd iawndal i unrhyw aelod o staff (£60,563.37, 2019-20).

## Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr

(archwiliwyd)

Ni wnaed dim taliadau i gyn-gyfarwyddwyr (nil 2019-20).

## Datgeliadau Cyflog Teg

(archwiliwyd)

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Band tâl cyflog unigolyn a delir fwyaf (£000) | 90-95 | 90-95 |
| Cyfanswm canolrifol (£) | 36,336 | 37,353 |
| Cymhareb | 1:2.55 | 1:2.48 |
| Ystod tâl cyflog staff: uchaf (£) | 64,354 | 62,381 |
| Ystod tâl cyflog staff: isaf (£) | 18,015 | 16,757 |

Y mae gofyn i mi ddatgelu'r berthynas rhwng tâl yr unigolyn a delir fwyaf a chyflog canolrifol cyflogeion. Nid yw hyn yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiwn sy'n cyfateb i arian parod. Mae newid bychan yn y pwynt canolrifol a'r gymhareb yn 2020-21 yn adlewyrchu newidiadau staffio bychan yn fy sefydliad.

## Bwlch Tâl ar sail Rhywedd

(nad yw'n agored i'w archwilio)

Mae dadansoddi cyflog rhyw yn nod pwysig wrth i ni fudo i gyfeiriad Cymru sy'n Fwy Cyfartal. Ar gyfer 2019-20 rwy'n dewis unwaith eto i adrodd ar y safle cyflog rhyw ar gyfer pobl sy'n gweithio yn fy nhîm. Dengys y tabl cyntaf gyfradd tâl fesul awr canolrifol a chyfartalog ar gyfer pobl yn fy nhîm y mae gennyf reolaeth uniongyrchol dros eu cyfraddau cyflog. Dengys yr ail dabl gyfradd tâl fesul awr canolrifol a chyfartalog pan gynhwysir aelodau tîm o sefydliadau partner.

| Bwlch cyflog rhyw: rhai a gyflogir yn uniongyrchol yn unig | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw |
| Cyfanswm canolrifol (£) | 16.90 | 22.28 | 18.82 | 17.92 |
| Cyfanswm cyfartalog (£) | 18.41 | 20.50 | 20.41 | 17.04 |

| Bwlch cyflog rhyw: gan gynnwys rhai ar secondiad a delir | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw |
| Cyfanswm canolrifol (£) | 16.90 | 22.28 | 20.99 | 16.73 |
| Cyfanswm cyfartalog (£) | 18.62 | 20.50 | 21.00 | 16.79 |

## Adroddiad Staff

### Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Ar 31 Mawrth 2021 llawnrif staff y Comisiynydd oedd 26 o bobl (21.25 cyfateb i amser cyfan). Yr adeg hon y llynedd cyfrif pen ein Tîm cyfan oedd 23 o bobl o'i gymharu â 26 o bobl ar 31 Mawrth 2021.

### Costau staff (archwiliwyd)

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau a thaliadau am waith | 834 | 921 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 86 | 95 |
| Costau Pensiwn | 224 | 228 |
| **Is-gyfanswm** | **1,144** | **1,244** |
| Secondio am i fewn a staff asiantaeth | 25 | 80 |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,169** | **1,324** |

Roedd y nifer o unigolion amser-cyfan cyfatebol a gyflogwyd (gan gynnwys cyfarwyddwr) ar gyfer y cyfnod fel a ganlyn:

| | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
|---|---|---|
| | WTE | WTE |
| Cyflogwyd yn uniongyrchol | 20.85 | 20.23 |
| Swyddi ar secondiad a dalwyd | 0.4 | 2.33 |
| **Cyfanswm** | **21.25** | **22.56** |

Roedd y nifer o secondiadau amser-cyfan cyfatebol a dalwyd ac a weithiodd yn ddi-dâl ar gyfer y cyfnod fel a ganlyn:

| | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
|---|---|---|
| | WTE | WTE |
| Secondiadau a dalwyd | 0.40 | 2.33 |
| Secondiadau di-dâl | - | - |
| **Cyfanswm** | **0.40** | **2.33** |

Dengys y tabl isod y nifer o secondiadau cyfatebol i amser cyfan o'r saith sefydliad a bartnerwyd gennym yn ystod y cyfnod:

| Sefydliad | Maes gwaith | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
|---|---|---|---|
| | | WTE | WTE |
| Comisiynydd Plant Cymru | Cefnogaeth Fusnes a Pholisi | 0.40 | 0.40 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Graddedigion Cymru Gyfan | - | 0.67 |
| Comisiynydd yr Heddli a Throsedd De Cymru | Polisi | - | 0.58 |
| Chwaraeon Cymru | Polisi | - | 0.25 |
| Ymddiriedolaeth GIG ICC | Polisi | - | 0.20 |
| Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru | Polisi | - | 0.13 |
| United Welsh Housing | Polisi | - | 0.10 |
| **Cyfanswm** | | **0.40** | **2.33** |

## Taliadau i Aelodau Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg

(nad yw'n agored i'w archwilio)

Mae Pwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg y Comisiynydd yn cynnwys pum aelod annibynnol, a benodir gan y Comisiynydd. Bydd aelodau'n derbyn lwfans o £250 y dydd a'r Cadeirydd yn derbyn lwfans dyddiol o £300. Yn 2020-21 gwnaed y taliadau canlynol:

| | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
|---|---|---|
| | (£) | (£) |
| Alan Morris (Cadeirydd) | 1,950 | 2,700 |
| John Dwight | 1,125 | 1,250 |
| Gareth Madge | 1,000 | 1,250 |
| Jocelyn Davies | 1,000 | 1,250 |
| Jonathan Morgan | 1,000 | 1,250 |
| Fran Targett | **1,000** | - |
| **Cyfanswm** | **7,075** | **7,700** |

## Cyfansoddiad y staff

Rydym ni'n casglu ystadegau gweithlu o ran pob nodwedd a warchodir, fel y manylir yn y Ddeddf Gydraddoldeb 2010. Nid ydym ni'n cyhoeddi manylion llawn oherwydd natur fechan ein gweithlu a'r anhawster olynol o gynnal ein dyletswyddau i warchod anhysbysrwydd data personol sensitif, ond cyhoeddwn ryw gymaint o ddata brig y gallwch ei weld isod.

## Ystadegau Rhywedd a Chyflog y Gweithlu

(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Dengys y tabl hwn gyfluniad ein holl weithlu yn ôl rhyw, band cyflog, math o gytundeb a phatrwm gweithio ar 31 Mawrth 2021: (mae dros-dro yn cynnwys staff a gyflogir ar gytundebau cyfnod penodedig a rhai a secondiwyd o sefydliadau partner).

| Lefel cyflog y flwyddyn (cyfatebol i secondiadau) | Amser llawn parhaol gwryw | Amser llawn parhaol benyw | Amser llawn cyfnod penodedig gwryw | Amser llawn cyfnod penodedig benyw | Rhan amser parhaol benyw | Rhan amser cyfnod penodedig benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gradd 1 £20 - 23k | 1 | 1 | | | | 3 | **5** |
| Gradd 2 £25 - 29k | | 2 | | 2 | | | **4** |
| Gradd 3 £32 - 37k | 1 | 2 | | 1 | 1 | | **5** |
| Gradd 4 £40 - 45k | 1 | 1 | 1 | | 1 | | **4** |
| Gradd 5 £48 - 53k | 1 | 2 | | | 1 | | **4** |
| Gradd 6 £60 - 64k | | | | | 2 | | **2** |
| Commisiynydd £93k | | | | 1 | | | **1** |
| Gweithwyr partneriaeth | | | | | | 1 | **1** |
| **Cyfanswm** | **4** | **8** | **1** | **4** | **5** | **4** | **26** |

## Ystadegau rhywedd ein gweithlu

(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Dengys y tabl hwn 26 cyflogai ar 31 Mawrth 2021 yn ôl rhyw ynghyd â chymhariaeth yn erbyn blynyddoedd blaenorol a Phoblogaeth y Cyfrifiad diweddaraf, dyddiad 2011: Cymru (3,063,456)

| Rhyw | FGCW 31/03/2021 | % | FGCW 31/03/2020 | % | Cymru 2011 | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwryw | 5 | 19 | 4 | 17 | 1,504,228 | 49 |
| Benyw | 21 | 81 | 19 | 83 | 1,559,228 | 51 |
| **Cyfanswm** | **26** | | **23** | | **3,063,456** | |

## Ystadegau Oedran ein Gweithlu

(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Cyfrif pen fesul oedran ar 31 Mawrth 2021

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 a throsodd | Heb ddatgelu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 7 | 8 | 5 | 0 | 0 | 1 |

## Ystadegau Gweithlu a Adawodd
(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Gadawodd 3 yn ystod y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

- Gadawodd 2 o bobl i fynd i gyflogaeth arall
- Daeth prentisiaeth 1 person i ben.

## Ystadegau Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu
(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Cyfrif pen yn ôl rhyw, band cyflog, math o gytundeb a phatrwm gweithio'r aelodau tîm a gymerodd ran mewn cyfleoedd hyfforddiant a ddarparwyd yn allanol yn ystod y flwyddyn.

| Lefel Cyflog Blynyddol | Amser llawn parhaol gwryw | Amser llawn parhaol benyw | Amser llawn cyfnod penodedig benyw | Rhan amser parhaol benyw | Rhan amser cyfnod penodedig benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gradd 1 £20 - 23k | 1 | 1 | 2 | | 1 | **5** |
| Gradd 2 £25 – 28k | | 2 | 1 | | | **3** |
| Gradd 3 £31 – 36k | 1 | 2 | | | | **3** |
| Gradd 4 £39 – 44k | 1 | 2 | | 2 | | **5** |
| Gradd 5 £48 – 52k | 1 | 1 | | 1 | | **3** |
| Gradd 6 £59 - £63 | | | | 2 | | 2 |
| Secondiad a delir | | | | | 1 | **1** |
| **Cyfanswm** | **4** | **8** | **3** | **5** | **2** | **22** |

Cefnogwyd 22 o bobl i gyfranogi mewn digwyddiadau hyfforddi allanol ar draws y rhan fwyaf o raddau, rhyweddau a phatrymau gweithio.

## Ystadegau Gweithlu eraill
(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Mae gan 4% o'n gweithlu wedi datgelu anabledd, gan fod yn hyderus y byddwn ni'n gwneud popeth allwn ni fel sefydliad i'w cefnogi yn eu gwaith.

Mae 35% o'n gweithlu'n disgrifio'u hunain fel cymwys hyd at sgiliau canolraddol yn y Gymraeg.

Mae 85% o'n gweithlu'n disgrifio'u hunain fel Cymry neu Brydeinwyr, mae 15% o'n gweithlu'n cynrychioli cefndiroedd ethnig amrywiol eraill.

## Data Absenoldeb Salwch
(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Mae ffigurau absenoldeb salwch yn cael eu casglu, eu monitro a'u cofnodi ar gyfer aelodau o'r tîm a gyflogir yn uniongyrchol Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 roedd cyfartaledd o 22 o bobl wedi'u cyflogi'r uniongyrchol ac adroddwyd cyfradd absenoldeb salwch o 0.99% o'r oriau oedd ar gael (0.86% yn 2019-20). Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 39 diwrnod o salwch byrdymor a 13 diwrnod o salwch hirdymor (absenoldeb sy'n para mwy na 4 wythnos), gan effeithio ar 6 aelod o'r tîm.

## Taliadau nad ydynt ar y gyflogres
(nad ydynt yn agored i'w harchwilio)

Ni wnaed dim taliadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 (nil 2019-20).

**Sophie Howe**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
27 Gorffennaf 2021

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

## Y Dystysgrif ac adroddiad archwiliwr annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan baragraff 21 o atodlen 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 31 Mawrth 2021 a'i wariant net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; a
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob agwedd faterol, cafodd gwariant ac incwm yn y datganiadau ariannol eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail fy marn

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU Tudalen 14 o 22 – Adroddiad Archwilio Cyfrifon a Llythyr Rheoli – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gan gynnwys Safon foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen ar gyfer fy marn.

### Casgliadau'n ymwneud â'r natur weithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad fod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail 'busnes gweithredol' o gyfrifo am gyfnod nid llai na 12 mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio a'm hadroddiad archwilydd arno. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr Wybodaeth Arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad gwarantu arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu'n ymddangos ei bod fel arall wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon wedi digwydd, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar bob mater arall

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr Adroddiad Atebolrwydd gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant sydd i'w gyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod y Datganiad Llywodraethiant wedi'i baratoi yn unol â'r arweiniad hwnnw.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethiant yn gyson â'r datganiadau ariannol. Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Cyflog a Thâl, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi paratoi adroddiad o'r fath ac yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb Perfformiad a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yng nghwrs yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol na'r Datganiad Llywodraethiant.

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru **Future Generations** Commissioner for Wales

Nod oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol a adroddaf ger eich bron, os yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifon cywir na derbyn nodiadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na fu i'm tîm ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol a rhan archwiliedig yr Adroddiad Tâl a Chyflog yn gytûn â'r cofnodion a'r nodiadau cyfrifo;
- ni ddatgelir gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru o ran cyflog a thâl a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hagen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir yn ei sgil, am fodloni eu bod yn rhoi golwg wir a theg, ac ar gyfer unrhyw reolaeth fewnol y barn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu yn ôl y galw, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod yn amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw sicrhau gwarant resymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae gwarant resymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu yn gyfan gwbl, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- ymholi gan reolwyr, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth gefnogol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ymwneud â:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - datgelu ac ymateb i risgiau twyll ac a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, unrhyw amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - rheolau mewnol a sefydlwyd i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- adolygu allbynnau'r Adroddiadau Archwilio Mewnol.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddarpar arwyddwyr o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, gwelais gyfle i dwyllo yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw a datgan cyfnodolion anarferol.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithio ynddynt, canolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Yn ychwanegol at yr uchod, bu i fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a adwaenwyd gynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofion datganiadau ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- ymholi'r rheolwyr, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i drefn arferol busnes.

Yn ogystal, bu i mi gyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i'r holl dîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Lleolir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Cyfrifoldebau dros reoleidd-dra

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae gofyn i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi cael eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

28 Gorffennaf 2021

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfeithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfeithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Datganiadau ariannol

## Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i31.3.20 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Gwariant: | | | |
| Costau Gweinyddol: | | | |
| Costau staff | 2 | 1,169 | 1,324 |
| Dibrisiant | 3,4 | 3 | 7 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 424 | 432 |
| | | 1,596 | 1,763 |
| Incwm: | | | |
| Incwm arall | 8 | 214 | 165 |
| | | | |
| Gwariant net | | 1,382 | 1,598 |
| Llog taladwy / derbyniadwy | | - | - |
| Gwariant net ar ôl llog | | 1,382 | 1,598 |

| Gwariant Cynhwysfawr arall | Nodyn | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Elw / (colled) Net ar ailbrisio cyfarpar ac offer | | - | - |
| Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod o flwyddyn | | 1,382 | 1,598 |

Mae pob incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus. Nid oes unrhyw enillion na cholledion oni bai am y rhai a adroddir arnynt yn y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net.
Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 165-174 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Datganiad Safle Ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | | 2021<br>£000 | | 2020<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau anghyfredol: | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 4 | | - | | 3 |
| | | | | | |
| Asedau cyfredol: | | | | | |
| Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill | 5 | 33 | | 43 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 6 | 483 | | 369 | |
| | | | | | |
| | | | 516 | | 412 |
| Cyfanswm asedau | | | | | |
| | | | 516 | | 415 |
| Dyledion cyfredol: | | | | | |
| Masnach ac eitemau taladwy eraill | 7 | | (117) | | (153) |
| | | | | | |
| Cyfanswm asedau llai dyledion cyfredol: | | | 399 | | 262 |
| | | | | | |
| Dyledion hirdymor: | | | | | |
| Darparu ar gyfer dadfeiliadau | 9 | | (15) | | (5) |
| | | | | | |
| Cyfanswm asedau llai cyfanswm dyledion | | | 384 | | 257 |
| | | | | | |
| Ecwiti'r trethdalwr: | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | 384 | | 257 |

**Sophie Howe,**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Swyddog Cyfrifo
27 Gorffennaf 2021

Mae'r nodiadau ar dudalennau 165-174 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Llif Arian ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 1.4.20 i 31.3.21<br>£000 | 1.4.19 i 31.3.20<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant Net | | (1,382) | (1,598) |
| Addasiad ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 3,4 | 3 | 7 |
| (Cynnydd)/lleihad mewn masnach a derbynolion eraill | 5 | 10 | (16) |
| Cynnydd/(lleihad) mewn masnach taladwy | 7 | (36) | (9) |
| Cynnydd/(lleihad) mewn darpariaeth | 9 | 10 | - |
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | (1,395) | (1,616) |
| | | | |
| Llif arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 4 | - | - |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | - | - |
| | | | |
| All-lif arian parod | | (1,395) | (1,616) |
| | | | |
| Llif arian o weithgareddau cyllido | | - | - |
| | | | |
| Cyllido Net | | 1,509 | 1,564 |
| (Cynnydd)/lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 6 | 114 | (52) |
| | | | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod | | 369 | 421 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | 483 | 369 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 165-174 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

| | | 1.4.20 i 31.3.21 | 1.4.19 i 31.3.20 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | | 257 | 291 |
| | | | |
| **Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr 2020-2021** | | | |
| **Cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru** | | 1,509 | 1,564 |
| **Gwariant cynhwysfawr net ar gyfer y flwyddyn** | | (1,382) | (1,598) |
| | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **384** | **257** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 165-174 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1. Datganiad polisïau cyfrifo

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodi Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi ar gyfer y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn y FReM yn gweithredu Safonau Cofnodi Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd y FR3M yn caniatâu gwneud dewis o ran polisi cyfrifo, detholwyd y polisi cyfrifo a farnwyd fwyaf addas i amgylchiadau penodol y Comisiynydd i bwrpas rhoi golwg wir a theg. Cawsant eu gweithredu'n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol yng nghyd-destun y cyfrifon.

Mae fy nhîm wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt yn weithredol eto, ac na chawsant eu mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Safonau Cofnodi Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS) Prydlesau IFRS16, mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn mewn cyfnodau i ddod yn cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Ni ellir rhagweld yn rhesymol effaith IFRS16, a fydd yn weithredol o 2022-2023, ar hyn o bryd

Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol ar gyfer fy swyddfa isod.

### 1.1 Yr arfer o gyfrifo

Cafodd y cyfrifon hyn eu paratoi dan arferion cost hanesyddol, am yr ystyrir, yn fy marn i, fod effaith ailwerthuso asedau gosodedig yn ôl eu gwerth i'r sefydliad drwy gyfeirio at eu cost bresennol yn amherthnasol.

### 1.2 Cyllid

Daw prif ffynhonnell cyllido ar gyfer fy swyddfa oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ffurf grant blynyddol, a gredydir i'r brif gronfa pan dderbynnir y grant. Cesglir arian hefyd drwy ffioedd ar gyfer cefnogi, cynghori a chynorthwyo ar fy rhan i a'm tîm dan swyddogaethau'r Comisiynydd Adran 19 a) d) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

### 1.3 Eiddo, cyfarpar ac offer

Cafodd pob ased anghyfredol ei werthuso ar gost hanesyddol (gweler 1.1 uchod). Codwyd isafswm lefel cyfalafu asedau unigol o £1,000 i £2,500 er mwyn cyd-fynd yn well â threfniadau cyllido a gwella effeithlonrwydd gweinyddu cyfrifo. Cafodd niferoedd mawr o'r un math o ased eu grwpio ynghyd wrth benderfynu a oedden nhw'n dod uwchlaw'r trothwy neu o dano.

### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar raddfeydd a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau anghyfredol drwy gyfrwng rhandaliadau cyfartal dros eu hamcan-oes defnyddiol, fel a ganlyn:

- Offer TGCh 3 blynedd
- Celfi 3 blynedd

Telir dibrisiant blwyddyn gyfan yn ystod blwyddyn y caffaeliad.

### 1.5 Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net

Incwm a gwariant gweithredol yw hwnnw sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu fy swyddfa. Mae'n cynnwys costau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost llawn. Dosberthir pob gwariant fel gwariant gweinyddol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## 1.6 Treth Ar Werth

Nid yw fy swyddfa wedi'i chofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau gosodedig â TAW yn gynwysedig, am nad oes modd adfer TAW.

## 1.7 Pensiynau

Caiff fy staff eu diogelu ar y cyfan gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn Y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun â buddion wedi'u diffinio. Cydnabyddir cost yr elfen buddion a ddiffinnir ar sail systematig a chymarebol dros y cyfnod pan fydd yn derbyn buddion o wasanaethau cyflogeion drwy dalu i'r PCSPS symiau a gyfrifwyd ar sail ddeilliannol. Mae dyled ar gyfer talu buddion i'r dyfodol yn gost ar y PCSPS. O ran unrhyw gynllun cyfraniadau a ddiffiniwyd, mae fy swyddfa'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn; cyfrifir y symiau hyn i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net yn ystod blwyddyn eu talu.

## 1.8 Prydlesau

Dynodir asedau ble mae pob perygl a gwobr, i bob pwrpas, sy'n deillio o berchnogi ased a brydleswyd yn cael eu cynnal gan fy swyddfa fel prydlesau ariannol. Nid oes gan fy swyddfa brydlesau ariannol.

Cyfrifir rhentiadau prydlesau gweithredu i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net mewn symiau cydradd dros holl dymor y brydles.

## 1.9 Cofnodi segmentaidd

Mae fy swyddfa'n gweithredu yng Nghymru ac mae'n ymdrin â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Mae'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net a nodiadau cysylltiol yn adlewyrchu'r segmentau y cofnodir y canlyniadau gweithredu ynddynt.

## 1.10 Treuliau staff

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor-byr a ddigolledir, fel gwyliau blynyddol na chafodd ei gymryd ar ddiwedd blwyddyn yn unol ag IAS19.

## 1.11 Gofynion

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gytundebol sy'n ansicr o ran amseru neu symiau ar ddyddiad y fantolen, ar sail gwneud amcan gorau o ran faint o wariant fyddai'i angen i ateb y rhwymedigaeth.

## 1.12 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae fy swyddfa'n cadw arian parod a adneuir mewn cyfrif oddi fewn i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl ei dderbyn. Nid yw fy swyddfa'n cadw unrhyw arian mân.

## 2. Costau staff

Ar gyfer y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau ac enillion | 834 | 921 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 86 | 95 |
| Costau Pensiwn | 224 | 228 |
| Is-gyfanswm | 1,144 | 1,244 |
| Secondiadau am i mewn a staff asiantaeth | 25 | 80 |
| Cyfanswm Costau Net | 1,169 | 1,324 |

## 3. Costau gweinyddol eraill

| | 1.4.20 i 31.3.21 | | 1.4.19 i 31.3.20 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 3.1 Costau gweinyddol: | | | | |
| Safle | 52 | | 52 | |
| Swyddfeydd | 147 | | 181 | |
| Hyfforddi a recriwtio | 15 | | 14 | |
| Teithio a Chynhaliaeth | - | | 25 | |
| Tâl i'r archwilydd allanol | 16 | | 16 | |
| Tâl i'r archwilydd mewnol | 12 | | 10 | |
| Offer TGCh | 44 | | 31 | |
| Gwaith prosiect | 128 | | 103 | |
| | | 414 | | 432 |
| 3.2 Eitemau di-arian-parod: | | | | |
| Taliad dibrisiant ar asedau cyffredin | 3 | | 7 | |
| Colled ar waredu asedau gosodedig | - | | - | |
| Darparu ar gyfer dadfeiliadau | 10 | | - | |
| | | 13 | | 7 |
| | | | | |
| | | 427 | | 439 |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## 4. Eiddo, cyfarpar ac offer

| | Offer TGCh | Celfi ac offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 39 | 2 | 41 |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 39 | 2 | 41 |
| | | | |
| Dibrisiant | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 36 | 2 | 38 |
| Codwyd amdanynt yn y flwyddyn | 3 | - | 3 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 39 | 2 | 41 |
| | | | |
| Gwerth net ar y llyfrau ar 1 Ebrill 2020 | 3 | - | 3 |
| Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2021 | - | - | - |

## 5. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau presennol eraill

| | 31.03.21 | 31.03.20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 14 |
| Blaendaliadau ac incwm a grynhowyd | 21 | 14 |
| Ased cytundebol | - | 14 |
| Benthyciad i gyflogai | - | 1 |
| | | |
| | **33** | **43** |

Mae gan Nodyn 8 wybodaeth am yr ased cytundebol.

## 6. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 31.03.21 | 31.03.20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 369 | 421 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 114 | (52) |
| Balans ar 31 Mawrth 2021 | 483 | 369 |

Cafodd pob balans ar 31 Mawrth 2021 eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 7. Symiau masnach taladwy a dyledion presennol eraill

| | 31.03.21 | 31.03.20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau masnach taladwy | 2 | 11 |
| Croniadau | 77 | 71 |
| Dyledion cytundebol | 38 | 71 |
| | **117** | **153** |

Mae gan Nodyn 8 wybodaeth am y ddyled gytundebol.

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru
**Future Generations** Commissioner for Wales

## 8. Incwm arall, asedau a dyledion cytundebol

Cafodd incwm arall ei gynhyrchu drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth ac fe'i datgelwyd yn unol â gofynion IFRS 15.

### Incwm arall

| | | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion** | **Incwm arall oddi wrth:** | **Swm (£000)** | **Cyfanswm (£000)** | **Swm (£000)** | **Cyfanswm (£000)** |
| **Cyfraniad i brosiectau ar y cyd** | Llywodraeth Cymru | 67 | 80 | 15 | 18 |
| | Iechyd Cyhoeddus Cymru | 13 | | - | |
| | Prifysgol Caerdydd | - | | 2 | |
| | Busnes yn y Gymuned | - | | 1 | |
| **Cyfraniad i Academi Arwain Cenedlaethau'r Dyfodol** | Gwasanaethau Cartref y BBC | 7 | 71 | 5 | 50 |
| | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 7 | | 5 | |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru | 7 | | 5 | |
| | Iechyd Cyhoeddus Cymru | 7 | | 5 | |
| | Trafnidiaeth Cymru | 7 | | 5 | |
| | Canolfan Mileniwm Cymru | 7 | | 5 | |
| | Arup and Partners International Ltd | 5 | | 3 | |
| | Prifysgol De Cymru | 5 | | 3 | |
| | Celsa | 4 | | 3 | |
| | Costain | 4 | | 3 | |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru | 4 | | 3 | |
| | Principality | 4 | | 3 | |
| | ScoutsCymru | 3 | | 2 | |
| **Secondiadau allan** | Llywodraeth Cymru | 41 | 61 | 61 | 75 |
| | Cyngor Caerdydd | 17 | | - | |
| | Comisiynydd Plant Cymru | 3 | | 14 | |
| **Grant prosiect (incwm o'r UE ar gyfer prosiect Caffael Moesol)** | Swyddfa Eiriol Masnach Deg | 2 | 2 | 6 | 6 |
| **Incwm amrywiol arall** | Incwm amrywiol | - | - | 16 | 16 |
| **Total (£000)** | | **214** | **214** | **165** | **165** |

### Asedau contract

| | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo** | **Refeniw y disgwylir iddo gael ei gydnabod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf** | **Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo** | **Refeniw y disgwylir iddo gael ei gydnabod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Ymestyn cytundeb secondiad Llywodraeth Cymru am 12 mis (Ion 2020 – Ion 2021, cyfanswm y cytundeb £61k.) Daeth yr estyniad i ben yn Tach 2020, cyn dyddiad diweddu'r cytundeb gwreiddiol. Cydnabuwyd £41k fel refeniw yn 2020-21.** | 41 | - | 14 | 47 |
| **Cytundeb secondiad allan Llywodraeth Cymru: (12 mis, Ion 2019 – Ion 2020, cyfanswm y cytundeb £58k)** | - | - | 45 | - |
| **Llenyddiaeth Cymru: Cyfraniad at swydd Bardd Preswyl: (12 mis, Maw 2019 – Chwe 2020, cyfanswm y cytundeb £500)** | - | - | 1 | - |
| **Total** | **41** | **-** | **60** | **47** |

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Dyledion Cytundebol

| | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo | Refeniw y disgwylir iddo gael ei gydnabod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf | Refeniw a gydnabyddir yn y cyfnod cyfrifo | Refeniw y disgwylir iddo gael ei gydnabod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Llywodraeth Cymru: cyllid ar gyfer Cynllun Gweithredu Cenedl Gyfrifol yn Fyd-eang 2020-21: (cyfanswm y cytundeb £98k) | 67 | 31 | - | - |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru: cyfraniad at gynllun gwaith ar y cyd: (cyfanswm y cytundeb £10k) | 8 | 2 | - | - |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru: cyfraniad at brosiect ymchwil (cyfanswm y cytundeb £10k) | 5 | 5 | - | - |
| Sefydliadau partner Academi Arweinyddiaeth CD: cyfraniad at Academi Arweinyddiaeth CD (cyfanswm y cytundeb £121k) | 71 | - | 50 | 71 |
| Llywodraeth Cymru a Busnes yn y Gymuned: cyfraniad at brosiect ar y cyd am 14 wythnos (Ion - Ebr 2019, cyfanswm y cytundeb £6k) | - | - | 3 | - |
| **Total** | **151** | **38** | **53** | **71** |

## 9. Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau

| | 31.03.21 | 31.03.20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 5 | 5 |
| Defnydd o'r ddarpariaeth | - | - |
| Darpariaeth yn y flwyddyn | 10 | - |
| Balance as at 31 March 2021 | 15 | 5 |

## 10. Ymrwymiadau dan brydlesau

Roedd y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol o ran prydlesau gweithredu'n dod i ben

| | 2020-21 | | 2019-20 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | | £000 | |
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Rhwymedigaethau dan brydlesau gweithredu: | | | | |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 40 | - | 56 | 1 |
| Hwyrach na blwyddyn ac nid hwyrach na phum mlynedd | - | - | 40 | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| | **40** | **-** | **96** | **1** |

Cyfanswm y taliadau prydles a gydnabyddir ar gyfer y cyfnod cyfrifo hwn yw £53,924 (£59,022 yn 2019-20).

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## 11. Offerynnau ariannol

Mae Offerynnau Ariannol IFRS7 yn galw am ddatgelu'r rôl sydd a chwaraewyd gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risg a wynebir gan gorff wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol fy ngweithgareddau a'r modd y cyllidir fy ngweithredoedd, nid yw fy Swyddfa'n agored i'r gyfradd o risg ariannol a wynebir gan gyrff busnes. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan lawer mwy cyfyngedig mewn creu neu newid risg nag a fyddai'n arferol ymysg y cwmnïau rhestredig y bydd IFRS7 fel arfer yn berthnasol iddynt. Mae gennyf rymoedd cyfyngedig iawn i fenthyca neu fuddsoddi arian dros ben a chynhyrchu asedau a dyledion ariannol drwy gyfrwng gweithgareddau beunyddiol, ac nid ydynt yn cael eu dal i newid y peryglon a wynebaf wrth ymgymryd â gweithgareddau.

**Risg hylifedd**
Mae gofynion adnoddau net refeniw a chyfalaf fy Swyddfa'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw fy swyddfa'n agored i beryglon hylifedd sylweddol o ganlyniad.

**Risg cyfradd llog**
Nid yw asedau a dyledion ariannol fy Swyddfa'n agored i beryglon cyfraddau llog.

**Risg Arian Tramor**
Nid yw asedau a dyledion ariannol fy Swyddfa'n agored i beryglon arian tramor.

**Gwerthoedd teg**
Nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a dyledion ariannol fy Swyddfa ar 31 Mawrth 2021.

## 12. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020– nil).

## 13. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oedd dim rhwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020 – nil).

## 14. Trafodion partïon perthynol

Mae Llywodraeth Cymru'n barti perthynol. Derbyniodd fy swyddfa ei brif ffynhonnell ariannu gan Lywodraeth Cymru (£1,509 miliwn ar gyfer 2020-21 a £1.564 miliwn ar gyfer 2019-20). Bu i fy swyddfa hefyd dderbyn incwm arall o £108k ynghyd â gwariant nil gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol (incwm £68k, gwariant £18k yn ystod y cyfnod cyfrifo blaenorol).

Darperir cyflogres fy swyddfa drwy gytundeb allanol i Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (PSOW) a chafwyd nifer fechan o drafodion perthnasol yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â gweithredu'r gyflogres a phensiynau, gyda PSOW,

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Swyddfa'r Cabinet. Mae Nodyn 8 yn darparu rhestr o incwm a dderbyniwyd gan sefydliadau eraill o ran gwaith fy Swyddfa Nid oedd dim trafodion perthnasol â sefydliadau ble roedd staff hŷn, neu unrhyw aelod o'u teulu, yn dal swyddi dylanwadol.

## 15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod cofnodi

Ar 17 Mehefin 2021, rhoddodd y Comisiynydd rybudd i Landlord ein llety swyddfa presennol yn Heol y Santes Fair Caerdydd i'n bwriad i weithredu cymal torri i'r brydles a ddaw'n weithredol ar 21 Rhagfyr 2021. Mae'r Comisiynydd wrthi'n trafod ar hyn o bryd i sicrhau prydles newydd gyda landlord newydd yn rhywle arall yng Nghaerdydd. Ceisiwyd a chafwyd cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y llwybr gweithredu hwn fel sy'n ofynnol dan baragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Heblaw am ailystyried y ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau, ni wnaed dim addasiad i'r Datganiadau Ariannol yn wyneb y digwyddiad hwn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo ar gyfer eu cyhoeddi ar 27 Gorffennaf 2021 gan Sophie Howe.

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol y Santes Fair
Caerdydd
CF10 1AT

02921 677 400

Dylunio: www.yogicomms.uk